



OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2021 Rhif 406 (Cy. 132)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021

Gwnaed

am 2.10 p.m. ar 24 Mawrth 2021

Yn dod i rym

1 Medi 2021

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2021 No. 406 (W. 132)

EDUCATION, WALES

The Education Tribunal for Wales Regulations 2021

Made

at 2.10 p.m. on 24 March 2021

Coming into force

1 September 2021

£12.65



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2021 Rhif 406 (Cy. 132)

2021 No. 406 (W. 132)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**Rheoliadau Tribiwnlys Addysg
Cymru 2021**

**The Education Tribunal for Wales
Regulations 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn mewn achosion gerbron Tribiwnlys Addysg Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch arfer awdurdodaeth y Tribiwnlys hwnnw o dan Ran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, sy'n ymwneud ag apelau anghenion dysgu ychwanegol, a Phennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n ymwneud â hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd mewn cysylltiad â disgyblion ysgol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations set out the procedure to be followed in proceedings before the Education Tribunal for Wales. These Regulations make provision relating to the exercise of that Tribunal's jurisdiction under Part 2 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 which concerns additional learning needs appeals, and Chapter 1 of Part 6 of the Equality Act 2010 which concerns claims of disability discrimination in respect of school pupils.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government at Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and on the Welsh Government website at www.gov.wales.

2021 Rhif 406 (Cy. 132)

2021 No. 406 (W. 132)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**Rheoliadau Tribiwnlys Addysg
Cymru 2021**

**The Education Tribunal for Wales
Regulations 2021**

Gwnaed *am 2.10 p.m. ar 24 Mawrth 2021*

Made *at 2.10 p.m. on 24 March 2021*

Yn dod i rym *1 Medi 2021*

Coming into force *1 September 2021*

CYNNWYS

CONTENTS

- | | | | |
|-----|---|-----|--|
| 1. | Enwi a chychwyn | 1. | Title and commencement |
| 2. | Dehongli | 2. | Interpretation |
| 3. | Cymhwyso | 3. | Application |
| 4. | Y prif amcan | 4. | The overriding objective |
| 5. | Rhwymedigaeth ar y partïon i gydweithredu | 5. | Parties' obligation to co-operate |
| 6. | Dulliau eraill o ddatrys anghydfod | 6. | Alternative dispute resolution |
| 7. | Aelodau'r panel lleyg | 7. | Lay panel members |
| 8. | Sefydlu paneli tribiwnlys | 8. | Establishment of tribunal panels |
| 9. | Aelodaeth panel tribiwnlys | 9. | Membership of tribunal panel |
| 10. | Y cyfnod y mae rhaid i achos gael ei gychwyn ynddo | 10. | Period within which proceedings must be commenced |
| 11. | Cais apelio | 11. | Appeal application |
| 12. | Cais hawlio | 12. | Claim application |
| 13. | Camau gweithredu gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys | 13. | Action by the Secretary of the Tribunal |
| 14. | Apêl neu hawliad a wneir y tu allan i'r amser | 14. | Appeal or claim made out of time |
| 15. | Digonolrwydd rhesymau | 15. | Sufficiency of reasons |
| 16. | Cynrychiolwyr yr apelydd neu'r hawlydd | 16. | Appellant's or claimant's representatives |
| 17. | Cyfnodau'r datganiad achos | 17. | Case statement periods |
| 18. | Datganiad achos yr apelydd neu'r hawlydd | 18. | Appellant or claimant's case statement |
| 19. | Datganiad achos a thystiolaeth yr awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol sy'n ymateb | 19. | The respondent local authority, FEI governing body or responsible body's case statement and evidence |

20.	Newid cynrychiolydd corff llywodraethu'r SAB, yr awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol sy'n ymateb	20.	Change of representative of respondent FEI governing body, local authority or responsible body
21.	Newid yr awdurdod lleol mewn apêl	21.	Change of local authority in an appeal
22.	Copiau o ddogfennau i'r partion	22.	Copy documents for parties
23.	Methiant i gyflwyno datganiad achos ac absenoldeb gwrthwynebiad	23.	Failure to submit a case statement and absence of opposition
	<i>Ymholiadau'r Tribiwnlys</i>		<i>Tribunal enquiries</i>
24.	Ymholiadau gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys	24.	Enquiries by the Secretary of the Tribunal
25.	Methiant i ymateb i ymholiadau a wneir gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys	25.	Failure to respond to enquiries made by the Secretary of the Tribunal
26.	Pŵer i ddileu'r apêl neu'r hawliad	26.	Power to strike out the appeal or claim
27.	Gorchymyn i ddiwygio datganiad achos	27.	Order to amend case statement
28.	Tystiolaeth a chyflwyniadau	28.	Evidence and submissions
29.	Rheoli'r achos a chyfarwyddydau	29.	Case management and directions
30.	Amrywio cyfarwyddydau neu eu gosod o'r neilltu	30.	Varying or setting aside directions
31.	Manylion a datganiadau atodol	31.	Particulars and supplementary statements
32.	Datgelu dogfennau a deunydd arall	32.	Disclosure of documents and other material
33.	Methiant i gydymffurfio â chyfarwyddydau	33.	Failure to comply with directions
34.	Cydgrynhoi apelau neu hawliadau	34.	Consolidating appeals or claims
35.	Cydgrynhoi hawliadau gydag apelau	35.	Consolidating claims together with appeals
36.	Ychwanegu ac amnewid partion	36.	Addition and substitution of parties
37.	Hysbysu am ddyddiad, lleoliad ac amser gwrandawliadau	37.	Notice of date, place and time of hearings
38.	Trosglwyddiadau	38.	Transfers
39.	Pŵer i benderfynu'r apêl neu'r hawliad heb wrandawriad	39.	Power to determine the appeal or claim without a hearing
40.	Gwrandawliadau cyhoeddus a phreifat: trefniadau ac eithriadau	40.	Public and private hearings: arrangements and exceptions
41.	Gorchmynion sy'n cyfyngu ar adrodd	41.	Restricted reporting orders
42.	Y weithdrefn mewn gwrandawriad	42.	Procedure at hearing
43.	Tystiolaeth mewn gwrandawriad	43.	Evidence at hearing
44.	Newid tyst	44.	Change of witness
45.	Gwysio tyst	45.	Summoning a witness
46.	Tystiolaeth dros y ffôn, drwy gyswllt fideo neu drwy ddulliau eraill	46.	Evidence by telephone, video link or other means
47.	Tystiolaeth ysgrifenedig sy'n hwyr	47.	Late written evidence

48.	Gohirio gwrandawriad cyn ei gychwyn	48.	Postponement of hearing
49.	Gohiriadau ar ôl cychwyn a chyfarwyddydau	49.	Adjournments and directions
50.	Cynrychiolaeth mewn gwrandawriad	50.	Representation at hearing
51.	Methiant i fod yn bresennol mewn gwrandawriad	51.	Failure to attend hearing
52.	Penderfyniad y panel tribiwnlys <i>Ar ôl y gwrandawriad</i>	52.	Tribunal panel's decision <i>After the hearing</i>
53.	Cais neu gynnig ar gyfer adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys	53.	Application or proposal for review of the Tribunal's decision
54.	Adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys i beidio ag estyn y cyfnod a ganiateir ar gyfer cychwyn achos	54.	Review of Tribunal's decision not to extend the period in which proceedings must be commenced
55.	Cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys	55.	Application for permission to appeal to the Upper Tribunal
56.	Pŵer i atal dros dro benderfyniad y Tribiwnlys	56.	Power to suspend Tribunal's decision
57.	Gorchmynion yr Uwch Dribiwnlys neu'r Llys	57.	Orders of the Upper Tribunal or the Court
58.	Cydymffurfio â gorchmynion y panel tribiwnlys – apelau <i>Plant nad oes ganddynt alluedd a chyfeillion achos</i>	58.	Compliance with tribunal panel orders - appeals <i>Children who lack capacity and case friends</i>
59.	Ceisiadau o dan adran 70(3) o Ddeddf 2018 am ddatganiad o dan adran 71(2) o Ddeddf 2018 sy'n ymwneud â galluedd plentyn i ddeall	59.	Applications under section 70(3) of the 2018 Act for a declaration under section 71(2) of the 2018 Act relating to child's capacity to understand
60.	Pwy a gaiff fod yn gyfaill achos	60.	Who may be a case friend
61.	Sut y daw person yn gyfaill achos	61.	How a person becomes a case friend
62.	Camau mewn achosion	62.	Steps in proceedings
63.	Diswyddo cyfaill achos <i>Amrywiol</i>	63.	Removing a case friend <i>Miscellaneous</i>
64.	Cyrff GIG – Adroddiadau i'r Tribiwnlys	64.	NHS bodies – Reports to the Tribunal
65.	Estyn yr amser	65.	Extension of time
66.	Tynnu'n ôl	66.	Withdrawal
67.	Gorchmynion ar gyfer costau a threuliau	67.	Orders for costs and expenses
68.	Pŵer i arfer swyddogaethau'r Llywydd a'r Cadeirydd	68.	Power to exercise the functions of the President and Chair
69.	Pŵer i arfer swyddogaethau aelod o'r panel mewn perthynas ag adolygiad	69.	Power to exercise the functions of a panel member in relation to a review
70.	Ysgrifennydd y Tribiwnlys	70.	The Secretary of the Tribunal

71. Y Gofrestr
72. Cyhoeddi
73. Afreoleidd-dra
74. Profi dogfennau ac ardystio penderfyniadau
75. Y dull o anfon, rhoi neu gyflwyno hysbysiadau a dogfennau
76. Cyfrifo amser
77. Llofnodi dogfennau

71. Register
72. Publication
73. Irregularities
74. Proof of documents and certification of decisions
75. Method of sending, submitting or serving notices and documents
76. Calculating time
77. Signature of documents

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 70(4), 74, 75, 76(3), 77, 91(6) a 92(2) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(1), a chan adran 207(4) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(2) a pharagraffau 6(1), (2) i (5) a (7) a 6A o Atodlen 17 iddi.

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by sections 70(4), 74, 75, 76(3), 77, 91(6) and 92(2) of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018(1) and section 207(4) of, and paragraphs 6(1), (2) to (5) and (7) and 6A of Schedule 17 to, the Equality Act 2010(2).

Yn unol ag adran 98(3) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ac adran 209(6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru(3), ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

In accordance with section 98(3) of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018 and section 209(6) of the Equality Act 2010, a draft of these Regulations was laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru(3).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021 a deuant i rym ar 1 Medi 2021.

Title and commencement

1. The title of these Regulations is the Education Tribunal for Wales Regulations 2021 and they come into force on 1 September 2021.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “apêl” (“*appeal*”) yw—

- (a) yn ddarostyngedig i baragraff (b), apêl i'r Tribiwnlys o dan Ran 2 o Ddeddf 2018 yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol neu gorff llywodraethu SAB;
- (b) yn rheoliadau 55 i 57, apêl i'r Uwch Dribiwnlys yn erbyn penderfyniad y panel tribiwnlys;

ystyr “apelydd” (“*appellant*”) yw person a chanddo hawlogaeth i apelio i'r Tribiwnlys o dan Ran 2 o Ddeddf 2018;

Interpretation

2.—(1) In these Regulations—

“the 1996 Act” (“*Deddf 1996*”) means the Education Act 1996(4);

“the 2010 Act” (“*Deddf 2010*”) means the Equality Act 2010;

“the 2018 Act” (“*Deddf 2018*”) means the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018;

(1) 2018 decc 2; gweler adran 99(1) am y diffiniadau o “rhagnodedig” ac “a ragnodir” a “rheoliadau”.
 (2) 2010 p. 15; gweler adran 212(1) am y diffiniad o “prescribed”. Diwygiwyd Deddf 2010, gan gynnwys amnewid paragraff 6A yn Atodlen 17 iddi, gan baragraff 19 o Atodlen 1 i Ddeddf 2018.
 (3) Mae'r cyfeiriadau yn adran 98(3) o Ddeddf 2018 ac adran 209(6) o Ddeddf 2010 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w darllen bellach fel pe baent yn gyfeiriadau at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(1) 2018 anaw 2; see section 99(1) for the definitions of “prescribed” and “regulations”.
 (2) 2010 c. 15; see section 212(1) for the definition of “prescribed”. Paragraph 19 of Schedule 1 to the 2018 Act amended the 2010 Act including substituting paragraph 6A of Schedule 17.
 (3) The references in section 98(3) of the 2018 Act and section 209(6) of the 2010 Act to the National Assembly for Wales are now to be read as references to Senedd Cymru by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).
 (4) 1996 c. 56.

ystyr “awdurdod” (“*authority*”) yw awdurdod ac eithrio'r awdurdod lleol a wnaeth y penderfyniad a herir;

ystyr “awdurdod lleol” (“*local authority*”) yw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru a wnaeth y penderfyniad a herir;

ystyr “Cadeirydd” (“*Chair*”) yw'r Llywydd neu berson a benodir o dan adran 91(4) o Ddeddf 2018 i'r panel o bersonau a gaiff wasanaethu fel cadeirydd cyfreithiol y Tribiwnlys;

ystyr “clerc i'r panel tribiwnlys” (“*clerk to the tribunal panel*”) yw'r person a benodir gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys i weithredu fel clerc mewn un neu ragor o wrandawiaidau;

ystyr “Cofrestr” (“*Register*”) yw'r gofrestr y mae'n ofynnol ei chadw o dan reoliad 71;

mae i “corff cyfrifol” yr ystyr a roddir i “responsible body” gan adran 85(9) o Ddeddf 2010;

ystyr “corff llywodraethu SAB” (“*FEI governing body*”) yw corff llywodraethu sefydliad addysg bellach yng Nghymru a wnaeth y penderfyniad a herir ac mae iddo'r ystyr a roddir gan adran 90 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(1) fel y cyfeirir ati yn adran 99 o Ddeddf 2018;

ystyr “cyfaill achos” (“*case friend*”) yw person a benodir gan y Tribiwnlys yn unol ag adran 85 o Ddeddf 2018 a rheoliadau 60 i 62, i arfer hawl y plentyn i wneud apêl neu hawliad ar ran y plentyn;

ystyr “cyfeiriad e-bost” (“*e-mail address*”) yw cyfeiriad post electronig person;

ystyr “cyfnod datganiad achos” (“*case statement period*”) yw'r cyfnod a bennir yn rheoliad 17;

ystyr “datganiad achos” (“*case statement*”) yw'r datganiad achos a gyflwynir yn unol â rheoliad 18 neu 19;

ystyr “Deddf 1996” (“*the 1996 Act*”) yw Deddf Addysg 1996(2);

ystyr “Deddf 2010” (“*the 2010 Act*”) yw Deddf Cydraddoldeb 2010;

ystyr “Deddf 2018” (“*the 2018 Act*”) yw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018;

ystyr “diwrnod gwaith” (“*working day*”) yw unrhyw ddiwrnod ac eithrio—

(a) dydd Sadwrn,

(b) dydd Sul,

“appeal” (“*apêl*”) means—

(a) subject to paragraph (b), an appeal to the Tribunal under Part 2 of the 2018 Act against a decision of a local authority or FEI governing body;

(b) in regulations 55 to 57, an appeal to the Upper Tribunal against the tribunal panel's decision;

“appellant” (“*apelydd*”) means a person entitled to appeal to the Tribunal under Part 2 of the 2018 Act;

“authority” (“*awdurdod*”) means an authority other than the local authority that made the disputed decision;

“case friend” (“*cyfaill achos*”) means a person appointed by the Tribunal in accordance with section 85 of the 2018 Act and regulations 60 to 62, to exercise the child's right of appeal or claim on behalf of the child;

“case statement” (“*datganiad achos*”) means the statement of case submitted in accordance with regulation 18 or 19;

“case statement period” (“*cyfnod datganiad achos*”) is the period specified in regulation 17;

“Chair” (“*Cadeirydd*”) means the President or a person appointed under section 91(4) of the 2018 Act to the panel of persons who may serve as the legal chair of the Tribunal;

“child” (“*plentyn*”) means a person who is the subject of the appeal or claim;

“claim” (“*hawliad*”) means a claim for disability discrimination under Chapter 1 of Part 6 of, and Schedule 17 to, the 2010 Act;

“claimant” (“*hawlydd*”) means a person entitled to make a claim to the Tribunal under Chapter 1 of Part 6 of, and Schedule 17 to, the 2010 Act;

“clerk to the tribunal panel” (“*clerc i'r panel tribiwnlys*”) means the person appointed by the Secretary of the Tribunal to act as clerk at one or more hearings;

“disputed decision” (“*penderyniad a herir*”) means the decision or act, or the failure to decide or act, in respect of which the appeal or claim is brought;

“document” (“*dogfen*”) means anything in which information of any description is recorded;

“electronic signature” (“*llofnod electronig*”) has the meaning given to it by section 7 of the Electronic Communications Act 2000(1);

(1) 1992 p. 13.

(2) 1996 p. 56.

(1) 2000 c. 7.

- (c) unrhyw ddiwrnod o 25 Rhagfyr i 1 Ionawr yn gynwysedig,
- (d) dydd Gwener y Groglith,
- (e) y dydd Llun cyntaf ym mis Mai,
- (f) unrhyw ddiwrnod ym mis Awst, neu
- (g) diwrnod sy'n wyl banc yng Nghymru a Lloegr o dan adran 1 o Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(1);

ystyr “dogfen” (“*document*”) yw unrhyw beth y cofnodir gwybodaeth o unrhyw ddisgrifiad ynddo;

ystyr “gwrandawriad” (“*hearing*”) yw gwrandawriad gerbron y Llywydd, Cadeirydd neu'r panel tribiwnlys at ddiben galluogi'r Llywydd, Cadeirydd neu'r panel tribiwnlys i wneud penderfyniad ar apêl, hawliad, cais neu unrhyw gwestiwn neu fater y mae hawlogaeth gan y partïon i fod yn bresennol a chael eu clywed ynddo, ac mae'n cynnwys gwrandawriad a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyswllt fideo, ar y ffôn neu drwy ddull arall o gyfathrebu electronig dwyffordd disymwth;

ystyr “gwŷs tyst” (“*witness summons*”) yw dogfen a ddyroddir gan y Llywydd neu'r panel tribiwnlys sy'n ei gwneud yn ofynnol i dyst fod yn bresennol mewn gwrandawriad o apêl neu hawliad, i roi tystiolaeth, neu ddangos dogfennau, mewn perthynas ag apêl neu hawliad i'r Tribiwnlys;

ystyr “hawliad” (“*claim*”) yw hawliad ar gyfer gwahaniaethu ar sail anabledd o dan Bennod 1 o Ran 6 o Ddeddf 2010 ac Atodlen 17 iddi;

ystyr “hawlydd” (“*claimant*”) yw person a chanddo hawlogaeth i wneud hawliad i'r Tribiwnlys o dan Bennod 1 o Ran 6 o Ddeddf 2010 ac Atodlen 17 iddi;

mae i “llofnod electronig” yr ystyr a roddir i “electronic signature” gan adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000(2);

ystyr “panel tribiwnlys” (“*tribunal panel*”) yw panel o'r Tribiwnlys a gaiff benderfynu apêl neu hawliad neu unrhyw gwestiwn neu fater mewn perthynas ag apêl neu hawliad;

ystyr “parti” (“*party*”) yw—

- (a) mewn apêl, yr apelydd, yr awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'r SAB, a
- (b) mewn hawliad, yr hawlydd neu'r corff cyfrifol;

ystyr “penderfyniad a herir” (“*disputed decision*”) yw'r penderfyniad neu'r weithred, neu'r methiant i benderfynu neu weithredu, y dygir yr apêl neu'r hawliad mewn cysylltiad ag ef neu hi;

“e-mail address” (“*cyfeiriad e-bost*”) means a person's electronic mail address;

“evidence” (“*tystiolaeth*”) includes material of any description recorded in any form;

“FEI governing body” (“*corff llywodraethau SAB*”) is the governing body of a further education institution in Wales that made the disputed decision and has the meaning given by section 90 of the Further and Higher Education Act 1992(1) as referred to in section 99 of the 2018 Act;

“First-tier Tribunal” (“*Tribiwnlys Haen Gyntaf*”) means the tribunal established under section 3 of the Tribunals, Courts and Enforcement Act 2007(2), that has jurisdiction in England over appeals and claims;

“hearing” (“*gwrandawriad*”) means a hearing before the President, a Chair or the tribunal panel for the purpose of enabling the President, a Chair or the tribunal panel to reach a decision on an appeal, claim, application or any question or matter at which the parties are entitled to attend and be heard and includes a hearing conducted in whole or in part by video link, telephone or other means of instantaneous two-way electronic communication;

“local authority” (“*awdurdod lleol*”) means the council of a county or county borough in Wales that made the disputed decision;

“observer” (“*sylwedydd*”) means a person who may attend a hearing for the purpose of observing the hearing but who must not participate in the hearing, or make any notes of the hearing or make any recording of the hearing by audio visual means or by any other means;

“oral representations” (“*sylwadau llafar*”) includes evidence which by reason of an impairment of speech or hearing, a person gives using sign language;

“parent” (“*rhiant*”) has the meaning given by section 576 of the 1996 Act;

“party” (“*parti*”) means—

- (a) in an appeal, the appellant, the local authority or the FEI governing body, and
- (b) in a claim, the claimant or the responsible body;

“Register” (“*Cofrestr*”) means the register required to be kept under regulation 71;

“responsible body” (“*corff cyfrifol*”) has the meaning given by section 85(9) of the 2010 Act;

(1) 1971 p. 80.
(2) 2000 p. 7.

(1) 1992 c. 13.
(2) 2007 c. 15.

ystyr “person ifanc” (“*young person*”) yw—

- (a) mewn apêl, person sy’n destun yr apêl neu’r hawliad, a
- (b) mewn hawliad, person sy’n hŷn na’r oedran ysgol gorfodol ac sy’n destun yr hawliad;

ystyr “plentyn” (“*child*”) yw person sy’n destun yr apêl neu’r hawliad;

mae i “rhiant” yr ystyr a roddir i “parent” gan adran 576 o Ddeddf 1996;

mae “sylwadau llafar” (“*oral representations*”) yn cynnwys tystiolaeth a roddir, oherwydd amhariad ar leferydd neu glyw, gan berson sy’n defnyddio iaith arwyddion;

ystyr “sylwedydd” (“*observer*”) yw person a gaiff fod yn bresennol mewn gwrandawriad at ddiben arsylwi ar y gwrandawriad, ond ni chaniateir iddo gymryd rhan yn y gwrandawriad, na gwneud unrhyw nodiadau o’r gwrandawriad, na gwneud unrhyw recordiad o’r gwrandawriad drwy ddull clyweledol neu drwy unrhyw ddull arall;

ystyr “Tribiwnlys Haen Gyntaf” (“*First-tier Tribunal*”) yw’r tribiwnlys a sefydlwyd o dan adran 3 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007(1), sydd ag awdurdodaeth yn Lloegr dros apelau a hawliadau;

mae “tystiolaeth” (“*evidence*”) yn cynnwys deunydd o unrhyw ddisgrifiad a gofnodir ar unrhyw ffurf;

ystyr “Uwch Dribiwnlys” (“*Upper Tribunal*”) yw’r tribiwnlys apeliadol a sefydlwyd o dan adran 3 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007;

ystyr “Ysgrifennydd y Tribiwnlys” (“*Secretary of the Tribunal*”) yw’r person sydd am y tro yn gweithredu fel Ysgrifennydd swyddfa’r Tribiwnlys.

(2) Mae i’r geiriau a’r ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn Neddf 2018 yr un ystyr ag sydd iddynt yn y Ddeddf honno, ac eithrio i’r graddau yr ymddengys bwriad i’r gwrthwyneb.

Cymhwyso

3. Mae’r Rheoliadau hyn yn gymwys i apêl neu hawliad a gofnodir yn y Gofrestr ar neu ar ôl 1 Medi 2021.

“Secretary of the Tribunal” (“*Ysgrifennydd y Tribiwnlys*”) means the person who for the time being acts as the Secretary of the office of the Tribunal;

“tribunal panel” (“*panel tribiwnlys*”) means a panel of the Tribunal who may dispose of an appeal or claim or any question or matter in relation to an appeal or claim;

“Upper Tribunal” (“*Uwch Dribiwnlys*”) means the appellate tribunal established under section 3 of the Tribunals, Courts and Enforcement Act 2007;

“witness summons” (“*gwŷs tyst*”) means a document issued by the President or the tribunal panel requiring a witness to attend at a hearing of an appeal or claim to give evidence, or produce documents, in relation to an appeal or claim to the Tribunal;

“working day” (“*diwrnod gwaith*”) means any day other than—

- (a) a Saturday,
- (b) a Sunday,
- (c) any day from 25 December to 1 January inclusive,
- (d) Good Friday,
- (e) the first Monday in May,
- (f) any day in August, or
- (g) a day which is a bank holiday in England and Wales under section 1 of the Banking and Financial Dealings Act 1971(1);

“young person” (“*person ifanc*”) means—

- (a) in an appeal, a person who is the subject of the appeal or claim, and
- (b) in a claim, a person who is over compulsory school age and who is the subject of the claim.

(2) Words and expressions used in these Regulations and in the 2018 Act have the same meaning as in that Act, except so far as a contrary intention appears.

Application

3. These Regulations apply to an appeal or a claim entered in the Register on or after 1 September 2021.

(1) 2007 p. 15.

(1) 1971 c. 80.

Y prif amcan

4.—(1) Prif amcan y Rheoliadau hyn yw galluogi'r Llywydd, a'r panel tribiwnlys, i ymdrin ag apelau a hawliadau yn deg ac yn gyfiawn.

(2) Mae ymdrin ag achos yn deg ac yn gyfiawn yn cynnwys—

- (a) ymdrin â'r apêl neu'r hawliad mewn ffyrdd sy'n gymesur â phwysigrwydd yr achos a chymhlethdod y materion,
- (b) osgoi, i'r graddau y bo'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn ystyried eu bod yn briodol, ffurfioldeb diangen yn yr achosion o dan y Rheoliadau hyn,
- (c) sicrhau, i'r graddau y bo'n ymarferol, y trinnir y partïon yn gyfartal o ran trefniadaeth ac y gallant gymryd rhan lawn yn yr achos, gan gynnwys hwyluso unrhyw barti i gyflwyno unrhyw apêl neu hawliad, ond heb argymhell pa drywydd y dylai'r parti hwnnw ei ddilyn,
- (d) defnyddio arbenigedd neilltuol y Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn effeithiol, ac
- (e) osgoi oedi, i'r graddau y mae hynny'n gyson â rhoi ystyriaeth briodol i'r materion.

(3) Rhaid i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys geisio rhoi effaith i brif amcan y Rheoliadau hyn pan fo'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys o dan y Rheoliadau hyn—

- (a) yn arfer unrhyw swyddogaeth, neu
- (b) yn dehongli unrhyw reoliad.

(4) Rhaid i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys fynd ati'n weithredol i reoli apelau a hawliadau yn unol â phrif amcan y Rheoliadau hyn.

Rhwymedigaeth ar y partïon i gydweithredu

5.—(1) Rhaid i'r partïon—

- (a) cydweithredu â'i gilydd at ddibenion symud yr apêl yn ei blaen neu'r hawliad yn ei flaen,
- (b) cydweithredu wrth gyfnewid dogfennau neu wybodaeth â'i gilydd, er mwyn galluogi pob parti i lunio datganiad achos,
- (c) cynorthwyo'r Llywydd, neu'r panel tribiwnlys, i hyrwyddo prif amcan y Rheoliadau hyn, a
- (d) cydweithredu â'r Llywydd a'r panel tribiwnlys yn gyffredinol.

(2) Caiff y Llywydd, neu'r panel tribiwnlys, ddod i unrhyw gasgliadau anffafriol y maent yn meddwl eu bod yn addas o fethiant parti i gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r rhwymedigaethau a bennir ym mharagraff (1).

The overriding objective

4.—(1) The overriding objective of these Regulations is to enable the President, and the tribunal panel, to deal with appeals and claims fairly and justly.

(2) Dealing with a case fairly and justly includes—

- (a) dealing with the appeal or the claim in ways which are proportionate to the importance of the case and the complexity of the issues,
- (b) avoiding, as far as the President or the tribunal panel considers appropriate, unnecessary formality in the proceedings under these Regulations,
- (c) ensuring, so far as is practicable, that the parties are on an equal footing procedurally and are able to participate fully in the proceedings, including facilitating any party to present any appeal or claim without advocating the course the party should take,
- (d) using the special expertise of the President, or the tribunal panel effectively, and
- (e) avoiding delay, so far as that is compatible with proper consideration of the issues.

(3) The President, or the tribunal panel, must seek to give effect to the overriding objective of these Regulations when under these Regulations they—

- (a) exercise any function, or
- (b) interpret any regulation.

(4) The President or the tribunal panel must manage appeals and claims actively in accordance with the overriding objective of these Regulations.

Parties' obligation to co-operate

5.—(1) Parties must—

- (a) co-operate with each other for the purposes of progressing the appeal or the claim,
- (b) co-operate in the exchange of documents or information with each other to enable each party to prepare a case statement,
- (c) help the President, or the tribunal panel, to further the overriding objective of these Regulations, and
- (d) co-operate with the President and the tribunal panel generally.

(2) The President, or the tribunal panel, may draw such adverse inferences as they think fit from a party's failure to comply with any of the obligations specified in paragraph (1).

(3) Pan fo'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys wedi dod i gasgliad anffafriol o dan baragraff (2), caiff gyfarwyddo Ysgrifennydd y Tribiwnlys i gyflwyno hysbysiad i'r parti diffygiol ei fod yn bwriadu gwneud gorchymyn i ddileu—

- (a) yr apêl, pan yr apelydd yw'r parti diffygiol,
- (b) yr hawliad, pan yr hawlydd yw'r parti diffygiol, neu
- (c) y datganiad achos a'r dystiolaeth ysgrifenedig, pan yr awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol yw'r parti diffygiol.

(4) Rhaid i'r hysbysiad ym mharagraff (3) wahodd sylwadau, a rhaid i'r Llywydd, neu'r panel tribiwnlys, ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir.

(5) At ddibenion y rheoliad hwn—

- (a) rhaid i hysbysiad sy'n gwahodd sylwadau roi gwybod i'r parti diffygiol y caiff y parti hwnnw, o fewn cyfnod (heb fod yn hwyrach na 10 niwrnod gwaith sy'n dechrau â'r dyddiad yr anfonir yr hysbysiad) a bennir yn yr hysbysiad, naill ai cyflwyno sylwadau ysgrifenedig neu ofyn am gyfle i gyflwyno sylwadau llafar, a
- (b) bydd sylwadau wedi eu cyflwyno—
 - (i) yn achos sylwadau ysgrifenedig, os cyflwynir hwy o fewn y cyfnod penodedig, a
 - (ii) yn achos sylwadau llafar, os yw'r parti sy'n bwriadu eu cyflwyno wedi gofyn am gyfle i wneud hynny o fewn y cyfnod penodedig.

(6) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir gan y parti diffygiol, orchymyn bod achos y parti hwnnw yn cael ei ddileu.

Dulliau eraill o ddatrys anghydfod

6.—(1) Rhaid i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys, pan fo'n briodol, dynnu sylw'r partïon at unrhyw weithdrefn arall sydd ar gael i ddatrys yr anghydfod.

(2) Os yw'r partïon yn dymuno defnyddio'r weithdrefn arall i ddatrys yr anghydfod, caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, ar yr amod bod hynny'n gyson â phrif amcan y Rheoliadau hyn, ohirio ystyriaeth o'r apêl neu'r hawliad.

Aelodau'r panel lleyg

7.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni nad yw personau a benodir yn aelodau o'r panel lleyg yn gymwys i'w penodi'n Gadeirydd.

(3) Where the President or the tribunal panel has drawn an adverse inference under paragraph (2), they may direct the Secretary of the Tribunal to serve notice on the party in default that it is proposed to make an order to strike out—

- (a) the appeal, where the party in default is the appellant,
- (b) the claim, where the party in default is the claimant, or
- (c) the case statement and written evidence, where the party in default is the local authority, FEI governing body or the responsible body.

(4) The notice in paragraph (3) must invite representations and the President, or the tribunal panel, must consider any representations made.

(5) For the purposes of this regulation—

- (a) a notice inviting representations must inform the party in default that the party may, within a period (no later than 10 working days beginning with the date on which the notice is sent) specified in the notice, either make written representations or request an opportunity to make oral representations, and
- (b) representations are made if—
 - (i) in the case of written representations, they are made within the specified period, and
 - (ii) in the case of oral representations, the party proposing to make them has requested an opportunity to do so within the specified period.

(6) The President or the tribunal panel may, after considering any representations made by the party in default, order that the party's case is struck out.

Alternative dispute resolution

6.—(1) The President or the tribunal panel must, where appropriate, bring to the attention of the parties the availability of any alternative procedure for the resolution of the dispute.

(2) If the parties wish to use the alternative dispute resolution procedure the President or the tribunal panel may, provided that it is compatible with the overriding objective of these Regulations, stay the appeal or the claim.

Lay panel members

7.—(1) The Welsh Ministers must be satisfied that persons appointed as members of the lay panel are not eligible for appointment as a Chair.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni bod gan ddigon o aelodau'r panel wybodaeth gyfredol a phrofiad cyfredol o blant, ac o bobl ifanc, sydd ag—

- (a) anghenion dysgu ychwanegol,
- (b) anabledau, neu
- (c) os yw'n ofynnol, y ddau.

Sefydlu paneli tribiwnlys

8.—(1) Mae awdurdodaeth y Tribiwnlys i'w harfer gan y nifer hwnnw o baneli tribiwnlys y mae'r Llywydd yn penderfynu arno o bryd i'w gilydd.

(2) Mae'r paneli tribiwnlys sy'n arfer yr awdurdodaeth a roddir iddynt yn unol â pharagraff (1) i eistedd ar yr adegau hynny ac yn y manau hynny y mae'r Llywydd yn penderfynu arnynt o bryd i'w gilydd.

Aelodaeth panel tribiwnlys

9.—(1) Rhaid i banel tribiwnlys gael Cadeirydd ynghyd â naill ai un neu ddau aelod o'r panel lleyg.

(2) Ar gyfer pob gwrandawriad—

- (a) rhaid i'r Cadeirydd fod naill ai'r Llywydd neu'n berson a ddewisir gan y Llywydd o'r panel cadeirydd cyfreithiol, a
- (b) rhaid i'r aelod arall neu'r aelodau eraill fod yn bersonau a ddewisir gan y Llywydd o'r panel lleyg.

(3) Pan fo'r panel wedi ei gyfansoddi o un Cadeirydd ac un aelod o'r panel lleyg, bydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw os bydd aelodau'r panel yn anghytuno â'i gilydd.

Y cyfnod y mae rhaid i achos gael ei gychwyn ynddo

10.—(1) O ran apêl i'r Tribiwnlys—

- (a) rhaid iddi gael ei gwneud yn ysgrifenedig yn unol â'r Rheoliadau hyn, a
- (b) rhaid i'r Tribiwnlys ei chael heb fod yn hwyrach na'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl diwedd y cyfnod o 8 wythnos gan ddechrau â'r dyddiad pan roddwyd—
 - (i) yr hysbysiad o benderfyniad yr awdurdod lleol, neu gorff llywodraethu'r SAB, a
 - (ii) yr hawl i apelio o dan Ran 2 o Ddeddf 2018 yn erbyn y penderfyniad.

(2) Mewn perthynas ag apêl neu apêl arfaethedig, os cyfeirir yr anghydfod dan sylw ar gyfer datrys anghydfodau o dan adran 68 o Ddeddf 2018 cyn

(2) The Welsh Ministers must be satisfied that sufficient members of the panel have current knowledge and experience of children, and of young people, with—

- (a) additional learning needs,
- (b) disabilities, or
- (c) if required, both.

Establishment of tribunal panels

8.—(1) The jurisdiction of the Tribunal is to be exercised by such number of tribunal panels as the President may from time to time determine.

(2) The tribunal panels exercising the jurisdiction conferred on them in accordance with paragraph (1) are to sit at such times and in such places as the President may from time to time determine.

Membership of tribunal panel

9.—(1) A tribunal panel must be comprised of a Chair together with either one or two lay panel members.

(2) For each hearing—

- (a) the Chair must be the President or a person selected by the President from the legal chair panel, and
- (b) the other member or members must be persons selected by the President from the lay panel.

(3) Where the panel is comprised of one Chair and one lay panel member, the Chair has the casting vote in the event of a disagreement between the panel members.

Period within which proceedings must be commenced

10.—(1) An appeal to the Tribunal must—

- (a) be made in writing in accordance with these Regulations, and
- (b) be received by the Tribunal no later than the first working day after the expiry of 8 weeks beginning with the date when—
 - (i) the notice of the decision of the local authority, or FEI governing body, and
 - (ii) the right to appeal under Part 2 of the 2018 Act against the decision,was given.

(2) If in relation to an appeal or prospective appeal, the dispute concerned is referred for dispute resolution under section 68 of the 2018 Act before the end of the

diwedd y cyfnod a bennir ym mharagraff (1)(b), estynnir am 8 wythnos y cyfnod a ganiateir gan y paragraff hwnnw.

(3) O ran hawliad i'r Tribiwnlys—

- (a) rhaid iddo gael ei wneud yn ysgrifenedig yn unol â'r Rheoliadau hyn, a
- (b) rhaid i'r Tribiwnlys ei gael heb fod yn hwyrach na'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl diwedd y cyfnod a ddatgenir ym mharagraff 4(1) o Atodlen 17 i Ddeddf 2010(1).

(4) Mewn perthynas â hawliad neu hawliad arfaethedig, os cyfeirir yr anghydfod dan sylw ar gyfer datrys anghydfodau o dan baragraff 6C o Atodlen 17 i Ddeddf 2010 cyn diwedd y cyfnod a bennir ym mharagraff (3)(b), estynnir y cyfnod a ganiateir gan y paragraff hwnnw yn unol â pharagraff 4(2A) o Atodlen 17 i Ddeddf 2010.

(5) Yn ddarostyngedig i reoliad 14, ni chaiff y Tribiwnlys ystyried—

- (a) cais apelio, oni chychwynnir achos yn unol â pharagraff (1);
- (b) cais hawlio, oni chychwynnir achos yn unol â pharagraff (3).

Cais apelio

11.—(1) Rhaid i'r cais apelio ddatgan—

- (a) enw a chyfeiriad y person sy'n gwneud yr apêl ac, os ydynt ar gael, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost y person hwnnw,
- (b) enw a dyddiad geni'r plentyn neu'r person ifanc,
- (c) os yw'n berthnasol, y berthynas neu'r cysylltiad rhwng y person sy'n gwneud yr apêl a'r plentyn neu'r person ifanc,
- (d) enw a chyfeiriad pob person—
 - (i) y mae ganddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, neu
 - (ii) sy'n rhannu cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, neu
 - (iii) sy'n gofalu am y plentyn,neu'r rhesymau pam na ddarperir enwau a chyfeiriadau'r personau hynny,
- (e) enw a chyfeiriad unrhyw gynrychiolydd neu gyfaill achos ar gyfer y person sy'n gwneud yr apêl ac, os ydynt ar gael, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost y cynrychiolydd neu'r cyfaill achos,

period specified in paragraph (1)(b) the period allowed by that paragraph is extended by 8 weeks.

(3) A claim to the Tribunal must—

- (a) be made in writing in accordance with these Regulations, and
- (b) be received by the Tribunal no later than the first working day after the end of the period stated in paragraph 4(1) of Schedule 17 to the 2010 Act(1).

(4) If in relation to a claim or prospective claim, the dispute concerned is referred for dispute resolution under paragraph 6C of Schedule 17 to the 2010 Act before the end of the period specified in paragraph (3)(b) the period allowed by that paragraph is extended in accordance with paragraph 4(2A) of Schedule 17 to the 2010 Act.

(5) Subject to regulation 14, the Tribunal may not consider—

- (a) an appeal application, unless proceedings are commenced in accordance with paragraph (1);
- (b) a claim application, unless proceedings are commenced in accordance with paragraph (3).

Appeal application

11.—(1) The appeal application must state—

- (a) the name and address of the person making the appeal and, if available, the person's telephone number and e-mail address,
- (b) the name and date of birth of the child or young person,
- (c) if relevant, the relationship or connection of the person making the appeal to the child or young person,
- (d) the names and addresses of all persons who—
 - (i) have parental responsibility for the child, or
 - (ii) share parental responsibility for the child, or
 - (iii) have care of the child,or reasons why the names and addresses of such persons are not provided,
- (e) the name and address of any representative or case friend for the person making the appeal and, if available, the representative or case friend's telephone number and e-mail address,

(1) Mae paragraff 4(1) o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn pennu'r cyfnod y mae rhaid gwneud hawliad i'r Tribiwnlys ynddo.

(1) Paragraph 4(1) of Schedule 17 to the Equality Act 2010 stipulates the period in which a claim must be made to the Tribunal.

- (f) cyfeiriad ac, os oes un ar gael, cyfeiriad e-bost, lle y dylid anfon hysbysiau a dogfennau ar gyfer y person sy'n gwneud yr apêl,
- (g) enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'r SAB a wnaeth y penderfyniad a herir,
- (h) y dyddiad pan gafodd y person sy'n gwneud yr apêl gadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniad a herir,
- (i) y rheswm neu'r rhesymau dros wneud yr apêl,
- (j) y canlyniad a geisir,
- (k) y camau, os oes rhai, a gymerwyd eisoes i ddatrys yr anghydfod, ac
- (l) unrhyw ofynion a dymuniadau cyfathrebu y plentyn neu'r person ifanc.
- (2) Os yw'r person sy'n gwneud yr apêl yn ceisio gorchymyn—
- (a) bod cynllun datblygu unigol yn cael ei ddiwygio, rhaid i'r cais apelio bennu pa adran neu adrannau o'r cynllun datblygu unigol y mae'r apêl yn ymwneud â hi neu â hwy, a
- (b) ar gyfer lleoliad mewn ysgol neu sefydliad arall, rhaid i'r cais apelio ddatgan enw a chyfeiriad yr ysgol neu'r sefydliad arall.
- (3) Caniateir cyflwyno'r canlynol gyda'r cais apelio—
- (a) copi o'r penderfyniad a herir,
- (b) pan fo'r apêl yn cael ei gwneud o dan adran 70 neu 72 o Ddeddf 2018, copi o gynllun datblygu unigol y plentyn neu'r person ifanc, unrhyw ddogfennaeth sydd wedi ei hatodi i'r cynllun datblygu unigol neu sy'n ffurfio rhan ohono ac, os yw ar gael, copi o'r adolygiad diweddaraf o dan adran 23 neu 24 o Ddeddf 2018, ac
- (c) y datganiad achos yn unol â rheoliadau 17 a 18.
- (4) Rhaid cyflwyno'r canlynol gyda'r cais apelio—
- (a) cadarnhad ysgrifenedig bod y person sy'n gwneud yr apêl wedi hysbysu'r personau, os oes rhai, a enwir yn unol â pharagraff (1)(d) fod y person yn bwriadu gwneud apêl i'r Tribiwnlys, neu gadarnhad ysgrifenedig sy'n esbonio pam nad yw'r person sy'n gwneud yr hawliad wedi hysbysu'r personau hynny,
- (f) an address and, if available, an e-mail address, where notices and documents for the person making the appeal should be sent,
- (g) the name and address of the local authority or FEI governing body which made the disputed decision,
- (h) the date on which the person making the appeal received written confirmation of the disputed decision,
- (i) the reason or reasons for making the appeal,
- (j) the result sought,
- (k) the steps, if any, already taken to resolve the dispute, and
- (l) any communication requirements and preferences of the child or young person.
- (2) If the person making the appeal seeks an order—
- (a) that an individual development plan is amended, the appeal application must specify to which section or sections of the individual development plan the appeal relates, and
- (b) for a placement at a school or other institution, the appeal application must state the name and address of the school or other institution.
- (3) The appeal application may be accompanied by—
- (a) a copy of the disputed decision,
- (b) where the appeal is made under section 70 or 72 of the 2018 Act, a copy of the child or young person's individual development plan, any documentation attached to or forming part of the individual development plan and, if available, a copy of the latest review under section 23 or 24 of the 2018 Act, and
- (c) the case statement in accordance with regulations 17 and 18.
- (4) The appeal application must be accompanied—
- (a) by written confirmation that the person making the appeal has notified persons, if any, named in accordance with paragraph (1)(d) that the person proposes to make an appeal to the Tribunal, or written confirmation explaining why the person making the claim has not notified any such persons,

- (b) pan fo'r cais apelio yn datgan enw ysgol neu ddarpariaeth ddysgu ychwanegol mewn sefydliad arall yn unol â pharagraff (2)(b), gadarnhad ysgrifenedig bod y person sy'n gwneud yr apêl wedi rhoi gwybod i bennaeth yr ysgol, neu i gorff llywodraethu neu berchennog y sefydliad arall, fod y person yn bwriadu gofyn i'r ysgol neu i'r sefydliad arall gael ei henwi neu ei enwi yn y cynllun datblygu unigol, ac
- (c) pan fo'r cais apelio, o dan baragraff (2)(b), yn datgan enw—
 - (i) ysgol a gynhelir, gadarnhad ysgrifenedig bod y person sy'n gwneud yr apêl wedi rhoi gwybod i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol, a all fod yr awdurdod lleol a wnaeth y penderfyniad a herir neu awdurdod lleol gwahanol, fod y person yn bwriadu gofyn i'r ysgol a gynhelir gael ei henwi yn y cynllun datblygu unigol;
 - (ii) ysgol annibynnol, gadarnhad ysgrifenedig bod y person sy'n gwneud yr apêl wedi rhoi gwybod i berchennog yr ysgol fod y person yn bwriadu gofyn i'r ysgol annibynnol gael ei henwi yn y cynllun datblygu unigol;
 - (iii) ysgol annibynnol, gadarnhad ysgrifenedig gan berchennog yr ysgol fod lle ar gael yn yr ysgol i'r plentyn;
 - (iv) unrhyw sefydliad arall, gadarnhad ysgrifenedig bod y person sy'n gwneud yr apêl wedi cadarnhau pa un a oes darpariaeth addas ar gael yn y sefydliad ai peidio.

(5) Rhaid i'r cais apelio gael ei lofnodi gan y person sy'n gwneud yr apêl, neu gan unrhyw gynrychiolydd neu gyfaill achos ar ran y person hwnnw.

(6) Yn unol â rheoliad 35, caiff y cais apelio gynnwys archiad i'r apêl gael ei gwranddo ar y cyd â hawliad yn erbyn corff cyfrifol.

Cais hawlio

12.—(1) Rhaid i'r cais hawlio ddatgan—

- (a) enw a chyfeiriad y person sy'n gwneud yr hawliad ac, os ydynt ar gael, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost y person hwnnw,
- (b) enw a dyddiad geni'r plentyn neu'r person ifanc,
- (c) os yw'n berthnasol, y berthynas neu'r cysylltiad rhwng y person sy'n gwneud yr hawliad a'r plentyn,

- (b) where the appeal application states the name of a school or additional learning provision at another institution in accordance with paragraph (2)(b), by written confirmation that the person making the appeal has informed the head teacher of the school, or the governing body or proprietor of the other institution, that the person proposes to request that the school or other institution is named in the individual development plan, and
- (c) where under paragraph (2)(b), the appeal application states the name of—
 - (i) a maintained school, by written confirmation that the person making the appeal has informed the local authority that maintains the school, which may or may not be the local authority that made the disputed decision, that the person proposes to request that the maintained school is named in the individual development plan;
 - (ii) an independent school, by written confirmation that the person making the appeal has informed the proprietor of the school that the person proposes to request that the independent school is named in the individual development plan;
 - (iii) an independent school, by written confirmation from the proprietor of the school that a place is available at the school for the child;
 - (iv) any other institution, by written confirmation that the person making the appeal has established whether or not there is suitable provision available at the institution.

(5) The appeal application must be signed by the person making the appeal, or any representative or a case friend on that person's behalf.

(6) The appeal application may, in accordance with regulation 35, include a request that the appeal is heard with a claim against a responsible body.

Claim application

12.—(1) The claim application must state—

- (a) the name and address of the person making the claim and, if available, the person's telephone number and e-mail address,
- (b) the name and date of birth of the child or young person,
- (c) if relevant, the relationship or connection of the person making the claim to the child,

- (d) enwau a chyfeiriadau pob person y mae ganddo gyfrifoldeb rhiant neu sy'n rhannu cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sy'n gofalu am y plentyn, neu'r rhesymau pam na ddarperir enwau a chyfeiriadau'r personau hynny,
- (e) enw a chyfeiriad unrhyw gynrychiolydd neu gyfaill achos a benodir gan y person sy'n gwneud yr hawliad ac, os ydynt ar gael, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost y cynrychiolydd neu'r cyfaill achos,
- (f) cyfeiriad ac, os oes un ar gael, cyfeiriad e-bost, lle y dylid anfon hysbysiadau a dogfennau ar gyfer y person sy'n gwneud yr hawliad,
- (g) enw a chyfeiriad—
 - (i) yr ysgol neu'r awdurdod lleol a wnaeth y penderfyniad a herir, neu
 - (ii) yr awdurdod ar gyfer yr ysgol a enwir o dan baragraff (1)(g)(i) os yw'r ysgol honno yn ysgol a gynhelir,
- (h) manylion y penderfyniad a herir y mae'r hawliad yn ymwneud ag ef,
- (i) y dyddiad neu'r dyddiadau y digwyddodd y penderfyniad a herir arno neu arnynt,
- (j) y rheswm neu'r rhesymau dros wneud yr hawliad,
- (k) y canlyniad a geisir, ac
- (l) y camau, os oes rhai, a gymerwyd eisoes i ddatrys yr anghydfod.

(2) Rhaid i'r cais hawlio gynnwys disgrifiad o anabledd y disgybl ysgol.

(3) Rhaid i'r cais hawlio gynnwys disgrifiad o unrhyw ofynion a dymuniadau cyfathrebu y plentyn neu'r person ifanc.

(4) Os yw ar gael, dylid cyflwyno gyda'r cais hawlio dystiolaeth o ddiagnosis meddygol neu ddiagnosis proffesiynol arall mewn perthynas ag anabledd y disgybl.

(5) Rhaid cyflwyno gyda'r cais hawlio gadarnhad ysgrifenedig bod y person sy'n gwneud yr hawliad wedi hysbysu'r personau, os oes rhai, a enwir yn unol â pharagraff (1)(d), fod y person wedi gwneud hawliad i'r Tribiwnlys, neu gadarnhad ysgrifenedig sy'n esbonio pam nad yw'r person sy'n gwneud yr hawliad wedi hysbysu'r personau hynny.

(6) Rhaid i'r cais hawlio gael ei lofnodi gan y person sy'n gwneud yr hawliad neu gan unrhyw gynrychiolydd neu gyfaill achos ar ran y person hwnnw.

- (d) the names and addresses of all persons who have or share parental responsibility for the child or have care of the child, or reasons why the names and addresses of such persons are not provided,
- (e) the name and address of any representative or case friend appointed by the person making the claim and, if available, the representative's or case friend's telephone number and e-mail address,
- (f) an address and, if available, an e-mail address where notices and documents for the person making the claim should be sent,
- (g) the name and address of—
 - (i) the school or local authority which made the disputed decision, or
 - (ii) the authority for the school named under paragraph (1)(g)(i) if such a school is a maintained school,
- (h) details of the disputed decision to which the claim relates,
- (i) the date or dates on which the disputed decision took place,
- (j) the reason or reasons for making the claim,
- (k) the result sought, and
- (l) the steps, if any, already taken to resolve the dispute.

(2) The claim application must include a description of the school pupil's disability.

(3) The claim application must include a description of any communication requirements and preferences of the child or young person.

(4) Evidence of a medical or other professional diagnosis relating to the pupil's disability should, if available, accompany the claim application.

(5) The claim application must be accompanied by written confirmation that the person making the claim has notified persons, if any, named in accordance with paragraph (1)(d) that the person has made a claim to the Tribunal, or written confirmation explaining why the person making the claim has not notified any such persons.

(6) The claim application must be signed by the person making the claim or any representative or a case friend on that person's behalf.

(7) Yn unol â rheoliad 35, caiff y cais hawlio gynnwys archiad i'r hawliad gael ei wrando ar y cyd ag apêl yn erbyn awdurdod lleol.

Camau gweithredu gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys

13.—(1) Ar ôl cael y cais apelio neu'r cais hawlio, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys—

- (a) cofnodi ei fanylion yn y Gofrestr, a
- (b) anfon at yr apelydd neu'r hawlydd—
 - (i) cydnabyddiaeth o gael y cais a nodyn o rif yr achos a gofnodwyd yn y Gofrestr,
 - (ii) nodyn o'r cyfeiriad y dylid anfon hysbysiadau a chyfathrebiadau iddo ar gyfer y Tribiwnlys,
 - (iii) hysbysiad y gellir cael cyngor ynghylch y weithdrefn apelio neu'r weithdrefn hawlio o swyddfa'r Tribiwnlys,
 - (iv) hysbysiad bod gan awdurdodau lleol ddyletswyddau i roi trefniadau yn eu lle ar gyfer gwasanaethau eirioli annibynnol i blant a phobl ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt,
 - (v) datganiad o'r canlyniadau posibl i'r apêl neu'r hawliad os yw parti yn methu â chydymffurfio â rheoliad 5 (rhwymedigaeth ar y partïon i gydweithredu), a
 - (vi) hysbysiad y caiff partïon gyflwyno datganiadau tyst ysgrifenedig a galw tystion yn unol â rheoliad 43.

(2) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon i gorff llywodraethu'r SAB, yr awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol, yn ôl y digwydd—

- (a) copi o'r cais apelio neu'r cais hawlio ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig,
- (b) nodyn o'r cyfeiriad y dylid anfon hysbysiadau a chyfathrebiadau iddo ar gyfer y Tribiwnlys,
- (c) pan yw datganiad achos yn ddogfen gysylltiedig o dan is-baragraff (a), neu pan geir ar wahân, hysbysiad sy'n datgan yr amser ar gyfer cyflwyno datganiad achos corff llywodraethu'r SAB, yr awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol a thystiolaeth o dan reoliad 19, a'r canlyniadau os na wneir hynny,

(7) The claim application may, in accordance with regulation 35, include a request that the claim is heard with an appeal against a local authority.

Action by the Secretary of the Tribunal

13.—(1) Upon receiving the appeal application or the claim application the Secretary of the Tribunal must—

- (a) enter its particulars in the Register, and
- (b) send to the appellant or claimant—
 - (i) an acknowledgement of its receipt and a note of the case number entered in the Register,
 - (ii) a note of the address to which notices and communications for the Tribunal should be sent,
 - (iii) notification that advice about the appeals or claims procedure may be obtained from the office of the Tribunal,
 - (iv) notification that local authorities have duties to put in place arrangements for independent advocacy services for children and young people for whom they are responsible,
 - (v) a statement of the possible consequences for the appeal or claim, if a party fails to comply with regulation 5 (parties' obligation to co-operate), and
 - (vi) a notification that parties may submit written witness statements and call witnesses in accordance with regulation 43.

(2) The Secretary of the Tribunal must send to the FEI governing body, local authority or responsible body, as the case may be—

- (a) a copy of the appeal application or the claim application and any accompanying documents,
- (b) a note of the address to which notices and communications for the Tribunal should be sent,
- (c) when a case statement is an accompanying document under sub-paragraph (a), or when it is separately received, a notice stating the time for submitting the case statement of the FEI governing body, local authority or responsible body and evidence under regulation 19 and the consequences of failing to do so,

- (d) datganiad o'r canlyniadau posibl i'r apêl neu'r hawliad os yw parti yn methu â chydymffurfio â rheoliad 5 (rhwymedigaeth ar y partïon i gydweithredu), ac
- (e) hysbysiad y caiff partïon gyflwyno datganiadau tyst ysgrifenedig a galw tystion yn unol â rheoliad 43.

(3) Os yw'n angenrheidiol canfod enw'r corff cyfrifol mewn perthynas â hawliad, caiff y Llywydd neu Ysgrifennydd y Tribiwnlys wneud unrhyw ymholiadau sy'n angenrheidiol at y diben hwn.

(4) Pan fo'n ymddangos i'r Llywydd neu Ysgrifennydd y Tribiwnlys y gall fod mwy nag un corff cyfrifol mewn perthynas â hawliad, caiff y Tribiwnlys anfon y ddogfennaeth a bennir ym mharagraff (2) i unrhyw un neu ragor neu i bob un o'r cyrff hynny, fel y bo'n briodol.

(5) Pan fo'r Llywydd o'r farn, ar sail y cais apelio neu'r cais hawlio, fod y person sy'n gwneud yr apêl neu'r hawliad yn gofyn i'r Tribiwnlys ystyried mater sydd y tu allan i'w bwerau, caiff Ysgrifennydd y Tribiwnlys roi hysbysiad i'r person—

- (a) sy'n datgan y rhesymau dros y farn honno, a
- (b) sy'n rhoi gwybod i'r person na chaniateir i'r cais apelio neu'r cais hawlio gael ei gofnodi yn y Gofrestr oni fydd y person, o fewn amser penodedig (na chaniateir iddo fod yn llai na 5 niwrnod gwaith) yn hysbysu Ysgrifennydd y Tribiwnlys fod y person yn dymuno bwrw ymlaen â'r apêl neu'r hawliad.

(6) Os yw Ysgrifennydd y Tribiwnlys wedi rhoi hysbysiad o dan baragraff (5), mae'r cais apelio neu'r cais hawlio i'w drin fel pe bai wedi ei gael at ddibenion paragraff (1) pan fo'r person sy'n gwneud yr apêl neu'r hawliad yn hysbysu Ysgrifennydd y Tribiwnlys fod y person yn dymuno bwrw ymlaen â'r apêl neu'r hawliad.

(7) Pan fo Ysgrifennydd y Tribiwnlys o'r farn bod gwall amlwg yn y cais apelio neu'r cais hawlio, caiff Ysgrifennydd y Tribiwnlys gywiro'r gwall hwnnw.

(8) Pan fo gwall wedi ei gywiro yn unol â pharagraff (7), rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys hysbysu'r person sy'n gwneud yr apêl neu'r hawliad am y cywiriad a datgan effaith paragraff (9).

(9) Oni fydd y person sy'n gwneud yr apêl neu'r hawliad yn rhoi gwybod i Ysgrifennydd y Tribiwnlys o fewn 5 niwrnod gwaith i'r hysbysiad a roddir o dan baragraff (8) fod y person yn gwrthwynebu'r cywiriad, rhaid trin y cais apelio neu'r cais hawlio fel y'i cywirwyd fel y cais apelio neu'r cais hawlio at ddibenion y Rheoliadau hyn.

- (d) a statement of the possible consequences for the appeal or claim, if a party fails to comply with regulation 5 (parties' obligation to cooperate), and
- (e) a notification that parties may submit written witness statements and call witnesses in accordance with regulation 43.

(3) If it is necessary to determine the identity of the responsible body in relation to a claim, the President or the Secretary of the Tribunal may make such enquiries as are necessary for this purpose.

(4) Where it appears to the President or the Secretary of the Tribunal that there may be more than one responsible body in relation to a claim, the Tribunal may send the documentation specified in paragraph (2) to any or all such bodies as may be appropriate.

(5) Where the President is of the opinion that on the basis of the appeal application or the claim application, the person making the appeal or the claim is asking the Tribunal to consider a matter which is outside its powers, the Secretary of the Tribunal may give notice to the person—

- (a) stating the reasons for the opinion, and
- (b) informing the person that the appeal application or the claim application must not be entered in the Register unless, within a specified time (which must not be less than 5 working days), the person notifies the Secretary of the Tribunal that the person wishes to proceed with the appeal or claim.

(6) If the Secretary of the Tribunal has given a notice under paragraph (5), the appeal application or the claim application is to be treated as having been received for the purposes of paragraph (1) when the person making the appeal or claim notifies the Secretary of the Tribunal that the person wishes to proceed with the appeal or claim.

(7) Where the Secretary of the Tribunal is of the opinion that there is an obvious error in the appeal application or the claim application, the Secretary of the Tribunal may correct that error.

(8) Where an error has been corrected in accordance with paragraph (7), the Secretary of the Tribunal must notify the person making the appeal or claim of the correction and state the effect of paragraph (9).

(9) Unless the person making the appeal or claim informs the Secretary of the Tribunal within 5 working days of the notification given under paragraph (8) that the person objects to the correction, the appeal application or the claim application as corrected must be treated as the appeal application or the claim application for the purposes of these Regulations.

(10) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon yr holl ddogfennau a hysbysiadau ynghylch yr apêl neu'r hawliad at yr apelydd neu'r hawlydd.

(11) Mae paragraff (10) yn gymwys—

- (a) oni fydd yr apelydd neu'r hawlydd yn hysbysu Ysgrifennydd y Tribiwnlys fod rhaid anfon yr holl ddogfennau a hysbysiadau ynghylch yr apêl neu'r hawliad at ei gynrychiolydd yn hytrach nag at yr apelydd neu'r hawlydd;
- (b) oni bai bod cyfaill achos wedi ei benodi yn unol ag adran 85 o Ddeddf 2018 a rheoliadau 60 i 62.

(12) Os yw paragraff (11)(a) neu (b) yn gymwys, rhaid dehongli cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn (sut bynnag y'u mynegir) at anfon dogfennau at yr apelydd neu'r hawlydd, neu at roi hysbysiad i'r apelydd neu'r hawlydd, fel pe baent yn gyfeiriadau at anfon dogfennau at y cynrychiolydd neu at y cyfaill achos, neu at roi hysbysiad i'r cynrychiolydd, neu i'r cyfaill achos, yn ôl y digwydd.

Apêl neu hawliad a wneir y tu allan i'r amser

14.—(1) Caiff y Llywydd ystyried—

- (a) unrhyw apêl sydd y tu allan i'r amser os yw'r Llywydd yn ystyried, o dan holl amgylchiadau'r achos, ei bod yn deg ac yn gyfiawn gwneud hynny;
- (b) unrhyw hawliad sydd y tu allan i'r amser o dan baragraff 4(3) o Atodlen 17 i Ddeddf 2010.

(2) Caiff y Llywydd geisio gwybodaeth bellach gan y person sy'n gwneud yr apêl neu'r hawliad cyn gwneud penderfyniad o dan baragraff (1).

Digonolrwydd rhesymau

15.—(1) Os nad yw'r cais apelio neu'r cais hawlio yn cynnwys datganiad o'r rhesymau dros wneud yr apêl neu'r hawliad, neu os na chyflwynir datganiad o'r fath gyda'r cais apelio neu'r cais hawlio, gan gynnwys, mewn perthynas â hawliad, yr wybodaeth a nodir yn rheoliad 12(1)(i) a (j) a (2) y mae'r Llywydd yn ystyried ei bod yn ddigonol i alluogi'r awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol i ymateb i'r apêl neu'r hawliad, rhaid i'r Llywydd gyfarwyddo'r apelydd neu'r hawlydd i anfon manylion o'r rhesymau at Ysgrifennydd y Tribiwnlys o fewn 10 niwrnod gwaith i'r cyfarwyddyd.

(2) Mae rheoliad 33 (methiant i gydymffurfio â chyfarwyddydau) yn gymwys i gyfarwyddyd o dan baragraff (1).

(10) The Secretary of the Tribunal must send all documents and notices concerning the appeal or the claim to the appellant or the claimant.

(11) Paragraph (10) applies—

- (a) unless the appellant or the claimant notifies the Secretary of the Tribunal that all documents and notices concerning the appeal or the claim must be sent to their representative instead of the appellant or claimant;
- (b) unless a case friend has been appointed in accordance with section 85 of the 2018 Act and regulations 60 to 62.

(12) If paragraph (11)(a) or (b) applies, references in these Regulations (however expressed) to sending documents to, or giving notice to, the appellant or the claimant must be construed as references to sending documents to, or giving notice to, the representative or to the case friend, as the case may be.

Appeal or claim made out of time

14.—(1) The President may consider—

- (a) any appeal which is out of time if, in all the circumstances of the case, the President considers that it is fair and just to do so;
- (b) any claim which is out of time under paragraph 4(3) of Schedule 17 to the 2010 Act.

(2) The President may seek further information from the person making the appeal or claim before making a decision under paragraph (1).

Sufficiency of reasons

15.—(1) If the appeal application or the claim application does not include, or is not accompanied by, a statement of the reasons for making the appeal or the claim, including in relation to a claim the information set out in regulation 12(1)(i) and (j) and (2), which the President considers sufficient to enable the local authority or responsible body to respond to the appeal or the claim, the President must direct the appellant or the claimant to send details of the reasons to the Secretary of the Tribunal within 10 working days of the direction.

(2) Regulation 33 (failure to comply with directions) applies to a direction under paragraph (1).

(3) Mae rhesymau a anfonir wrth ymateb i gyfarwyddyd a wneir o dan baragraff (1) i'w trin fel pe baent yn rhan o'r cais apelio neu'r cais hawlio.

Cynrychiolwyr yr apelydd neu'r hawlydd

16.—(1) Caiff yr apelydd neu'r hawlydd, yn y cais apelio neu'r cais hawlio neu drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Tribiwnlys ar unrhyw adeg yn ddiweddarach—

- (a) penodi cynrychiolydd;
- (b) penodi cynrychiolydd arall i gymryd lle'r cynrychiolydd a benodwyd yn flaenorol ac y diddymir ei benodiad gan y penodiad diweddarach;
- (c) datgan nad oes unrhyw berson yn gweithredu fel cynrychiolydd yr apelydd neu'r hawlydd, sy'n diddymu unrhyw benodiad blaenorol.

(2) Pan fo penodiad wedi ei wneud o dan baragraff (1), rhaid i'r apelydd neu'r hawlydd roi enw, cyfeiriad a manylion cyswllt y cynrychiolydd.

Cyfnodau'r datganiad achos

17.—(1) Cyfnod y datganiad achos ar gyfer apelydd sy'n gwneud apêl yw'r cyfnod o amser perthnasol a nodir yn rheoliad 10 ac mae'n cynnwys unrhyw estyniad i'r cyfnod hwnnw o amser a orchmynnir gan y Llywydd o dan reoliad 65.

(2) Cyfnod y datganiad achos ar gyfer hawlydd yw cyfnod o 8 wythnos sy'n cychwyn ar y dyddiad yr ystyrir bod hysbysiad, a roddir o dan reoliad 13(2)(c), wedi ei gael yn unol â rheoliad 75(11) ac mae'n cynnwys unrhyw estyniad i'r cyfnod hwnnw a orchmynnir gan y Llywydd o dan reoliad 65.

(3) Os yw'r Llywydd yn gwneud cyfarwyddyd mewn perthynas ag—

- (a) apêl yn unol â rheoliad 15, nid yw'r cyfnod a bennir ym mharagraff (1) yn dechrau, ac ni chaiff Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon unrhyw ddogfennau fel sy'n ofynnol gan reoliad 13(2), hyd nes y ceir rhesymau mewn ymateb i'r cyfarwyddyd;
- (b) hawliad yn unol â rheoliad 15 neu'n gwneud ymholiadau o dan reoliad 13(3), nid yw'r cyfnod a bennir ym mharagraff (2) yn dechrau, ac ni chaiff Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon unrhyw ddogfennau i'r corff cyfrifol fel sy'n ofynnol gan reoliad 13(2), hyd nes y ceir rhesymau mewn ymateb i'r cyfarwyddyd neu y cwblheir yr ymholiadau.

(3) Reasons sent in response to a direction made under paragraph (1) are to be treated as part of the appeal application or the claim application.

Appellant's or claimant's representatives

16.—(1) The appellant or the claimant may in the appeal application or the claim application or by giving written notice to the Secretary of the Tribunal at any later time—

- (a) appoint a representative;
- (b) appoint another representative to replace the representative previously appointed, whose appointment is cancelled by the later appointment;
- (c) state that no person is acting as the appellant's or the claimant's representative, which cancels any previous appointment.

(2) Where an appointment is made under paragraph (1), the appellant or the claimant must give the name, address and contact details of the representative.

Case statement periods

17.—(1) The case statement period for an appellant making an appeal is the relevant period of time set out in regulation 10 and includes any extension to that period of time ordered by the President under regulation 65.

(2) The case statement period for a claimant is a period of 8 weeks commencing on the date on which a notice given under regulation 13(2)(c) is taken to have been received in accordance with regulation 75(11) and includes any extension to that period ordered by the President under regulation 65.

(3) If the President makes a direction in relation to—

- (a) an appeal in accordance with regulation 15, the period specified in paragraph (1) does not start, and the Secretary of the Tribunal must not send any documents as required by regulation 13(2), until reasons are received in response to the direction;
- (b) a claim in accordance with regulation 15 or makes enquiries under regulation 13(3), the period specified in paragraph (2) does not start, and the Secretary of the Tribunal must not send any documents to the responsible body as required by regulation 13(2), until reasons are received in response to the direction or the enquiries are concluded.

(4) Cyfnod y datganiad achos ar gyfer awdurdod lleol neu gorff llywodraethu SAB mewn apêl yw—

- (a) 4 wythnos, gan ddechrau â'r dyddiad yr ystyrir bod yr hysbysiad, sy'n gysylltiedig â datganiad achos yr apelydd, wedi ei gael yn unol â rheoliad 75(11), a
- (b) mae'n cynnwys unrhyw estyniad i'r cyfnod hwnnw a orchmynnir gan y Llywydd o dan reoliad 65.

(5) Cyfnod y datganiad achos ar gyfer corff cyfrifol yw—

- (a) 4 wythnos, gan ddechrau â'r dyddiad yr ystyrir bod yr hysbysiad, a roddir o dan reoliad 13(2), wedi ei gael yn unol â rheoliad 75(11), a
- (b) mae'n cynnwys unrhyw estyniad i'r cyfnod hwnnw a orchmynnir gan y Llywydd o dan reoliad 65.

Datganiad achos yr apelydd neu'r hawlydd

18.—(1) Rhaid i'r apelydd neu'r hawlydd gyflwyno i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, cyn diwedd cyfnod y datganiad achos, yn ôl y digwydd—

- (a) datganiad achos, a
- (b) yr holl dystiolaeth arall y bwriedir dibynnu arni ac nas cyflwynwyd eisoes.

(2) Rhaid i'r datganiad achos gynnwys—

- (a) pan rhiant y plentyn yw'r apelydd neu'r hawlydd—
 - (i) safbwyntiau'r plentyn ar y materion a godir yn yr apêl neu'r hawliad, neu
 - (ii) esboniad pam nad yw'r apelydd neu'r hawlydd wedi canfod safbwyntiau'r plentyn;
- (b) pan y plentyn yw'r apelydd neu'r hawlydd—
 - (i) safbwyntiau rhiant y plentyn ar y materion a godir yn yr apêl neu'r hawliad, neu
 - (ii) esboniad pam nad yw'r apelydd neu'r hawlydd wedi canfod safbwyntiau'r rhiant.

(3) Os yw'r Llywydd yn rhoi caniatâd, caiff yr apelydd neu'r hawlydd—

- (a) diwygio'r cais apelio neu'r cais hawlio;
- (b) cyflwyno datganiad atodol o resymau sy'n cefnogi'r cais apelio neu'r cais hawlio;
- (c) diwygio datganiad atodol o resymau sy'n cefnogi'r cais apelio neu'r cais hawlio;

(4) The case statement period for a local authority or FEI governing body in an appeal is—

- (a) 4 weeks, beginning with the date on which the notice accompanying the appellant's case statement is taken to have been received in accordance with regulation 75(11), and
- (b) includes any extension to that period ordered by the President under regulation 65.

(5) The case statement period for a responsible body is—

- (a) 4 weeks, beginning with the date on which the notice given under regulation 13(2) is taken to have been received in accordance with regulation 75(11), and
- (b) includes any extension to that period ordered by the President under regulation 65.

Appellant or claimant's case statement

18.—(1) The appellant or the claimant must submit to the Secretary of the Tribunal before the end of their case statement period, as the case may be—

- (a) a case statement, and
- (b) all other evidence to be relied on which has not already been submitted.

(2) The case statement must include—

- (a) where the appellant or the claimant is the parent of the child—
 - (i) the views of the child on the issues raised in the appeal or the claim, or
 - (ii) an explanation of why the appellant or claimant has not established the child's views;
- (b) where the appellant or the claimant is the child—
 - (i) the views of the child's parent on the issues raised in the appeal or the claim, or
 - (ii) an explanation of why the appellant or claimant has not established the parent's views.

(3) If the President gives permission, the appellant or the claimant may—

- (a) amend the appeal application or the claim application;
- (b) submit a supplementary statement of reasons in support of the appeal application or the claim application;
- (c) amend a supplementary statement of reasons in support of the appeal application or the claim application;

- (d) cyflwyno datganiad achos atodol;
- (e) diwygio datganiad achos atodol.

(4) Rhaid i'r apelydd neu'r hawlydd gyflwyno copi i Ysgrifennydd y Tribiwnlys o bob diwygiad a datganiad atodol y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer o dan baragraff (3) o fewn y cyfnod o amser a ganiateir.

(5) Os diwygir cais apelio yn unol â pharagraff (3) fel bod yr apelydd yn gwneud apêl o dan adran 70(2)(f) ac (g) o Ddeddf 2018, rhaid i'r apelydd hysbysu pennaeth yr ysgol a gynhelir a enwir yn y cais apelio diwygiedig, gan ddatgan enw a dyddiad geni'r plentyn.

(6) Os na chynhelir yr ysgol y cyfeirir ati ym mharagraff (5) gan yr awdurdod lleol, rhaid i'r apelydd hysbysu'r awdurdod sy'n cynnal yr ysgol.

(7) Pan roddir caniatâd o dan baragraff (3), caiff y Llywydd, os bydd angen, estyn cyfnod y datganiad achos, o dan reoliad 65 neu, os yw wedi dod i ben, ganiatáu unrhyw gyfnod pellach y mae'r Llywydd yn ystyried ei fod yn briodol.

(8) Os yw'r awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol sy'n ymateb, ar yr adeg y rhoddir caniatâd o dan baragraff (3), wedi colli ei hawlogaeth i fod yn bresennol neu i gael ei gynrychioli yn y gwrandawriad yn unol â rheoliad 23 neu 33, bydd rhoi caniatâd yn adfer hawlogaeth o'r fath ac, os bydd angen, caniateir gohirio'r gwrandawriad cyn ei gychwyn neu ar ôl ei gychwyn, fel y bo'n briodol, er mwyn i'r ymatebydd allu cael ei gynrychioli.

Datganiad achos a thystiolaeth yr awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol sy'n ymateb

19.—(1) Rhaid i'r awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol sy'n ymateb (“yr ymatebydd”) gyflwyno i Ysgrifennydd y Tribiwnlys cyn diwedd cyfnod y datganiad achos—

- (a) copi o'r penderfyniad a herir,
- (b) copi o gynllun datblygu unigol y plentyn neu'r person ifanc, unrhyw ddogfennaeth sydd wedi ei hatodi i'r cynllun neu sy'n ffurfio rhan ohono ac, os yw ar gael, copi o'r adolygiad diweddaraf,
- (c) datganiad achos, a
- (d) yr holl dystiolaeth arall y bwriedir dibynnu arni ac nas cyflwynwyd eisoes.

(2) Rhaid i ddatganiad achos yr ymatebydd gael ei lofnodi gan berson sydd wedi ei awdurdodi i lofnodi dogfennau o'r fath ar ran yr ymatebydd, a rhaid iddo ddatgan pa un a yw'r ymatebydd yn bwriadu gwrthwynebu'r apêl neu'r hawliad ai peidio.

- (d) submit a supplementary case statement;
- (e) amend a supplementary case statement.

(4) The appellant or the claimant must submit to the Secretary of the Tribunal a copy of every amendment and supplementary statement for which permission was given under paragraph (3) within the time period granted.

(5) If an appeal application is amended in accordance with paragraph (3) so that the appellant makes an appeal under section 70(2)(f) and (g) of the 2018 Act the appellant must notify the head teacher of the maintained school named in the amended appeal application, stating the name and date of birth of the child.

(6) If the school referred to in paragraph (5) is not maintained by the local authority, the appellant must notify the authority that maintains the school.

(7) Where permission is given under paragraph (3), the President may, if necessary, extend the case statement period under regulation 65 or, if it has expired, grant such further period as the President considers appropriate.

(8) If, at the time permission is given under paragraph (3), the respondent local authority, FEI governing body or the responsible body has lost its entitlement to attend or be represented at the hearing in accordance with regulation 23 or 33, the giving of permission restores such entitlement and, if necessary, the hearing may be postponed or adjourned, as appropriate, the respondent can be represented.

The respondent local authority, FEI governing body or responsible body's case statement and evidence

19.—(1) The local authority, governing body of the FEI or the responsible body respondent (“the respondent”) must submit to the Secretary of the Tribunal before the end of the case statement period—

- (a) a copy of the disputed decision,
- (b) a copy of the child or young person's individual development plan, any documentation attached to or forming part of the plan and if available a copy of the latest review,
- (c) a case statement, and
- (d) all other evidence to be relied on which has not already been submitted.

(2) The respondent's case statement must be signed by a person who is authorised to sign such documents on the respondent's behalf, and must state whether or not the respondent intends to oppose the appeal or claim.

(3) Os yw'r ymatebydd yn bwriadu gwrthwynebu'r apêl neu'r hawliad, rhaid i'w ddatganiad achos ddatgan—

- (a) ar ba seiliau y gwrthwynebir yr apêl neu'r hawliad, neu unrhyw ran o'r apêl neu'r hawliad,
- (b) enw a chyfeiriad cynrychiolydd yr ymatebydd ac, os ydynt ar gael, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost y cynrychiolydd,
- (c) y cyfeiriad lle y dylid anfon neu ddanfôn dogfennau ar gyfer yr ymatebydd,
- (d) crynodeb o'r ffeithiau ynghylch y penderfyniad a herir,
- (e) y rheswm neu'r rhesymau dros y penderfyniad a herir, os nad yw'r rheswm neu'r rhesymau yn gynwysedig yn y penderfyniad, ac
- (f) y camau, os oes rhai, a gymerwyd eisoes i ddatrys yr anghydfod.

(4) Rhaid i ddatganiad achos yr ymatebydd gynnwys—

- (a) safbwyntiau'r plentyn neu'r person ifanc ynghylch y materion a godir yn yr apêl neu'r hawliad, neu
- (b) esboniad pam nad yw wedi canfod safbwyntiau'r plentyn.

(5) Caiff yr ymatebydd ddiwygio ei ddatganiad achos, cyflwyno datganiad achos atodol, neu ddiwygio datganiad achos atodol, os rhoddir caniatâd gan y Llywydd.

(6) Rhaid i'r ymatebydd gyflwyno i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gopi o bob diwygiad a datganiad atodol y rhoddyd caniatâd ar eu cyfer o dan baragraff (5) o fewn y cyfnod o amser a ganiateir.

(7) Os rhoddir caniatâd o dan baragraff (5), caiff y Llywydd estyn cyfnod y datganiad achos o dan reoliad 65 neu, os yw wedi dod i ben, ganiatáu unrhyw gyfnod pellach y mae'r Llywydd yn ystyried ei fod yn briodol.

(8) Os yw'r apelydd neu'r hawlydd, ar yr adeg y rhoddir caniatâd o dan baragraff (5), wedi colli hawlogaeth i fod yn bresennol neu i gael ei gynrychioli yn y gwrandawriad yn unol â rheoliad 33, bydd rhoi'r caniatâd yn adfer hawlogaeth o'r fath ac, os bydd angen, caniateir gohirio'r gwrandawriad cyn ei gychwyn neu ar ôl ei gychwyn, fel y bo'n briodol, er mwyn i'r apelydd neu'r hawlydd allu cael ei gynrychioli.

(3) If the respondent intends to oppose the appeal or the claim, its case statement must state—

- (a) the grounds on which the appeal or the claim, or any part of the appeal or the claim, is opposed,
- (b) the name and address of the respondent's representative and, if available, the representative's telephone number and email address,
- (c) the address where documents for the respondent should be sent or delivered,
- (d) a summary of the facts relating to the disputed decision,
- (e) the reason or reasons for the disputed decision, if not included in the decision, and
- (f) the steps, if any, already taken to resolve the dispute.

(4) The respondent's case statement must include—

- (a) the views of the child or young person concerning the issues raised in the appeal or the claim, or
- (b) an explanation of why it has not established the child's views.

(5) The respondent may amend its case statement, submit a supplementary case statement, or amend a supplementary case statement, if permission is given by the President.

(6) The respondent must submit to the Secretary of the Tribunal a copy of every amendment and supplementary statement for which permission was given under paragraph (5) within the time period granted.

(7) If permission is given under paragraph (5) the President may extend the case statement period under regulation 65 or, if it has expired, grant such further period as the President considers appropriate.

(8) If, at the time permission is given under paragraph (5), the appellant or the claimant has lost entitlement to attend or be represented at the hearing in accordance with regulation 33, the giving of permission restores such entitlement and, if necessary, the hearing may be postponed or adjourned, as appropriate, so that the appellant or the claimant can be represented.

Newid cynrychiolydd corff llywodraethu'r SAB, yr awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol sy'n ymateb

20.—(1) Caiff corff llywodraethu'r SAB, yr awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol sy'n ymateb (“yr ymatebydd”), ar unrhyw adeg, newid ei gynrychiolydd at ddibenion yr apêl neu'r hawliad drwy hysbysu Ysgrifennydd y Tribiwnlys am enw a chyfeiriad ei gynrychiolydd newydd ac, os ydynt ar gael, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost y cynrychiolydd.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn (sut bynnag y'u mynegir) at anfon dogfennau i gorff llywodraethu'r SAB, yr awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol, neu roi hysbysiad iddo, i'w dehongli fel pe baent yn gyfeiriadau at anfon dogfennau at y cynrychiolydd a enwir yn unol â pharagraff (1) neu reoliad 19(3)(b) neu roi hysbysiad iddo.

Newid yr awdurdod lleol mewn apêl

21.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys at ddibenion apêl os, ar ôl y dyddiad pan wnaeth yr awdurdod lleol y penderfyniad a herir, nad yw'r awdurdod lleol yn gyfrifol mwyach am y plentyn neu'r person ifanc o fewn ystyr adrannau 13 a 14, neu 18 a 19, o Ddeddf 2018 (“yr hen awdurdod”).

(2) Pan fo paragraff (1) yn gymwys, caiff y Llywydd orchymyn, at holl ddibenion yr apêl ac wrth gael tystiolaeth bod y rheoliad hwn yn gymwys, y rhoddir enw'r awdurdod sy'n gyfrifol am y plentyn o fewn ystyr adran 13 o Ddeddf 2018 (“yr awdurdod newydd”) yn lle'r hen awdurdod.

(3) Rhaid rhoi cyfle i'r hen awdurdod, yr awdurdod newydd a'r apelydd i gael eu clywed cyn gwneud gorchymyn o dan baragraff (2).

(4) Pan wneir gorchymyn o dan baragraff (2)—

- (a) rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys hysbysu'r hen awdurdod, yr awdurdod newydd a'r apelydd;
- (b) ni fydd yr hen awdurdod yn barti yn yr apêl mwyach;
- (c) bydd yr awdurdod newydd yn dod yn barti yn yr apêl;
- (d) mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys fel pe bai'r awdurdod newydd wedi gwneud y penderfyniad a herir;
- (e) rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon copïau i'r awdurdod newydd o'r holl ddogfennau a thystiolaeth ysgrifenedig ynghylch yr apêl a gafodd y Tribiwnlys oddi wrth yr apelydd ac oddi wrth yr hen awdurdod;

Change of representative of respondent FEI governing body, local authority or responsible body

20.—(1) The respondent FEI governing body, local authority or the responsible body (“the respondent”) may at any time change its representative for the purposes of the appeal or the claim by notifying the Secretary of the Tribunal of the name and address of its new representative and, if available, the representative's telephone number and e-mail address.

(2) References in these Regulations (however expressed) to sending documents to, or giving notice to, the governing body of the FEI, the local authority or the responsible body are to be construed as references to sending documents to, or giving notice to, the representative named in accordance with paragraph (1) or regulation 19(3)(b).

Change of local authority in an appeal

21.—(1) This regulation applies for the purposes of an appeal if, after the date on which the local authority made the disputed decision, the local authority is no longer responsible for the child or young person within the meaning of sections 13 and 14, or 18 and 19, of the 2018 Act (“the old authority”).

(2) Where paragraph (1) applies, the President may order that, for all the purposes of the appeal and on receiving evidence that this regulation applies, the name of the authority responsible for the child within the meaning of section 13 of the 2018 Act (“the new authority”) is substituted for the old authority.

(3) The old authority, the new authority and the appellant must have an opportunity to be heard before an order is made under paragraph (2).

(4) When an order is made under paragraph (2)—

- (a) the Secretary of the Tribunal must notify the old authority, the new authority and the appellant;
- (b) the old authority is no longer a party to the appeal;
- (c) the new authority becomes a party to the appeal;
- (d) these Regulations apply as if the new authority had made the disputed decision;
- (e) the Secretary of the Tribunal must send to the new authority copies of all the documents and written evidence relating to the appeal received by the Tribunal from the appellant and from the old authority;

- (f) mae'r weithdrefn ar gyfer penderfynu'r apêl yn ailddechrau ac mae rheoliad 13 yn gymwys fel pe bai'r dogfennau a'r dystiolaeth ysgrifenedig a anfonwyd yn unol ag is-baragraff (e) yn rhan o'r cais apelio y cyfeirir ato yn rheoliad 13(1).

Copiau o ddogfennau i'r partion

22.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys—

- (a) anfon copi i'r awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol o unrhyw ddiwygiad i'r cais apelio neu'r cais hawlio a geir yn ystod cyfnod y datganiad achos;
- (b) ar ddiwedd pob cyfnod datganiad achos, anfon copi o ddatganiad achos a thystiolaeth ysgrifenedig y naill barti at y llall;
- (c) anfon copïau ar unwaith o unrhyw ddiwygiadau neu ddatganiadau atodol, sylwadau ysgrifenedig, tystiolaeth ysgrifenedig (ac eithrio tystiolaeth ysgrifenedig y ceir copi ohoni yn unol â rheoliad 47 (tystiolaeth ysgrifenedig sy'n hwyr)) neu ddogfennau eraill a geir oddi wrth barti ar ôl diwedd cyfnod y datganiad achos, at y parti arall.

(2) Os cyflwynir cais apelio neu gais hawlio, datganiad achos, diwygiad, datganiad atodol, sylw ysgrifenedig, tystiolaeth ysgrifenedig neu ddogfen arall i Ysgrifennydd y Tribiwnlys ar ôl yr amser a ragnodir gan y Rheoliadau hyn, ni chaiff Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon copi o'r hyn a gyflwynir felly at y parti arall, onid estynnir y terfyn amser gan y Llywydd o dan reoliad 65.

(3) Pan fo Ysgrifennydd y Tribiwnlys yn anfon unrhyw gopïau o ddogfennau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) at barti sydd eisoes wedi rhoi gwybod i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, mewn ymateb i'r ymholiadau a wneir o dan reoliad 24(a)(i) a (ii), nad yw'r parti yn dymuno bod yn bresennol na chael ei gynrychioli yn y gwrandawriad, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys ofyn a yw'r parti'n dymuno newid yr ymateb hwnnw ar sail y copïau a gafwyd.

Methiant i gyflwyno datganiad achos ac absenoldeb gwrthwynebiad

23.—(1) Caiff y panel tribiwnlys benderfynu'r apêl neu'r hawliad heb wrandawriad neu drwy gynnal gwrandawriad—

- (a) os na chaiff Ysgrifennydd y Tribiwnlys ddatganiad achos gan yr awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol o fewn cyfnod y datganiad achos;

- (f) the procedure for determining the appeal re-starts and regulation 13 applies as if the documents and written evidence sent in accordance with sub-paragraph (e) were part of the appeal application referred to in regulation 13(1).

Copy documents for parties

22.—(1) Subject to paragraph (2), the Secretary of the Tribunal must—

- (a) send to the local authority, FEI governing body or the responsible body, a copy of any amendment to the appeal application or the claim application received during the case statement period;
- (b) at the end of each case statement period, send a copy of each party's case statement and written evidence to the other party;
- (c) immediately send copies of any amendments or supplementary statements, written representations, written evidence (other than written evidence of which a copy is received in accordance with regulation 47 (late written evidence)) or other documents received from a party after the end of the case statement period to the other party.

(2) If an appeal application or a claim application, a case statement, amendment, supplementary statement, written representation, written evidence or other document is submitted to the Secretary of the Tribunal after the time prescribed by these Regulations, the Secretary of the Tribunal must not send a copy of it to the other party unless the President extends the time limit under regulation 65.

(3) Where the Secretary of the Tribunal sends any copies of documents referred to in paragraph (1) to a party who has already informed the Secretary of the Tribunal in response to the enquiries made under regulation 24(a)(i) and (ii) that the party does not wish to attend or be represented at the hearing, the Secretary of the Tribunal must ask whether the party wishes to amend that response on the basis of the copies received.

Failure to submit a case statement and absence of opposition

23.—(1) The tribunal panel may determine the appeal or the claim without a hearing or by holding a hearing if—

- (a) the Secretary of the Tribunal does not receive a case statement from the local authority, FEI governing body or the responsible body within the case statement period;

- (b) os yw'r awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol yn datgan yn ysgrifenedig nad yw'n gwrthwynebu—
 - (i) yr apêl, neu
 - (ii) yr hawliad;
- (c) os yw'r awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol yn tynnu ei wrthwynebiad yn ôl i—
 - (i) yr apêl, neu
 - (ii) yr hawliad.

(2) Pan fo'r panel tribiwnlys yn penderfynu'r apêl neu'r hawliad heb wrandawriad, rhaid iddo wneud hynny ar sail y cais apelio neu'r cais hawlio ac unrhyw ddogfennaeth arall a gafwyd neu a ddiwygiwyd eisoes yn unol â rheoliad 18(3).

(3) Os yw'r panel tribiwnlys yn penderfynu cynnal gwrandawriad yn unol â pharagraff (1), caiff ddyroddi cyfarwyddyd sy'n gwahardd yr awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol rhag bod yn bresennol yn y gwrandawriad na chael ei gynrychioli yn y gwrandawriad.

(4) Os yw'r apêl yn ymwneud ag—

- (a) yr hyn a gynhwysir mewn cynllun datblygu unigol plentyn neu berson ifanc, ni chaniateir i ddatganiad nad yw'r awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'r SAB yn gwrthwynebu'r apêl, neu ei fod yn tynnu ei wrthwynebiad yn ôl, gael effaith hyd nes bod yr awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'r SAB yn cyflwyno i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gadarnhad ysgrifenedig o'r diwygiadau (os oes rhai) y mae'n cytuno i'w gwneud i gynllun datblygu unigol y plentyn neu'r person ifanc;
- (b) penderfyniad i beidio â chynnal cynllun datblygu unigol, ni chaniateir i ddatganiad nad yw'r awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'r SAB yn gwrthwynebu'r apêl, neu ei fod yn tynnu ei wrthwynebiad yn ôl, gael effaith hyd nes bod yr awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'r SAB yn cyflwyno i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gadarnhad ysgrifenedig o'i benderfyniad i beidio â gwrthwynebu'r apêl neu i dynnu ei wrthwynebiad yn ôl.

- (b) the local authority, FEI governing body or the responsible body states in writing that it does not resist—
 - (i) the appeal, or
 - (ii) the claim;
- (c) the local authority, FEI governing body or the responsible body withdraws its opposition to—
 - (i) the appeal, or
 - (ii) the claim.

(2) Where the tribunal panel determines the appeal or the claim without a hearing it must do so on the basis of the appeal application or claim application and any other documentation already received or amended in accordance with regulation 18(3).

(3) If the tribunal panel decides to hold a hearing in accordance with paragraph (1), it may issue a direction precluding the local authority, FEI governing body or the responsible body from attending the hearing or being represented at the hearing.

(4) If the appeal relates to—

- (a) the contents of a child's or young person's individual development plan, no statement that the local authority or FEI governing body does not resist the appeal or that it withdraws its opposition may take effect until the local authority or FEI governing body submits to the Secretary of the Tribunal written confirmation of the amendments (if any) it agrees to make to the child's or young person's individual development plan;
- (b) a decision to cease to maintain an individual development plan, no statement that the local authority or FEI governing body does not resist the appeal or that it withdraws its opposition may take effect until the local authority or FEI governing body submits to the Secretary of the Tribunal written confirmation of its decision not to resist the appeal or to withdraw its opposition.

Ymholiadau gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys

24. Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys ar unrhyw adeg ar ôl cael y cais apelio neu'r cais hawlio—

- (a) gofyn i bob parti—
 - (i) a yw'r parti yn bwriadu bod yn bresennol yn y gwrandawriad ai peidio;
 - (ii) a yw'r parti yn dymuno cael ei gynrychioli yn y gwrandawriad yn unol â rheoliad 50 ac, os felly, enw'r cynrychiolydd;
 - (iii) a yw'r parti yn bwriadu galw tystion ac, os felly, enwau'r tystion arfaethedig, eu galwedigaethau, ac a oes arbenigwr meddygol neu arbenigwr arall yn eu plith;
 - (iv) a oes ar y parti, neu dyst, angen cymorth oherwydd nam cyfathrebu ac, os felly, manylion y math o gymorth cyfathrebu sy'n ofynnol;
 - (v) a oes gan y parti, neu dyst y bwriedir ei alw, unrhyw anableddau a all olygu y byddai'n ofynnol gwneud addasiadau rhesymol;
 - (vi) a yw'r parti yn dymuno i berson fod yn bresennol fel sylwedydd yn y gwrandawriad ac, os felly, enw'r person hwnnw;
 - (vii) a yw'r parti yn dymuno i unrhyw berson fod yn bresennol yn y gwrandawriad i gyfleu safbwyntiau a dymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc ac, os felly, enw a chyfeiriad y person hwnnw ac, os yw'n berthnasol, cysylltiad y person â'r plentyn neu'r person ifanc;
- (b) rhoi gwybod i bob parti—
 - (i) am effaith rheoliad 40(6) a darpariaeth rheoliad 42(2), a
 - (ii) pan fo ateb i unrhyw un neu ragor o'r ymholiadau o dan baragraff (a) yn newid ar ôl i barti ymateb i'r ymholiadau hynny, fod rhaid i'r parti o dan sylw roi gwybod yn ysgrifenedig ar unwaith i Ysgrifennydd y Tribiwnlys.

Enquiries by the Secretary of the Tribunal

24. The Secretary of the Tribunal must at any time after receiving the appeal application or the claim application—

- (a) ask each party—
 - (i) whether or not the party intends to attend the hearing;
 - (ii) whether the party wishes to be represented at the hearing in accordance with regulation 50 and if so the name of the representative;
 - (iii) whether the party intends to call witnesses and if so the names of the proposed witnesses, their occupations, and whether any of the witnesses is a medical or other expert;
 - (iv) whether the party or a witness requires assistance because of a communication impairment and if so, details of the type of communication assistance required;
 - (v) whether the party or a witness to be called has any disabilities that may require reasonable adjustments to be made;
 - (vi) whether the party wishes a person to attend the hearing as an observer and if so the name of such person;
 - (vii) whether the party wishes any person to attend the hearing to communicate the views and wishes of the child or young person and, if so, the name and address of such person and if relevant, the person's connection to the child or young person;
- (b) inform each party—
 - (i) of the effect of regulation 40(6) and the provision of regulation 42(2), and
 - (ii) that where an answer to any of the enquiries under paragraph (a) changes after a party has responded to the enquiries, the party concerned must immediately inform the Secretary of the Tribunal in writing.

Methiant i ymateb i ymholiadau a wneir gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys

25.—(1) Caiff y Llywydd orchymyn—

- (a) bod y cais apelio neu'r cais hawlio yn cael ei ddileu ar y sail bod methiant yr apelydd neu'r hawlydd i gydymffurfio ag ymholiadau, a wneir gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys o dan reoliad 24, yn rhagfarnu neu'n oedi gwrandawriad teg yr apêl neu'r hawliad;
- (b) na chaiff yr awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol gymryd unrhyw gam pellach yn yr apêl neu'r hawliad na bod yn bresennol yn y gwrandawriad na chael ei gynrychioli yno ar y sail bod methiant i gydymffurfio ag ymholiadau, a wneir gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys o dan reoliad 24, yn rhagfarnu neu'n oedi gwrandawriad teg yr apêl neu'r hawliad.

(2) Cyn gwneud gorchymyn o dan baragraff (1), rhaid i'r Llywydd roi hysbysiad i'r parti y mae'r Llywydd yn bwriadu gwneud gorchymyn yn ei erbyn, gan wahodd sylwadau ganddo, a rhaid i'r Llywydd ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn—

- (a) rhaid i hysbysiad sy'n gwahodd sylwadau roi gwybod i'r parti y caiff, o fewn cyfnod (nad yw'n llai na 5 niwrnod gwaith) a bennir yn yr hysbysiad, naill ai cyflwyno sylwadau ysgrifenedig neu ofyn am gyfle i gyflwyno sylwadau llafar;
- (b) bydd sylwadau wedi eu gwneud—
 - (i) yn achos sylwadau ysgrifenedig, os cyflwynir hwy o fewn y cyfnod penodedig, a
 - (ii) yn achos sylwadau llafar, os yw'r parti sy'n bwriadu eu cyflwyno wedi gofyn am gyfle i wneud hynny o fewn y cyfnod penodedig.

(4) Os yw cais apelio neu gais hawlio yn cael ei ddileu o dan baragraff (1)(a), ystyrir bod yr achos y mae'r apêl neu'r hawliad yn ymwneud ag ef wedi ei derfynu.

Pŵer i ddileu'r apêl neu'r hawliad

26.—(1) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, yn ystod unrhyw gam yn yr apêl neu'r hawliad, os yw'r awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol yn gwneud cais neu os yw'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn cyfarwyddo felly, gyflwyno hysbysiad i'r apelydd neu'r hawlydd sy'n datgan bod cynnig wedi ei wneud i ddileu'r cyfan neu ran o'r apêl neu'r hawliad, ar un o'r seiliau a bennir ym mharagraff (2) neu oherwydd diffyg erlyniad.

Failure to respond to enquiries made by the Secretary of the Tribunal

25.—(1) The President may order—

- (a) that the appeal application or the claim application is struck out on the grounds that the appellant's or the claimant's failure to comply with enquiries made by the Secretary of the Tribunal under regulation 24, prejudices, or delays, the fair hearing of the appeal or the claim;
- (b) that the local authority, FEI governing body or the responsible body may not take any further step in the appeal or claim and may not attend the hearing or be represented at the hearing on the grounds of a failure to comply with enquiries made by the Secretary of the Tribunal under regulation 24, prejudices, or delays, the fair hearing of the appeal or the claim.

(2) Before making an order under paragraph (1), the President must give the party against whom the President proposes to make an order a notice inviting representations and must consider any representations made.

(3) For the purposes of this regulation—

- (a) a notice inviting representations must inform the party that within a period (no less than 5 working days) specified in the notice, the party may either make written representations or request an opportunity to make oral representations;
- (b) representations are made if—
 - (i) in the case of written representations, they are made within the specified period, and
 - (ii) in the case of oral representations, the party proposing to make them has requested an opportunity to do so within the specified period.

(4) If an appeal application or a claim application is struck out under paragraph (1)(a), the proceedings to which the appeal or claim relates are considered to be concluded.

Power to strike out the appeal or claim

26.—(1) The Secretary of the Tribunal must, at any stage of the appeal or claim if the local authority, FEI governing body or the responsible body applies, or the President or the tribunal panel so directs, serve a notice on the appellant or the claimant stating that it has been proposed that the whole or part of the appeal or the claim should be struck out on one of the grounds specified in paragraph (2) or for want of prosecution.

(2) Y seiliau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw—

- (a) bod yr apêl wedi ei gwneud neu'r hawliad wedi ei wneud ac eithrio yn unol â'r Rheoliadau hyn;
- (b) nad yw'r apêl neu'r hawliad o fewn awdurdodaeth y Tribiwnlys, neu nad yw o fewn awdurdodaeth y Tribiwnlys mwyach;
- (c) nad yw'r apêl neu'r hawliad yn datgelu seiliau rhesymol;
- (d) bod yr apêl neu'r hawliad yn camddefnyddio proses y Tribiwnlys.

(3) Rhaid i'r hysbysiad o dan baragraff (1) wahodd yr apelydd neu'r hawlydd i gyflwyno sylwadau.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn—

- (a) rhaid i hysbysiad sy'n gwahodd sylwadau roi gwybod i'r apelydd neu'r hawlydd y caiff yr apelydd neu'r hawlydd, o fewn cyfnod (nad yw'n llai na 5 niwrnod gwaith) a bennir yn yr hysbysiad, naill ai cyflwyno sylwadau ysgrifenedig neu ofyn am gyfle i gyflwyno sylwadau llafar;
- (b) mae sylwadau wedi eu gwneud—
 - (i) yn achos sylwadau ysgrifenedig, os cyflwynir hwy o fewn y cyfnod penodedig, a
 - (ii) yn achos sylwadau llafar, os yw'r parti sy'n bwriadu eu cyflwyno wedi gofyn am gyfle i wneud hynny o fewn y cyfnod penodedig.

(5) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir gan yr apelydd neu'r hawlydd, orchymyn bod y cyfan neu ran o'r apêl neu'r hawliad yn cael ei ddileu neu ei dileu, ar un o'r seiliau a bennir ym mharagraff (2) neu oherwydd diffyg erlyniad.

(6) Caniateir gwneud gorchymyn o dan baragraff (5) heb gynnal gwrandawriad, oni fydd yr apelydd neu'r hawlydd yn gofyn am gyfle i gyflwyno sylwadau llafar.

(7) Os cyflwynir sylwadau llafar yn unol â pharagraff (6), caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ystyried y sylwadau llafar ar ddechrau'r gwrandawriad o sylwedd yr apêl neu'r hawliad.

(8) Os yw'r cyfan o gais apelio neu gais hawlio yn cael ei ddileu o dan baragraff (5), bennir bod yr achos y mae'r apêl neu'r hawliad yn ymwneud ag ef wedi ei derfynu.

(2) The grounds referred to in paragraph (1) are that the appeal or the claim—

- (a) is made otherwise than in accordance with these Regulations;
- (b) is not, or is no longer, within the jurisdiction of the Tribunal;
- (c) discloses no reasonable grounds;
- (d) is an abuse of the Tribunal's process.

(3) The notice under paragraph (1) must invite the appellant or the claimant to make representations.

(4) For the purposes of this regulation—

- (a) a notice inviting representations must inform the appellant or the claimant that the appellant or the claimant may, within a period (no less than 5 working days) specified in the notice, either make written representations or request an opportunity to make oral representations;
- (b) representations are made if—
 - (i) in the case of written representations, they are made within the specified period, and
 - (ii) in the case of oral representations, the party proposing to make them has requested an opportunity to do so within the specified period.

(5) The President or the tribunal panel may, after considering any representations made by the appellant or the claimant, order that the whole or part of the appeal or the claim is struck out on one of the grounds specified in paragraph (2) or for want of prosecution.

(6) An order under paragraph (5) may be made without holding a hearing unless the appellant or the claimant requests the opportunity to make oral representations.

(7) If oral representations are made in accordance with paragraph (6), the President or the tribunal panel may consider the oral representations at the beginning of the hearing of the substantive appeal or claim.

(8) If the whole of an appeal application or a claim application is struck out under paragraph (5) the proceedings to which the appeal or claim relates are deemed to be concluded.

Gorchymyn i ddiwygio datganiad achos

27.—(1) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, os yw'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn meddwl ei bod yn addas, yn ystod unrhyw gam o'r apêl neu'r hawliad, orchymyn bod datganiad achos parti yn cael ei ddiwygio ar y sail nad yw'n datgelu seiliau rhesymol dros wneud yr apêl neu'r hawliad neu oherwydd ei fod yn camddefnyddio proses y Tribiwnlys.

(2) Cyn gwneud gorchymyn o dan baragraff (1), rhaid i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys roi hysbysiad i'r parti y mae'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn bwriadu gwneud gorchymyn yn ei erbyn, gan wahodd sylwadau ganddo, a rhaid i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn—

- (a) rhaid i hysbysiad sy'n gwahodd sylwadau roi gwybod i'r parti y caiff, o fewn cyfnod (nad yw'n llai na 5 niwrnod gwaith) a bennir yn yr hysbysiad, naill ai cyflwyno sylwadau ysgrifenedig neu ofyn am gyfle i gyflwyno sylwadau llafar;
- (b) bydd sylwadau wedi eu cyflwyno—
 - (i) yn achos sylwadau ysgrifenedig, os cyflwynir hwy o fewn y cyfnod a bennir felly, a
 - (ii) yn achos sylwadau llafar, os yw'r parti sy'n bwriadu eu cyflwyno wedi gofyn am gyfle i wneud hynny o fewn y cyfnod a bennir felly.

Tystiolaeth a chyflwyniadau

28.—(1) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys roi cyfarwyddydau ar—

- (a) y materion y mae'n ofynnol cael tystiolaeth neu gyflwyniadau yn eu cylch,
- (b) natur y dystiolaeth neu'r cyflwyniadau sy'n ofynnol,
- (c) pa un a ganiateir i'r partïon ddarparu tystiolaeth arbenigol ai peidio neu a yw'n ofynnol iddynt wneud hynny ac, os felly, a oes rhaid i'r partïon ar y cyd benodi un arbenigwr i ddarparu tystiolaeth o'r fath,
- (d) y modd y mae unrhyw dystiolaeth neu gyflwyniadau i'w darparu, a all gynnwys cyfarwyddyd i'w rhoi—
 - (i) ar lafar mewn gwrandawriad, neu
 - (ii) fel cyflwyniadau ysgrifenedig neu ddatganiad tyst ysgrifenedig, ac
- (e) yr amser erbyn pryd y mae unrhyw dystiolaeth neu gyflwyniadau i'w darparu.

Order to amend case statement

27.—(1) The President or the tribunal panel may, if the President or the tribunal panel thinks fit at any stage of the appeal or the claim, order that a party's case statement is amended on the grounds that it discloses no reasonable grounds for bringing the appeal or the claim or it is an abuse of the Tribunal's process.

(2) Before making an order under paragraph (1), the President or the tribunal panel must give the party against whom the President or the tribunal panel proposes to make the order, a notice inviting representations and must consider any representations made.

(3) For the purposes of this regulation—

- (a) a notice inviting representations must inform the party that, within a period (no less than 5 working days) specified in the notice, the party may either make written representations or request an opportunity to make oral representations;
- (b) representations are made if—
 - (i) in the case of written representations, they are made within the period so specified, and
 - (ii) in the case of oral representations, the party proposing to make them has requested an opportunity to do so within the period so specified.

Evidence and submissions

28.—(1) The President or the tribunal panel may give directions on—

- (a) the issues which require evidence or submissions,
- (b) the nature of the evidence or submissions required,
- (c) whether the parties are permitted or required to provide expert evidence, and if so whether the parties must jointly appoint a single expert to provide such evidence,
- (d) the manner in which any evidence or submissions are to be provided, which may include a direction for them to be given—
 - (i) orally at a hearing, or
 - (ii) by written submissions or written witness statement, and
- (e) the time by which any evidence or submissions are to be provided.

(2) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys gyfarwyddo, mewn perthynas ag apêl—

- (a) rhiant y plentyn i roi'r plentyn ar gael i'w archwilio neu ei asesu gan berson proffesiynol sydd â chymhwyster addas, neu
- (b) y person sy'n gyfrifol am ysgol neu leoliad addysgol i ganiatáu i berson proffesiynol sydd â chymhwyster addas gael mynediad i'r ysgol neu'r lleoliad addysgol at ddiben asesu'r plentyn neu'r ddarpariaeth a wneir, neu sydd i'w gwneud, ar gyfer y plentyn.

(3) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ystyried bod methiant gan berson, sy'n barti yn yr apêl, i gydymffurfio â gofyniad a wneir o dan baragraff (2), yn absenoldeb unrhyw reswm da dros fethiant o'r fath, yn fethiant i gydweithredu â'r Tribiwnlys.

(4) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys—

- (a) derbyn tystiolaeth, pa un a fyddai'r dystiolaeth yn dderbyniadwy ai peidio mewn treial sifil yng Nghymru neu Loegr;
- (b) allgáu tystiolaeth a fyddai fel arall yn dderbyniadwy—
 - (i) pan na ddarparwyd y dystiolaeth o fewn yr amser a ganiateid gan gyfarwyddyd,
 - (ii) pan ddarparwyd y dystiolaeth fel arall mewn modd nad oedd yn cydymffurfio â chyfarwyddyd, neu
 - (iii) pan fyddai'n annheg derbyn y dystiolaeth fel arall.

Rheoli'r achos a chyfarwyddydau

29.—(1) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, ar ysgogiad y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, neu pan wneir cais gan barti, roi pa gyfarwyddydau bynnag i barti ar unrhyw fater sy'n codi mewn cysylltiad â'r apêl neu'r hawliad y mae'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn meddwl ei bod yn addas, gan gynnwys gohirio'r achos, neu'r cyfarwyddydau hynny a ddarperir yn rheoliadau 31 a 32, i alluogi'r partïon i baratoi ar gyfer y gwrandawriad neu i gynorthwyo'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys i benderfynu'r materion.

(2) Rhaid i gais gan barti am gyfarwyddydau gael ei wneud yn ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Tribiwnlys.

(3) Rhaid i barti sy'n cyflwyno cais am gyfarwyddydau i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, oni chyflwynir cydsyniad ysgrifenedig y parti arall gyda'r cais, gyflwyno copi o'r cais i'r parti arall.

(4) Os yw'r parti arall yn gwrthwynebu'r cyfarwyddydau a geisir, rhaid i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys ystyried y gwrthwynebiad ac, os yw'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn ystyried bod angen hynny er mwyn penderfynu'r cais, rhaid iddo roi cyfle i'r partïon i gyflwyno sylwadau.

(2) The President or the tribunal panel may direct in relation to an appeal—

- (a) the parent of the child to make the child available for examination or assessment by a suitably qualified professional person, or
- (b) the person responsible for a school or educational setting to allow a suitably qualified professional person to have access to the school or educational setting for the purpose of assessing the child or the provision made, or to be made, for the child.

(3) The President or the tribunal panel may consider a failure by a person who is a party to the appeal to comply with a requirement made under paragraph (2), in the absence of any good reason for such failure, as a failure to co-operate with the Tribunal.

(4) The President or the tribunal panel may—

- (a) admit evidence whether or not the evidence would be admissible in a civil trial in England or Wales;
- (b) exclude evidence that would otherwise be admissible where—
 - (i) the evidence was not provided within the time allowed by a direction,
 - (ii) the evidence was otherwise provided in a manner that did not comply with a direction, or
 - (iii) it would otherwise be unfair to admit the evidence.

Case management and directions

29.—(1) The President or the tribunal panel may, on the President's or the tribunal panel's initiative, or on the application of a party, give such directions to a party on any matter arising in connection with the appeal or claim as the President or the tribunal panel thinks fit, including staying proceedings, or such directions as are provided in regulations 31 and 32 to enable the parties to prepare for the hearing or to assist the President or the tribunal panel to determine the issues.

(2) An application by a party for directions must be made in writing to the Secretary of the Tribunal.

(3) A party who submits an application for directions to the Secretary of the Tribunal must unless the application is accompanied by the written consent of the other party serve a copy of the application on the other party.

(4) If the other party objects to the directions sought, the President or the tribunal panel must consider the objection and, if the President or the tribunal panel consider it necessary for the determination of the application, must give the parties an opportunity to make representations.

(5) Pe na fyddai, ym marn y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, amser rhesymol cyn gwrandawriad y rhoddwyd hysbysiad ohono o dan reoliad 37(1) i gydymffurfio â chyfarwyddyd y mae parti yn gwneud cais amdano, caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys—

- (a) os yw wedi ei fodloni y gall cydymffurfio â'r cyfarwyddyd gynorthwyo'r panel tribiwnlys i benderfynu'r materion, ohirio'r gwrandawriad, cyn ei gychwyn, o dan reoliad 48, neu
- (b) gwrthod y cais.

(6) Rhaid i gyfarwyddyd—

- (a) cynnwys datganiad o'r canlyniadau posibl i'r apêl neu'r hawliad fel y'u darperir gan reoliad 33, pe bai parti yn methu â chydymffurfio â'r cyfarwyddyd o fewn yr amser a ganiateir gan y Llywydd neu'r panel tribiwnlys;
- (b) oni chafodd y person y cyfeirir y cyfarwyddyd ato gyfle i wrthwynebu'r cyfarwyddyd, neu wedi cydsynio'n ysgrifenedig i'r cais am y cyfarwyddyd, gynnwys datganiad i'r perwyl y caiff y person hwnnw wneud cais i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys o dan reoliad 30 am amrywio'r cyfarwyddyd neu ei osod o'r neilltu.

(7) Pan fo'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys, yn unol â rheoliad 35(1), yn gorchymyn—

- (a) bod apêl i'w gwrandao ar y cyd â hawliad, ni chaiff y cyfarwyddydau a roddir o dan baragraff (1) ymwneud ond â'r apêl;
- (b) bod hawliad i'w wrando ar y cyd ag apêl, ni chaiff y cyfarwyddydau a roddir o dan baragraff (1) ymwneud ond â'r hawliad.

(8) Pan fo paragraff (7)(a) yn gymwys, caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ystyried a yw'n fuddiol, o ran penderfynu'r apêl a'r hawliad yn effeithlon, ac er budd y partïon, roi'r un cyfarwyddydau, neu gyfarwyddydau tebyg, mewn cysylltiad â'r apêl â'r rheini a roddir yn yr hawliad.

(9) Pan fo paragraff (7)(b) yn gymwys, caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ystyried a yw'n fuddiol, o ran penderfynu'r hawliad a'r apêl yn effeithlon, ac er budd y partïon, roi'r un cyfarwyddydau, neu gyfarwyddydau tebyg, mewn perthynas â'r hawliad â'r rheini a roddir yn yr apêl.

(10) Pan fo'n ymddangos i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys fod mater yn codi mewn apêl neu hawliad y mae rhaid ei benderfynu cyn y gwrandawriad ar sylwedd yr apêl neu'r hawliad, ac na ellir ei benderfynu'n briodol drwy roi cyfarwyddydau, caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys wysio'r partïon i ymddangos gerbron y Llywydd neu'r panel tribiwnlys at y diben hwn, a chaiff roi unrhyw gyfarwyddydau angenrheidiol sy'n ymwneud â'u hymddangosiad.

(5) If in the opinion of the President or the tribunal panel there would not be a reasonable time before a hearing of which notice has been given under regulation 37(1) to comply with a direction for which a party applies, the President or the tribunal panel may—

- (a) if satisfied that compliance with the direction may assist the tribunal panel to determine the issues, postpone the hearing under regulation 48, or
- (b) refuse the application.

(6) A direction must—

- (a) include a statement of the possible consequences for the appeal or claim, as provided by regulation 33, of a party's failure to comply with the direction within the time allowed by the President or the tribunal panel;
- (b) unless the person to whom the direction is addressed had an opportunity to object to the direction, or gave their written consent to the application for it, contain a statement to the effect that that person may apply to the President or the tribunal panel under regulation 30 to vary or set aside the direction.

(7) Where, in accordance with regulation 35(1) the President or the tribunal panel orders—

- (a) that an appeal is heard together with a claim, the directions given under paragraph (1), may relate to the appeal only;
- (b) that a claim is heard together with an appeal, the directions given under paragraph (1), may relate to the claim only.

(8) Where paragraph (7)(a) applies, the President or the tribunal panel may consider whether it is in the interests of the efficient disposal of the appeal and the claim, and in the interests of the parties, that the directions given with respect to the appeal are the same as, or similar to, those given in the claim.

(9) Where paragraph (7)(b) applies, the President or the tribunal panel may consider whether it is in the interests of the efficient disposal of the claim and the appeal, and in the interests of the parties, that the directions given with respect to the claim are the same as, or similar to, those given in the appeal.

(10) Where it appears to the President or the tribunal panel that there is an issue in an appeal or claim which must be determined prior to the substantive hearing of the appeal or the claim and which cannot properly be determined by the giving of directions, the President or the tribunal panel may summon the parties to appear before the President or the tribunal panel for this purpose and may give any necessary directions relating to their appearance.

Amrywio cyfarwyddydau neu eu gosod o'r neilltu

30.—(1) Pan na chafodd parti y cyfeirir cyfarwyddyd ato gyfle i wrthwynebu rhoi'r cyfarwyddyd, ac na chydysniodd yn ysgrifenedig â'r cais am y cyfarwyddyd hwnnw, caiff y parti hwnnw wneud cais i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys, ar unrhyw adeg drwy hysbysiad i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, i'r cyfarwyddyd gael ei amrywio neu ei osod o'r neilltu.

(2) Ni chaiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys amrywio'r cyfarwyddyd na'i osod o'r neilltu heb yn gyntaf hysbysu'r partion ac ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir ganddynt.

Manylion a datganiadau atodol

31. Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys roi cyfarwyddydau sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw barti ddarparu, naill ai yn neu gyda datganiad achos y parti hwnnw, unrhyw fanylion neu ddatganiadau atodol sy'n rhesymol ofynnol ar gyfer penderfynu'r apêl neu'r hawliad.

Datgelu dogfennau a deunydd arall

32.—(1) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys—

- (a) cyfarwyddo parti i gyflwyno i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys erbyn dyddiad penodedig unrhyw ddogfen neu ddeunydd arall sy'n ofynnol gan y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, ac y mae o fewn pŵer y parti hwnnw i'w chyflwyno neu ei gyflwyno;
- (b) rhoi cyfarwyddyd ar—
 - (i) unrhyw fater y mae'n ofynnol datgelu tystiolaeth yn ei gylch,
 - (ii) natur a graddau'r datgeliad,
 - (iii) y modd y mae'r ddogfen neu'r dystiolaeth arall i'w darparu i'r Tribiwnlys, a
 - (iv) allgáu unrhyw ddogfen neu dystiolaeth arall sy'n amherthnasol, yn ddiangen neu a gafwyd yn amhriodol.

(2) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys osod amod ar gyflenwi copi o unrhyw ddogfen neu ddeunydd arall a gyflwynir wrth gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir o dan baragraff (1), na chaiff y parti sy'n ei gael ddefnyddio'r copi ond at ddibenion yr apêl neu'r hawliad.

(3) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys wneud ymgymeriad ysgrifenedig i gadw'r amod y cyfeirir ato ym mharagraff (2) yn ofynnol cyn cyflenwi copi.

Varying or setting aside directions

30.—(1) Where a party to whom a direction is addressed had no opportunity to object to the giving of the direction and did not give written consent to the application for it, that party may apply at any time to the President or the tribunal panel, by notice to the Secretary of the Tribunal, for the direction to be varied or set aside.

(2) The President or the tribunal panel must not vary the direction or set it aside without first notifying the parties and considering any representations made by them.

Particulars and supplementary statements

31. The President or the tribunal panel may give directions requiring any party to provide in, or with, that party's case statement such particulars or supplementary statements as may reasonably be required for the determination of the appeal or the claim.

Disclosure of documents and other material

32.—(1) The President or the tribunal panel may—

- (a) direct a party to submit to the President or the tribunal panel by a specified date any document or other material which the President or the tribunal panel may require and which it is in the power of that party to submit;
- (b) give a direction on—
 - (i) any issue on which disclosure of evidence is required,
 - (ii) the nature and extent of the disclosure,
 - (iii) the manner in which the document or other evidence is to be provided to the Tribunal, and
 - (iv) the exclusion of any document or other evidence which is irrelevant, unnecessary or improperly obtained.

(2) The President or the tribunal panel may impose a condition on the supply of a copy of any document or other material submitted in compliance with a direction given under paragraph (1) that the party receiving it must use the copy only for the purposes of the appeal or claim.

(3) The President or the tribunal panel may require a written undertaking to observe the condition referred to in paragraph (2) before supplying a copy.

(4) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys roi gorchymyn i barti ar gyfer y math o ddatgelu neu archwilio dogfennau (gan gynnwys cymryd copiâu) y gellid ei ganiatáu o dan Reolau Trefniadaeth Sifil 1998(1).

(5) Rhaid i orchymyn o dan baragraff (4) gynnwys cyfeiriad—

- (a) mewn perthynas ag apêl, fod unrhyw berson sydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio â'r gofynion ynghylch datgelu neu archwilio dogfennau, yn agored, o dan adran 79 o Ddeddf 2018, ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol, a
- (b) mewn perthynas â hawliad, fod unrhyw berson sydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio â'r gofynion ynghylch datgelu neu archwilio dogfennau, yn agored, o dan baragraff 6(8) o Atodlen 17 i Ddeddf 2010, ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Methiant i gydymffurfio â chyfarwyddydau

33.—(1) Os nad yw parti wedi cydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir o dan y Rheoliadau hyn o fewn yr amser a bennir yn y cyfarwyddyd, caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys—

- (a) pan yr apelydd neu'r hawlydd yw'r parti diffygiol, wrthod yr apêl neu'r hawliad heb wrandawriad;
- (b) pan yr awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol yw'r parti diffygiol, benderfynu'r apêl neu'r hawliad heb wrandawriad;
- (c) cynnal gwrandawriad—
 - (i) heb hysbysu'r parti diffygiol, lle nad yw'r parti diffygiol yn bresennol nac yn cael ei gynrychioli, neu
 - (ii) pan fo'r partion wedi eu hysbysu am y gwrandawriad yn unol â rheoliad 37(1), a chyfarwyddo nad oes hawlogaeth gan y parti diffygiol, nac unrhyw berson sy'n bwriadu cynrychioli'r parti hwnnw neu roi tystiolaeth ar ei ran, i fod yn bresennol yn y gwrandawriad.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr “y parti diffygiol” yw'r parti sydd wedi methu â chydymffurfio â'r cyfarwyddyd.

(4) The President or the tribunal panel may grant to a party an order for such disclosure or inspection of documents (including the taking of copies) as might be granted under the Civil Procedure Rules 1998(1).

(5) An order under paragraph (4) must contain a reference—

- (a) in relation to an appeal, that under section 79 of the 2018 Act, any person who without reasonable excuse fails to comply with requirements regarding disclosure or inspection of documents is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale, and
- (b) in relation to a claim, that under paragraph 6(8) of Schedule 17 to the 2010 Act, any person who without reasonable excuse fails to comply with requirements regarding disclosure or inspection of documents is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

Failure to comply with directions

33.—(1) If a party has not complied with a direction given under these Regulations within the time specified in the direction the President or the tribunal panel may—

- (a) where the party in default is the appellant or the claimant, dismiss the appeal or the claim without a hearing;
- (b) where the party in default is the local authority, FEI governing body or the responsible body, determine the appeal or the claim without a hearing;
- (c) hold a hearing—
 - (i) without notifying the party in default, at which the party in default is not present or represented, or
 - (ii) where the parties have been notified of the hearing in accordance with regulation 37(1), and direct that neither the party in default nor any person that intends to represent that party or give evidence on that party's behalf is entitled to attend the hearing.

(2) In this regulation, “the party in default” means the party which has failed to comply with the direction.

(1) Gweler Rhan 31 – Datgelu ac Archwilio Dogfennau.

(1) See Part 31 – Disclosure and Inspection of Documents.

Cydgrynhoi apelau neu hawliadau

34.—(1) Os oes mwy nag un apêl yn ymwneud â'r un plentyn neu'r un person ifanc, neu'n galw am benderfyniad ar yr un mater i raddau sylweddol, caiff y Llywydd orchymyn bod yr apelau yn cael eu gwrandio gyda'i gilydd.

(2) Os oes mwy nag un hawliad yn ymwneud â'r un plentyn neu'r un person ifanc, neu'n galw am benderfyniad ar yr un mater i raddau sylweddol, caiff y Llywydd orchymyn bod yr hawliadau yn cael eu gwrandio gyda'i gilydd.

(3) Caiff y Llywydd wneud gorchymyn sy'n amrywio neu'n dirymu gorchymyn cynharach a wnaed o dan baragraff (1) neu (2).

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), caiff y Llywydd ddyroddi gorchymyn o dan y rheoliad hwn ar gais ysgrifenedig y naill barti neu'r llall neu ar ysgogiad y Llywydd ei hunan.

(5) Ni chaniateir gwneud gorchymyn o dan y rheoliad hwn ond os yw'n ymddangos, ym marn y Llywydd, ei bod yn deg ac yn gyfiawn gwneud hynny, a chyn gwneud gorchymyn, rhaid rhoi cyfle i bob parti, ym mhob un o'r apelau neu'r hawliadau yr effeithir arnynt, i gael ei glywed.

Cydgrynhoi hawliadau gydag apelau

35.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), pan fo hawliad yn ymwneud â'r un plentyn neu'r un person ifanc a'i fod naill ai'n deillio o'r un amgylchiadau neu'n galw am benderfyniad ar yr un mater, i raddau sylweddol, ag apêl, caiff y Llywydd orchymyn bod yr hawliad yn cael ei wrando ar y cyd â'r apêl.

(2) Nid oes dim ym mharagraff (1) sy'n caniatáu i'r Llywydd wneud gorchymyn os yw person wedi methu â gwneud apêl o fewn y terfynau amser a bennir gan reoliad 10 neu gan unrhyw estyniad amser i wneud apêl o'r fath a roddir o dan y Rheoliadau hyn.

(3) Ni chaiff y Llywydd wneud gorchymyn o dan baragraff (1) ond pe na fyddai gwneud y gorchymyn yn achosi oedi gormodol i benderfynu'r apêl, a chan gydymffurfio yn ogystal â gofynion paragraff (6).

(4) Caiff y Llywydd wneud gorchymyn sy'n amrywio neu'n dirymu gorchymyn cynharach a wnaed o dan baragraff (1).

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), caiff y Llywydd ddyroddi gorchymyn o dan y rheoliad hwn ar gais ysgrifenedig y naill barti neu'r llall neu ar ysgogiad y Llywydd ei hunan.

Consolidating appeals or claims

34.—(1) If more than one appeal relates to the same child or young person, or requires a decision on substantially the same issue, the President may order that the appeals are heard together.

(2) If more than one claim relates to the same child or young person, or requires a decision on substantially the same issue, the President may order that the claims are heard together.

(3) The President may make an order varying or revoking an earlier order made under paragraph (1) or (2).

(4) Subject to paragraph (5), the President may issue an order under this regulation on the written request of either party or on the President's own initiative.

(5) An order made under this regulation must only be made if it appears, in the opinion of the President, to be fair and just to do so and before an order is made each party to every appeal or claim affected must be given an opportunity to be heard.

Consolidating claims together with appeals

35.—(1) Subject to paragraphs (2) and (3), where a claim relates to the same child or young person and either arises from the same circumstances or requires a decision on substantially the same issue as an appeal, the President may order that the claim is heard with the appeal.

(2) Nothing in paragraph (1) permits the President to make an order if a person has failed to make an appeal within the time limits specified by regulation 10 or by any extension of time to make such an appeal granted under these Regulations.

(3) The President may only make an order under paragraph (1) if, in addition to complying with the requirements of paragraph (6), the making of an order would not cause undue delay to the determination of the appeal.

(4) The President may make an order varying or revoking an earlier order made under paragraph (1).

(5) Subject to paragraph (6), the President may issue an order under this regulation on the written request of either party or on the President's own initiative.

(6) Ni chaniateir gwneud gorchymyn o dan y rheoliad hwn ond os yw'n ymddangos, ym marn y Llywydd, ei bod yn deg ac yn gyfiawn gwneud hynny, a chyn gwneud gorchymyn, rhaid rhoi cyfle i bob parti, ym mhob un o'r hawliadau neu'r apelau yr effeithir arnynt, i gael ei glywed.

Ychwanegu ac amnewid partiön

36.—(1) Caiff person wneud cais i gael ei gysylltu yn barti yn yr apêl neu'r hawliad.

(2) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys wneud gorchymyn i gysylltu person yn barti yn yr apêl neu'r hawliad—

- (a) os gwneir cais ysgrifenedig o dan baragraff (1), neu
- (b) ar ysgogiad y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ei hun, os nad oes cais ysgrifenedig wedi ei wneud ond bod y person yn cydsynio i gael ei gysylltu yn barti yn yr apêl neu'r hawliad.

(3) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys wneud gorchymyn i amnewid parti—

- (a) os yw'r person anghywir wedi ei enwi'n barti, neu
- (b) os yw'r amnewid wedi dod yn angenrheidiol oherwydd newid mewn amgylchiadau er pan ddechreuwyd yr apêl neu'r hawliad.

(4) Os gwneir gorchymyn o dan baragraff (2) neu (3), caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys wneud unrhyw gyfarwyddydau canlyniadol, neu ymholiadau o dan reoliad 24, y mae'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn ystyried eu bod yn briodol.

(5) Oni fydd y Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn cyfarwyddo fel arall, rhaid trin person a benodir neu a amnewidir o dan y rheoliad hwn fel parti at ddiben unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn sy'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno dogfen i barti yn yr apêl neu'r hawliad, anfon dogfen ato neu roi hysbysiad iddo.

Hysbysu am ddyddiad, lleoliad ac amser gwrandawliadau

37.—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau paragraff (2) a rheoliad 39, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, ar ôl ymgynghori â'r partiön, bennu dyddiad, lleoliad ac amser y gwrandawliad ac anfon hysbysiad sy'n pennu dyddiad, lleoliad ac amser y gwrandawliad at bob parti.

(2) Os yw Ysgrifennydd y Tribiwnlys wedi gofyn i barti ddarparu manylion o'r adegau y byddai ar gael i fod yn bresennol mewn gwrandawliad ac nad yw'r parti hwnnw wedi cydymffurfio â'r cais, caiff Ysgrifennydd y Tribiwnlys fwrw ymlaen i restru'r apêl neu'r hawliad ar gyfer gwrandawliad heb ymgynghori pellach.

(6) An order made under this regulation must only be made if it appears, in the opinion of the President, to be fair and just to do so, and before an order is made each party to every claim or appeal affected must be given an opportunity to be heard.

Addition and substitution of parties

36.—(1) A person may make an application to be joined as a party to the appeal or the claim.

(2) The President or the tribunal panel may make an order to join a person as a party to the appeal or the claim—

- (a) if a written application is made under paragraph (1), or
- (b) on the President's or the tribunal panel's own initiative if no written application has been made but a person consents to be joined as a party to the appeal or the claim.

(3) The President or the tribunal panel may make an order to substitute a party if—

- (a) the wrong person has been named as a party, or
- (b) the substitution has become necessary because of a change in circumstances since the start of the appeal or the claim.

(4) If an order is made under paragraph (2) or (3) the President or the tribunal panel may make such consequential directions, or enquiries under regulation 24 as the President or the tribunal panel considers appropriate.

(5) Unless the President or the tribunal panel directs otherwise, a person appointed or substituted under this regulation must be treated as a party for the purpose of any provision in these Regulations requiring a document to be served on, or sent to, or notice to be given to a party to the appeal or claim.

Notice of date, place and time of hearings

37.—(1) Subject to the provisions of paragraph (2) and regulation 39, the Secretary of the Tribunal must, after consultation with the parties, fix the date, place and time of the hearing and send to each party a notice specifying the date, place and time of the hearing.

(2) If the Secretary of the Tribunal has asked a party to provide details of their availability to attend a hearing and a party fails to comply with the request, the Secretary of the Tribunal may proceed to list the appeal or claim for hearing without further consultation.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid i'r hysbysiad o wrandawriad y cyfeirir ato ym mharagraff (1) gael ei anfon—

- (a) mewn perthynas â gwrandawriad o dan reoliad 23, 25, 26, 53 neu 54, heb fod yn hwyrach na 5 niwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennir ar gyfer gwrandawriad,
- (b) mewn unrhyw achos arall, heb fod yn hwyrach na 10 niwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennir ar gyfer y gwrandawriad, neu
- (c) mewn unrhyw achos, o fewn cyfnod o amser byrrach cyn y dyddiad a bennir ar gyfer y gwrandawriad yn is-baragraff (a) neu (b) y mae'r partïon yn cytuno arno.

(4) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gynnwys yn yr hysbysiad o wrandawriad, neu gyda'r hysbysiad o wrandawriad—

- (a) gwybodaeth a chanllawiau, ar ffurf a gymeradwyir gan y Llywydd, ynghylch presenoldeb y partïon a'r tystion yn y gwrandawriad, dod â dogfennau, a'r hawl i gynrychiolaeth neu gymorth fel y'i darperir gan reoliad 50, a
- (b) datganiad sy'n esbonio'r canlyniadau posibl os methir â bod yn bresennol, a'r hawl sydd gan y canlynol i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig—
 - (i) yr apelydd neu'r hawlydd os nad yw'r apelydd neu'r hawlydd yn bresennol nac yn cael ei gynrychioli;
 - (ii) yr awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol os na chaiff ei gynrychioli ac os yw wedi cyflwyno datganiad o'i achos, oni bai ei fod wedi datgan yn ysgrifenedig nad yw'n gwrthwynebu'r apêl neu'r hawliad, neu wedi tynnu'n ôl ei wrthwynebiad i'r apêl neu'r hawliad.

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys newid lleoliad ac amser unrhyw wrandawriad, a rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys roi i'r partïon heb fod yn llai na 5 niwrnod gwaith (neu gyfnod llai y mae'r partïon yn cytuno arno) o rybudd ynghylch lleoliad ac amser newydd y gwrandawriad.

(6) Os yw'r partïon yn bresennol pan fydd y Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn cyhoeddi lleoliad ac amser newydd y gwrandawriad, ni fydd yn ofynnol rhoi hysbysiad pellach.

(3) Subject to paragraph (4), the notice of hearing referred to in paragraph (1) must be sent—

- (a) in relation to a hearing under regulation 23, 25, 26, 53 or 54, no later than 5 working days before the date fixed for a hearing,
- (b) in any other case, no later than 10 working days before the date fixed for the hearing, or
- (c) in any case, within a shorter period of time before the date fixed for the hearing in subparagraph (a) or (b) as the parties may agree.

(4) The Secretary of the Tribunal must include in or with the notice of hearing—

- (a) information and guidance, in a form approved by the President, as to attendance at the hearing of the parties and witnesses, the bringing of documents, and the right of representation or assistance as provided by regulation 50, and
- (b) a statement explaining the possible consequences of non-attendance and the right to make representations in writing by—
 - (i) the appellant or the claimant if the appellant or the claimant does not attend and is not represented;
 - (ii) the local authority, FEI governing body or the responsible body if it is not represented and if it has submitted a statement of its case, unless it stated in writing that it did not resist the appeal or the claim, or withdrew its opposition to the appeal or the claim.

(5) Subject to paragraph (6), the President or the tribunal panel may alter the place and time of any hearing and the Secretary of the Tribunal must give the parties no less than 5 working days (or a shorter time as the parties agree) notice of the new place and time of the hearing.

(6) If the parties are present when the President or the tribunal panel announce the new place and time place of the hearing, no further notice is required.

(7) Nid oes dim ym mharagraff (1) neu (5) sy'n gosod rhwymedigaeth ar Ysgrifennydd y Tribiwnlys i ymgynghori ag unrhyw berson nad oes hawlogaeth ganddo i gael ei gynrychioli yn y gwrandawriad, neu anfon hysbysiad at unrhyw berson o'r fath.

Trosglwyddiadau

38.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), caiff y Llywydd atgyfeirio achos mewn perthynas ag apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf os oes awdurdodaeth gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf mewn perthynas â'r achos.

(2) Ni chaniateir gwneud atgyfeiriad o dan baragraff (1) oni fydd hysbysiad wedi ei roi i'r partïon.

(3) Os trosglwyddir achos mewn perthynas ag apêl i'r Tribiwnlys gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf, caiff y Tribiwnlys barhau â'r achos os oes awdurdodaeth gan y Tribiwnlys mewn perthynas â'r achos hwnnw.

Pŵer i benderfynu'r apêl neu'r hawliad heb wrandawriad

39.—(1) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys benderfynu'r apêl neu'r hawliad neu unrhyw fater penodol heb wrandawriad—

- (a) os yw'r partïon yn cytuno felly yn ysgrifenedig, neu
- (b) o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn rheoliad 23 (methiant i gyflwyno datganiad achos ac absenoldeb gwrthwynebiad) neu 33 (methiant i gydymffurfio â chyfarwyddydau).

(2) Cyn gwneud penderfyniad o dan baragraff (1), rhaid i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd eisoes gan y partïon (at ddiben y rheoliad hwn, trinnir y cais apelio neu'r cais hawlio a datganiadau achos y partïon fel pe baent yn sylwadau ysgrifenedig).

Gwrandawriadau cyhoeddus a phreifat: trefniadau ac eithriadau

40.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid cynnal pob un o wrandawriadau'r Tribiwnlys yn breifat.

(2) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys wneud gorchymyn bod gwrandawriad neu ran o wrandawriad i'w gynnal neu i'w chynnal yn gyhoeddus os yw'r partïon yn cytuno i gael gwrandawriad cyhoeddus ac os yw'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys wedi ei fodloni—

- (a) na fyddai gwrandawriad cyhoeddus yn rhagfarnu lles neu fuddiannau'r plentyn neu'r person ifanc, a
- (b) y byddai gwrandawriad cyhoeddus yn caniatáu gwrandawriad teg o'r apêl neu'r hawliad.

(7) Nothing in paragraph (1) or (5) oblige the Secretary of the Tribunal to consult or send a notice to any person who is not entitled to be represented at the hearing.

Transfers

38.—(1) Subject to paragraph (2), the President may refer proceedings in relation to an appeal to the First-tier Tribunal if the First-tier Tribunal has jurisdiction in relation to the proceedings.

(2) A reference under paragraph (1) must not be made unless notice has been given to the parties.

(3) If proceedings in relation to an appeal are transferred to the Tribunal by the First-tier Tribunal the Tribunal may continue with the proceedings if the Tribunal has jurisdiction in relation to the proceeding.

Power to determine the appeal or claim without a hearing

39.—(1) The President or the tribunal panel may determine the appeal or the claim or any particular issue without a hearing—

- (a) if the parties so agree in writing, or
- (b) in the circumstances described in regulation 23 (failure to submit a case statement and absence of opposition) or 33 (failure to comply with directions).

(2) Before making a determination under paragraph (1), the President or tribunal panel must consider any representations in writing already submitted by the parties (for the purpose of this regulation, the appeal application or the claim application and the parties' case statements are treated as representations in writing).

Public and private hearings: arrangements and exceptions

40.—(1) Subject to paragraph (2), all hearings of the Tribunal must be in private.

(2) The President or the tribunal panel may make an order that a hearing or part of a hearing is to be held in public if the parties agree to a public hearing and the President or the tribunal panel is satisfied that a public hearing would—

- (a) not prejudice the welfare or interests of the child or young person, and
- (b) allow for the fair hearing of the appeal or claim.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), mae hawlogaeth gan y personau a ganlyn i fod yn bresennol mewn gwrandawriad er ei fod yn cael ei gynnal yn breifat—

- (a) y partïon,
- (b) cynrychiolwyr y partïon,
- (c) tystion y partïon, a
- (d) unrhyw berson sydd wedi ei benodi i weithredu fel cyfaill achos yn unol â rheoliad 61.

(4) Mae hawlogaeth gan y personau a ganlyn hefyd i fod yn bresennol mewn gwrandawriad er ei fod yn cael ei gynnal yn breifat—

- (a) y plentyn, pan na fo'r plentyn yn barti yn yr apêl neu'r hawliad;
- (b) rhiant i'r plentyn, pan na fo'r rhiant yn barti yn yr apêl neu'r hawliad;
- (c) y clerc i'r panel tribiwnlys ac Ysgrifennydd y Tribiwnlys;
- (d) y Llywydd, Cadeirydd neu aelod o'r panel lleyg (pan nad yw'n eistedd fel aelod o'r panel tribiwnlys);
- (e) person sy'n cael ei hyfforddi fel Cadeirydd, aelod o'r panel lleyg neu fel clerc i'r panel tribiwnlys;
- (f) person sy'n gweithredu ar ran y Llywydd i hyfforddi neu oruchwylio clercod i banelau tribiwnlys;
- (g) cyfieithydd ar y pryd;
- (h) unrhyw berson sy'n rhoi cymorth angenrheidiol arall i berson sy'n eistedd fel aelod o'r panel tribiwnlys neu sydd â hawlogaeth i fod yn bresennol yn y gwrandawriad o ganlyniad i'r rheoliad hwn;
- (i) unrhyw berson a enwir gan yr apelydd neu'r hawlydd wrth ymateb i'r ymholiad o dan reoliad 24(a)(vi) neu (vii) oni fydd y Llywydd neu'r panel tribiwnlys wedi penderfynu na chaiff unrhyw berson o'r fath fod yn bresennol yn y gwrandawriad ac wedi hysbysu'r apelydd neu'r hawlydd yn unol â hynny.

(5) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, gyda chydysniad y partïon neu eu cynrychiolwyr sy'n bresennol mewn gwirionedd, ganiatáu i unrhyw berson arall fod yn bresennol mewn gwrandawriad a gynhelir yn breifat.

(3) Subject to paragraph (6), the following persons are entitled to attend a hearing even though it is held in private—

- (a) the parties,
- (b) the parties representatives,
- (c) the parties witnesses, and
- (d) any person who has been appointed to act as a case friend in accordance with regulation 61.

(4) The following persons are also entitled to attend a hearing even though it is held in private—

- (a) the child, where the child is not a party to the appeal or claim;
- (b) a parent of the child, where the parent is not a party to the appeal or the claim;
- (c) the clerk to the tribunal panel and the Secretary of the Tribunal;
- (d) the President, a Chair, or a lay panel member (when not sitting as a member of the tribunal panel);
- (e) a person undergoing training as a Chair, a lay panel member or as a clerk to the tribunal panel;
- (f) a person acting on behalf of the President in the training or supervision of clerks to tribunal panels;
- (g) an interpreter;
- (h) any person giving other necessary assistance to a person sitting as a member of the tribunal panel or entitled to attend the hearing further to this regulation;
- (i) any person named by the appellant or the claimant in response to the enquiry under regulation 24(a)(vi) or (vii) unless the President or the tribunal panel has determined that any such person must not attend the hearing and has notified the appellant or the claimant accordingly.

(5) The President or the tribunal panel, with the consent of the parties or their representatives actually present, may permit any other person to attend a hearing which is held in private.

(6) Heb ragfarnu unrhyw bwerau eraill a all fod ganddo, caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys allgáu o wrandawriad, neu o ran ohono—

- (a) person y mae ei ymddygiad, ym marn y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, wedi amharu, neu'n debygol o amharu, ar y gwrandawriad;
- (b) person y mae ei bresenoldeb, ym marn y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, wedi ei gwneud, neu'n debygol o'i gwneud, yn anodd i unrhyw berson roi tystiolaeth, neu gyflwyno'r sylwadau sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal y gwrandawriad yn briodol;
- (c) cynrychiolydd neu dyst nad oedd parti wedi ei enwi, heb esgus rhesymol, mewn ymateb i'r ymholiad gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys o dan reoliad 24.

(7) Ac eithrio fel y'i darperir yn rheoliad 43(3) a (4), ni chaiff unrhyw un o'r personau a grybwyllir ym mharagraff (4) neu (5), ac eithrio yn achos y personau a bennir yn is-baragraffau (c), (g) ac (h) o baragraff (4) fel sy'n ofynnol gan eu priod ddyletswyddau, gymryd unrhyw ran yn y gwrandawriad nac ychwaith (pan fo ganddynt hawlogaeth neu ganiatâd i aros) yn ystyriaethau'r panel tribiwnlys.

Gorchymynion sy'n cyfyngu ar adrodd

41.—(1) Os yw'n ymddangos yn briodol gwneud hynny, caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys wneud gorchymyn sy'n cyfyngu ar gyhoeddi, neu'n gwahardd cyhoeddi, unrhyw fater sy'n debygol o arwain aelodau o'r cyhoedd at adnabod yr apelydd, yr hawlydd, y plentyn neu berson arall, pan ystyrir na ddylai fod modd ei adnabod.

(2) Yn y rheoliad hwn, mae “cyhoeddi”, heb ragfarnu cyffredinolrwydd yr ymadrodd hwnnw, yn cynnwys—

- (a) cyhoeddi unrhyw fater mewn gwasanaeth rhaglenni, fel y diffinnir “programme service” gan adran 201(1) o Ddeddf Darlledu 1990(1), a
- (b) peri i unrhyw fater gael ei gyhoeddi.

(3) Caniateir gwneud gorchymyn o dan y rheoliad hwn mewn cysylltiad â chyfnod cyfyngedig, a chaiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys amrywio neu ddirymu'r gorchymyn hwnnw.

(6) Without prejudice to any other powers it may have, the President or the tribunal panel may exclude from a hearing, or part of it—

- (a) a person whose conduct in the opinion of the President or the tribunal panel has disrupted, or is likely to disrupt, the hearing;
- (b) a person whose presence in the opinion of the President or the tribunal panel has made, or is likely to make, it difficult for any person to give evidence or make the representations necessary for the proper conduct of the hearing;
- (c) a representative or witness whom a party omitted to name, without reasonable cause, in response to the enquiry by the Secretary of the Tribunal under regulation 24.

(7) Except as provided in regulation 43(3) and (4) none of the persons mentioned in paragraph (4) or (5) may, except in the case of the persons specified in subparagraphs (c), (g), and (h) of paragraph (4) as their respective duties require, take any part in the hearing or (where entitled or permitted to remain) in the deliberations of the tribunal panel.

Restricted reporting orders

41.—(1) If it appears appropriate to do so the President or the tribunal panel may make an order limiting or prohibiting the publishing of any matter that is likely to lead members of the public to identify the appellant, claimant, child or other person, where it is considered that they should not be identified.

(2) In this regulation “publishing” includes, without prejudice to the generality of that expression—

- (a) publishing any matter in a programme service, as defined by section 201(1) of the Broadcasting Act 1990(1), and
- (b) causing any matter to be published.

(3) An order under this regulation may be made in respect of a limited period and may be varied or revoked by the President or the tribunal panel.

(1) 1990 p. 42; diwygiwyd adran 201(1) gan Ran 3, Pennod 6, adran 360 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21) a pharagraff 1 o Atodlen 19 iddi.

(1) 1990 c. 42; section 201(1) was amended by Part 3, Chapter 6, section 360 of, and paragraph 1 of Schedule 19 to, the Communications Act 2003 (c. 21).

Y weithdrefn mewn gwrandawriad

42.—(1) Ar ddechrau'r gwrandawriad, rhaid i'r Cadeirydd esbonio'r drefn y mae'r panel tribiwnlys yn bwriadu ei mabwysiadu ar gyfer yr achos.

(2) Rhaid i'r panel tribiwnlys gynnal y gwrandawriad mewn modd y mae'n ystyried ei fod yn briodol er mwyn egluro'r materion a thrin yr achos yn unol â'r prif amcan fel sy'n ofynnol gan reoliad 4.

(3) Rhaid i'r panel tribiwnlys benderfynu ym mha drefn y clywir y partïon ac y penderfynir ar y materion.

(4) Caiff y panel tribiwnlys, os yw wedi ei fodloni ei bod yn deg ac yn gyfiawn gwneud hynny, ganiatáu—

- (a) i'r apelydd neu'r hawlydd ddibynnu ar seiliau nas datganwyd yn y cais apelio neu'r cais hawlio neu'r datganiad achos, a rhoi tystiolaeth nas cyflwynwyd i'r awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol, cyn iddo wneud y penderfyniad a herir neu ar yr un pryd ag y gwnaed y penderfyniad hwnnw;
- (b) i'r awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol ddibynnu ar seiliau nas pennwyd yn ei ddatganiad achos.

(5) Os yw aelod o'r panel tribiwnlys a chanddo dri aelod ac eithrio'r Cadeirydd yn absennol, ar ddechrau'r gwrandawriad neu ar ôl hynny—

- (a) caiff y ddau aelod arall, gyda chydysyniad y partïon, gynnal y gwrandawriad, ac os digwydd hynny mae'r panel tribiwnlys i'w ystyried fel pe bai wedi ei gyfansoddi'n briodol, a chaiff y ddau aelod hynny wneud penderfyniad y panel tribiwnlys, a
- (b) ni chaiff yr aelod sy'n absennol ailymuno â'r gwrandawriad.

Tystiolaeth mewn gwrandawriad

43.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 40(6), mae hawlogaeth gan y partïon yn ystod y gwrandawriad i roi tystiolaeth, galw tystion, holi unrhyw dyst ac annerch y panel tribiwnlys ar y dystiolaeth, gan gynnwys y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd cyn y gwrandawriad, yn ogystal ag yn gyffredinol ar destun yr apêl neu'r hawliad.

(2) Nid oes hawlogaeth gan barti i alw mwy na dau dyst i roi tystiolaeth ar lafar oni fydd y Llywydd neu'r panel tribiwnlys wedi rhoi caniatâd ar gais gan barti (yn ogystal ag unrhyw dyst y mae ei bresenoldeb yn ofynnol yn unol â pharagraff (6)).

Procedure at hearing

42.—(1) At the beginning of the hearing the Chair must explain the order of proceedings which the tribunal panel proposes to adopt.

(2) The tribunal panel must conduct the hearing in a manner it considers appropriate to clarify the issues and handle the proceedings in accordance with the overriding objective as required by regulation 4.

(3) The tribunal panel must determine the order in which the parties are heard and the issues determined.

(4) The tribunal panel may, if it is satisfied that it is fair and just to do so, permit—

- (a) the appellant or the claimant to rely on grounds not stated in the appeal application or the claim application or the case statement and to produce evidence not presented to the local authority, FEI governing body or the responsible body before or at the time it took the disputed decision;
- (b) the local authority, FEI governing body or the responsible body to rely on grounds not specified in its case statement.

(5) If, at or after the beginning of a hearing, a member of the tribunal panel constituting three members other than the Chair is absent—

- (a) the hearing may, with the consent of the parties, be conducted by the other two members and in that event the tribunal panel is to be regarded as properly constituted and the decision of the tribunal panel may be taken by those two members, and
- (b) the absent member must not re-join the hearing.

Evidence at hearing

43.—(1) Subject to regulation 40(6), in the course of the hearing the parties are entitled to give evidence, to call witnesses, to question any witness and to address the tribunal panel both on the evidence, including the written evidence submitted before the hearing, and generally on the subject matter of the appeal or the claim.

(2) A party is not entitled to call more than two witnesses to give evidence orally unless the President or the tribunal panel has given permission on application by a party (in addition to any witness whose attendance is required in accordance with paragraph (6)).

(3) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ganiatáu i'r personau a ganlyn roi tystiolaeth ac annerch y panel tribiwnlys ar destun yr apêl neu'r hawliad—

- (a) y plentyn, pan na fo'r plentyn yn barti yn yr apêl neu'r hawliad;
- (b) rhiant y plentyn, pan na fo'r rhiant yn barti yn yr apêl neu'r hawliad;
- (c) person sydd wedi cyflwyno datganiad o addasrwydd i'r Tribiwnlys yn unol â rheoliad 61 er mwyn gweithredu fel cyfaill achos.

(4) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ganiatáu—

- (a) i'r person, os oes un, a enwir mewn ymateb i ymholiad o dan reoliad 24(a)(vii) roi tystiolaeth ac annerch y panel tribiwnlys ar safbwyntiau a dymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc, a
- (b) i'r awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol holi'r person a bennir yn is-baragraff (a) mewn perthynas ag unrhyw dystiolaeth neu anerchiad a wneir i'r panel tribiwnlys.

(5) Caniateir rhoi tystiolaeth gerbron y panel tribiwnlys—

- (a) ar lafar, neu
- (b) drwy ddatganiad ysgrifenedig os cyflwynir y dystiolaeth honno gyda'r cais apelio neu'r cais hawlio neu'r datganiad achos neu yn unol â rheoliad 47.

(6) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, yn ystod unrhyw gam o'r apêl neu'r hawliad, wneud presenoldeb unrhyw un sy'n gwneud unrhyw ddatganiad ysgrifenedig yn ofynnol.

(7) Caniateir i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys gael tystiolaeth o unrhyw ffaith sy'n ymddangos yn berthnasol i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys.

(8) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ei gwneud yn ofynnol i unrhyw barti neu dyst roi tystiolaeth ar lw neu drwy gadarnhad, ac at y diben hwnnw caniateir gweinyddu llw neu gadarnhad ar y ffurf gywir, neu ei gwneud yn ofynnol i unrhyw dystiolaeth a roddir drwy ddatganiad ysgrifenedig gael ei rhoi drwy ddatganiad o wirionedd.

Newid tyst

44.—(1) Caiff parti newid y person a enwir yn dyst gan y parti hwnnw, mewn ymateb i ymholiad a wneir o dan reoliad 24, os yw Ysgrifennydd y Tribiwnlys yn cael hysbysiad ysgrifenedig ac os cyflwynir copi o'r hysbysiad i'r parti arall heb fod yn hwyrach na 5 niwrnod gwaith cyn y gwrandawriad.

(3) The President or the tribunal panel may permit the following persons to give evidence and address the tribunal panel on the subject matter of the appeal or the claim—

- (a) the child, where the child is not a party to the appeal or the claim;
- (b) the parent of the child, where the parent is not a party to the appeal or the claim;
- (c) a person who has submitted a declaration of suitability to the Tribunal in accordance with regulation 61 to act as a case friend.

(4) The President or the tribunal panel may permit—

- (a) the person, if any, named in response to an enquiry under regulation 24(a)(vii) to give evidence and address the tribunal panel on the child's or young person's views and wishes, and
- (b) the local authority or the responsible body to question the person specified in sub-paragraph (a) in relation to any evidence or address made to the tribunal panel.

(5) Evidence before the tribunal panel may be given—

- (a) orally, or
- (b) by written statement if such evidence is submitted with the appeal application or claim application or the case statement or in accordance with regulation 47.

(6) The President or the tribunal panel may, at any stage of the appeal or the claim, require the personal attendance of any maker of any written statement.

(7) The President or the tribunal panel may receive evidence of any fact which appears to the President or the tribunal panel to be relevant.

(8) The President or the tribunal panel may require any party or witness to give evidence on oath or affirmation, and for that purpose there may be administered an oath or affirmation in the correct form, or may require any evidence given by a written statement to be given by statement of truth.

Change of witness

44.—(1) The person named as a party's witness in response to an enquiry made under regulation 24 may be changed by that party if written notification is received by the Secretary of the Tribunal and a copy of the notification served on the other party no later than 5 working days before the hearing.

(2) Rhaid i unrhyw gais i newid tyst, a wneir llai na 5 niwrnod gwaith cyn y gwrandawriad, gael ei benderfynu gan y Llywydd neu'r panel tribiwnlys.

Gwysio tyst

45.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (5), caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, ar gais gan barti neu ar ysgogiad y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ei hun, ei gwneud yn ofynnol drwy wŷs i unrhyw berson—

- (a) bod yn bresennol fel tyst mewn gwrandawriad, ar yr adeg honno ac yn y lle hwnnw a bennir yn y wŷs, ac mewn unrhyw ohiriad o'r gwrandawriad hwnnw cyn ei gychwyn neu ar ôl ei gychwyn, a
- (b) yn y gwrandawriad, iddo ateb unrhyw gwestiynau neu ddangos unrhyw ddogfennau neu ddeunydd arall sydd yng ngwarchodaeth, neu sydd o dan reolaeth, y person hwnnw ac sy'n ymwneud ag unrhyw fater o dan sylw yn yr apêl neu'r hawliad.

(2) Ni chaniateir gorfodi unrhyw berson i roi unrhyw dystiolaeth neu ddangos unrhyw ddogfen neu ddeunydd arall na ellid gorfodi'r person i'w rhoi neu i'w dangos mewn treial o achos mewn llys barn.

(3) Wrth arfer y pŵer a roddir gan y rheoliad hwn, rhaid i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys ystyried yr angen i ddiogelu unrhyw fater sy'n ymwneud ag amgylchiadau o natur bersonol agos neu amgylchiadau ariannol, neu sy'n cynnwys gwybodaeth a gyflëwyd neu a gafwyd yn gyfrinachol.

(4) Ni chaniateir ei gwneud yn ofynnol drwy wŷs i berson fod yn bresennol oni roddwyd o leiaf 5 niwrnod gwaith o rybudd o'r gwrandawriad i'r person hwnnw, neu, os rhoddwyd llai na 5 niwrnod gwaith, oni fydd y person wedi rhoi gwybod i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys fod y person yn derbyn y rhybudd a roddwyd.

(5) Ni chaniateir ei gwneud yn ofynnol drwy wŷs i berson fod yn bresennol a rhoi dystiolaeth neu ddangos unrhyw ddogfen, oni fydd swm o arian wedi ei dalu neu wedi ei gynnig, sy'n rhesymol ddigonol i dalu treuliau angenrheidiol presenoldeb y person hwnnw.

(6) Rhaid i barti sy'n ceisio gwŷs tyst wneud cais ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, o leiaf 8 niwrnod gwaith cyn y gwrandawriad, neu'n ddiweddarach os yw'r person y mae'r wŷs i'w chyfeirio ato yn cydsynio'n ysgrifenedig.

(7) Rhaid i wŷs tyst gynnwys—

- (a) mewn perthynas ag apêl, datganiad bod unrhyw berson sydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad i fod yn bresennol i roi dystiolaeth ac, os yw'r

(2) Any application to change a witness made less than 5 working days before the hearing must be determined by the President or the tribunal panel.

Summoning a witness

45.—(1) Subject to paragraphs (2) to (5), the President or the tribunal panel may, on the application of a party or on the President's or the tribunal panel's own initiative, require by summons any person to—

- (a) attend as a witness at a hearing at such time and place as may be specified in the summons, and at any postponement or adjournment of that hearing, and
- (b) at the hearing, to answer any questions or produce any documents or other material in the person's custody or under the person's control which relate to any matter in question in the appeal or claim.

(2) No person must be compelled to give any evidence or produce any document or other material that the person could not be compelled to give or produce at a trial of an action in a court of law.

(3) In exercising the power conferred by this regulation, the President or the tribunal panel must take into account the need to protect any matter that relates to intimate personal circumstances or financial circumstances or consists of information communicated or obtained in confidence.

(4) No person may be required to attend in compliance with a summons unless the person has been given at least 5 working days' notice of the hearing or, if less than 5 working days, the person has informed the President or the tribunal panel that the person accepts the notice given.

(5) No person may be required in compliance with a summons to attend and give evidence or to produce any document unless a sum reasonably sufficient to cover the necessary expenses of the person's attendance is paid or tendered.

(6) A party seeking a witness summons must apply in writing to the Secretary of the Tribunal at least 8 working days before the hearing, or later if the person to whom the summons is to be addressed consents in writing.

(7) A witness summons must contain—

- (a) in relation to an appeal, a statement that under section 79 of the 2018 Act, any person who without reasonable excuse fails to comply with any requirement to attend to give

wŷs yn gwneud hynny'n ofynnol, i ddangos dogfennau, yn agored o dan adran 79 o Ddeddf 2018, ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol,

- (b) mewn perthynas â hawliad, datganiad bod unrhyw berson sydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad i fod yn bresennol i roi tystiolaeth ac, os yw'r wŷs yn gwneud hynny'n ofynnol, i ddangos dogfennau, yn agored o dan baragraff 6(8) o Atodlen 17 i Ddeddf 2010, ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol, ac

- (c) datganiad o effaith paragraff (8).

(8) Caiff person y cyfeirir gwŷs tyst ato wneud cais i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys, drwy roi hysbysiad i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, i amrywio'r wŷs neu ei gosod o'r neilltu.

(9) Ni chaiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys amrywio'r wŷs tyst na'i gosod o'r neilltu heb yn gyntaf hysbysu'r parti a wnaeth gais am ddyroddi'r wŷs tyst ac ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir gan y parti hwnnw.

Tystiolaeth dros y ffôn, drwy gyswllt fideo neu drwy ddulliau eraill

46. Caiff y Llywydd, ar gais parti neu ar ysgogiad y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ei hun, ganiatáu i barti neu i dyst roi tystiolaeth dros y ffôn, drwy gyswllt fideo neu drwy unrhyw ddull arall o gyfathrebu, os yw wedi ei fodloni na fyddai hynny'n rhagfarnu cyflawni prif amcan y Rheoliadau hyn.

Tystiolaeth ysgrifenedig sy'n hwyr

47.—(1) Ar ddechrau'r gwrandauiad, caiff parti gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig bellach ar gyfer ei derbyn—

- (a) os yw'r partiön yn cytuno i dderbyn y dystiolaeth bellach, neu
- (b) os yw'r dystiolaeth yn bodloni'r amodau a nodir ym mharagraff (2).

(2) Yr amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(b) yw—

- (a) nad oedd y dystiolaeth ar gael ac nad oedd modd, yn rhesymol, iddi fod ar gael i'r parti hwnnw cyn diwedd cyfnod y datganiad achos, a
- (b) y cyflwynwyd copi o'r dystiolaeth i Ysgrifennydd y Tribiwnlys a chyflwynwyd copi o'r dystiolaeth i'r parti arall o leiaf 5 niwrnod gwaith cyn y gwrandauiad.

evidence and, if the summons so requires, to produce documents is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale,

- (b) in relation to a claim, a statement that, under paragraph 6(8) of Schedule 17 to the 2010 Act, any person who without reasonable excuse fails to comply with any requirement to attend to give evidence and, if the summons so requires, to produce documents is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale, and

- (c) a statement of the effect of paragraph (8).

(8) A person to whom a witness summons is addressed may apply to the President or the tribunal panel, by notice to the Secretary of the Tribunal, to vary it or set it aside.

(9) The President or the tribunal panel must not vary or set aside the witness summons without first notifying the party who applied for the issue of the witness summons and considering any representations made by that party.

Evidence by telephone, video link or other means

46. The President may, on the application of a party or on the President's or the tribunal panel's own initiative, permit a party or a witness to give evidence by telephone, through a video link or by any other means of communication, if satisfied that this would not prejudice the achievement of the overriding objective of these Regulations.

Late written evidence

47.—(1) At the beginning of the hearing, a party may submit further written evidence for admission if—

- (a) the parties agree to the admission of the further evidence, or
- (b) the evidence satisfies the conditions set out in paragraph (2).

(2) The conditions referred to in paragraph (1)(b) are that—

- (a) the evidence was not, and could not reasonably have been, available to that party before the end of the case statement period, and
- (b) a copy of the evidence was submitted to the Secretary of the Tribunal and served on the other party at least 5 working days before the hearing.

(3) Ni chaniateir derbyn tystiolaeth ysgrifenedig bellach a gyflwynir yn unol â pharagraff (1)(b), yn ddarostyngedig i baragraff (4), ond os yw'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys o'r farn, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau gan y parti arall, nad yw graddau a ffurf y dystiolaeth honno yn debygol o rwystro cynnal y gwrandawriad yn effeithlon.

(4) Ni chaniateir derbyn tystiolaeth ysgrifenedig bellach pe byddai ei derbyn, ym marn y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, yn groes i fuddiannau cyfiawnder.

(5) Os na fodlonir yr amodau ym mharagraff (2), caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys roi caniatâd i barti gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig bellach yn y gwrandawriad os yw'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys o'r farn yr achosid risg ddifrifol o ragfarn yn erbyn y parti sy'n ceisio dibynnu ar y dystiolaeth honno pe na dderbynnid hi.

Gohirio gwrandawriad cyn ei gychwyn

48.—(1) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, naill ai ar ysgogiad y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ei hun neu ar gais parti, o dan amgylchiadau eithriadol, wneud gorchymyn i ohirio gwrandawriad cyn ei gychwyn.

(2) Rhaid i gais gan barti o dan baragraff (1)—

- (a) cael ei wneud yn ysgrifenedig, gan ddatgan y rhesymau yn llawn, a
- (b) dod i law Ysgrifennydd y Tribiwnlys, a chael ei gyflwyno gan y ceisydd i'r parti arall, o leiaf 5 niwrnod gwaith cyn y gwrandawriad.

(3) Os gwneir gorchymyn o dan baragraff (1), rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys roi i'r partïon rybudd nad yw'n llai na 5 niwrnod gwaith (neu unrhyw gyfnod byrrach y mae'r partïon yn cytuno arno) o ddyddiad newydd y gwrandawriad.

(4) Nid oes dim ym mharagraff (3) sy'n gosod rhwymedigaeth ar Ysgrifennydd y Tribiwnlys i ymgynghori ag unrhyw berson nad oes hawlogaeth ganddo i gael ei gynrychioli yn y gwrandawriad neu anfon hysbysiad at unrhyw berson o'r fath.

Gohiriadau ar ôl cychwyn a chyfarwyddydau

49.—(1) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ohirio gwrandawriad ar ôl ei gychwyn.

(2) Pan ohirir gwrandawriad ar ôl ei gychwyn—

- (a) caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys roi cyfarwyddydau y mae rhaid cydymffurfio â hwy cyn ailgychwyn y gwrandawriad, neu yn y gwrandawriad ar ôl ailgychwyn, a
- (b) caiff y Cadeirydd gyhoeddi casgliadau dros dro a wnaed gan y panel tribiwnlys. Nid yw'r casgliadau dros dro yn benderfyniad gan y panel tribiwnlys.

(3) Further written evidence submitted in accordance with paragraph (1)(b) may only, subject to paragraph (4), be admitted if, after considering any representations from the other party, the President or the tribunal panel is of the opinion that the extent and form of the evidence is such that it is unlikely to impede the efficient conduct of the hearing.

(4) Further written evidence must not be admitted if, in the opinion of the President or the tribunal panel, its admission would be contrary to the interests of justice.

(5) If the conditions in paragraph (2) are not met, the President or the tribunal panel may give a party permission to submit further written evidence at the hearing if the President or the tribunal panel is of the opinion that unless the evidence is admitted, there is a serious risk of prejudice to the party seeking to rely on it.

Postponement of hearing

48.—(1) The President or the tribunal panel may, on the President's or the tribunal panel's own initiative or on the application of a party, in exceptional circumstances, make an order to postpone a hearing.

(2) An application by a party under paragraph (1) must be—

- (a) made in writing stating reasons in full, and
- (b) received by the Secretary of the Tribunal, and served by the applicant on the other party, at least 5 working days before the hearing.

(3) If an order is made under paragraph (1), the Secretary of the Tribunal must give the parties no less than 5 working days (or such shorter time as the parties agree) notice of the new hearing date.

(4) Nothing in paragraph (3) obliges the Secretary of the Tribunal to consult or send a notice to any person who is not entitled to be represented at the hearing.

Adjournments and directions

49.—(1) The President or the tribunal panel may adjourn a hearing.

(2) When a hearing is adjourned—

- (a) the President or the tribunal panel may give directions to be complied with before, or at, the resumed hearing, and
- (b) the Chair may announce provisional conclusions reached by the tribunal panel. The provisional conclusions are not a decision of the tribunal panel.

(3) Caiff cyfarwyddyd o dan baragraff (2)(a) ei gwneud yn ofynnol i barti ddarparu unrhyw fanylion, unrhyw dystiolaeth neu unrhyw ddatganiadau sy'n rhesymol ofynnol ar gyfer penderfynu'r apêl neu'r hawliad.

(4) Os yw parti yn methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd a wneir o dan baragraff (2)(a), caiff y panel tribiwnlys ystyried y ffaith honno wrth benderfynu'r apêl neu'r hawliad neu wrth benderfynu pa un ai i wneud gorchymyn ar gyfer costau.

(5) Os cyhoeddir lleoliad ac amser y gwrandawriad a ohirwyd ar ôl ei gychwyn yn y gwrandawriad cyn ei ohirio felly, ni fydd unrhyw hysbysiad pellach yn ofynnol.

Cynrychiolaeth mewn gwrandawriad

50.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mewn unrhyw wrandawriad neu ran o wrandawriad—

- (a) caiff yr apelydd neu'r hawlydd gynnal yr apêl neu'r hawliad (gyda chymorth gan un person os yw'r apelydd neu'r hawlydd yn dymuno hynny), neu caniateir iddo ymddangos a chael ei gynrychioli gan un person, pa un a oes cymhwyster cyfreithiol gan y person hwnnw ai peidio;
- (b) caiff yr awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol ymddangos a chael ei gynrychioli gan un person, pa un a oes cymhwyster cyfreithiol gan y person hwnnw ai peidio.

(2) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys roi caniatâd—

- (a) i'r apelydd neu'r hawlydd gael cymorth neu gael ei gynrychioli gan fwy nag un person;
- (b) i'r awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol gael ei gynrychioli gan fwy nag un person.

(3) Os nad yw parti yn bwriadu bod yn bresennol neu gael ei gynrychioli yn y gwrandawriad, caiff y parti hwnnw, heb fod yn hwyrach na 5 niwrnod gwaith cyn y gwrandawriad, anfon at Ysgrifennydd y Tribiwnlys sylwadau ysgrifenedig ychwanegol i gefnogi achos y parti hwnnw.

(3) A direction under paragraph (2)(a) may require a party to provide such particulars, evidence or statements as may reasonably be required for the determination of the appeal or the claim.

(4) If a party fails to comply with a direction made under paragraph (2)(a), the tribunal panel may take account of that fact when determining the appeal or the claim or deciding whether to make an order for costs.

(5) If the place and time of an adjourned hearing is announced at the hearing before the adjournment, no further notice is required.

Representation at hearing

50.—(1) Subject to paragraph (2), at any hearing or part of a hearing—

- (a) the appellant or claimant may conduct the appeal or claim (with assistance from one person if the appellant or the claimant wishes), or may appear and be represented by one person whether or not legally qualified;
- (b) the local authority, FEI governing body or the responsible body may appear and be represented by one person whether or not legally qualified.

(2) The President or the tribunal panel may grant permission—

- (a) for the appellant or claimant to obtain assistance or be represented by more than one person;
- (b) for the local authority, FEI governing body or the responsible body to be represented by more than one person.

(3) If a party does not intend to attend or be represented at the hearing the party may, no later than 5 working days before the hearing, send to the Secretary of the Tribunal additional written representations in support of that party's case.

Methiant i fod yn bresennol mewn gwrandawriad

51.—(1) Os yw parti yn methu â bod yn bresennol neu'n methu â chael ei gynrychioli mewn gwrandawriad yr hysbyswyd y parti hwnnw amdano, caiff y panel tribiwnlys—

- (a) oni bai ei fod wedi ei fodloni bod rheswm digonol dros absenoldeb o'r fath, wrando a phenderfynu'r apêl neu'r hawliad yn absenoldeb y parti, neu
- (b) gohirio'r gwrandawriad cyn ei gychwyn neu ar ôl ei gychwyn, fel y bo'n briodol.

(2) Cyn penderfynu apêl neu hawliad yn absenoldeb parti, rhaid i'r panel tribiwnlys ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y parti hwnnw mewn ymateb i'r hysbysiad o wrandawriad ac, at ddiben y rheoliad hwn, trinnir y cais apelio neu'r cais hawlio a datganiadau achos y partion fel pe baent yn sylwadau ysgrifenedig.

Penderfyniad y panel tribiwnlys

52.—(1) At ddibenion gwneud ei benderfyniad rhaid i'r panel tribiwnlys, ac at ddibenion trafod mater gweithdrefnol, caiff y panel tribiwnlys, er gwaethaf unrhyw beth a gynhwysir yn y Rheoliadau hyn, orchymyn i bob person adael eisteddiad y panel tribiwnlys ac eithrio aelodau'r panel tribiwnlys ac unrhyw un neu ragor o'r personau a grybwyllir yn rheoliad 40(4)(c) i (f), neu, fel sy'n ofynnol gan eu priod ddyletswyddau, reoliad 40(4)(g) ac (h).

(2) Caiff panel tribiwnlys a chanddo dri aelod wneud penderfyniad drwy fwyafrif, a phan fo gan y panel tribiwnlys ddau aelod, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

(3) Caniateir rhoi penderfyniad y panel tribiwnlys ar lafar ar ddiwedd y gwrandawriad neu ohirio'r penderfyniad ac, ym mhob achos, pa un a gynhaliwyd gwrandawriad ai peidio, rhaid cofnodi'r penderfyniad ar unwaith mewn dogfen y mae rhaid cynnwys ynddi hefyd, neu fel atodiad iddi, ac eithrio mewn achos a benderfynir drwy gydsyniad, ddatganiad o'r rhesymau (ar ffurf gryno) dros benderfyniad y panel tribiwnlys, a rhaid i'r ddogfen honno gael ei llofnodi a'i dyddio gan y Cadeirydd.

(4) Ni chaiff penderfyniad a roddir ar lafar na'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (3) gynnwys unrhyw gyfeiriad at wneud y penderfyniad drwy fwyafrif (os dyna a ddigwyddodd) nac at unrhyw farn lleiafrif.

(5) Rhaid cofnodi pob penderfyniad y panel tribiwnlys yn y Gofrestr.

Failure to attend hearing

51.—(1) If a party fails to attend or be represented at a hearing of which that party had been notified, the tribunal panel may—

- (a) unless satisfied that there is sufficient reason for such absence, hear and determine the appeal or claim in the party's absence, or
- (b) postpone or adjourn the hearing, as appropriate.

(2) Before disposing of an appeal or claim in the absence of a party, the tribunal panel must consider any representations in writing submitted by that party in response to the notice of hearing and, for the purpose of this regulation the appeal application or claim application and the parties' case statements are to be treated as representations in writing.

Tribunal panel's decision

52.—(1) For the purposes of arriving at its decision the tribunal panel must, and for the purposes of discussing a question of procedure may, notwithstanding anything contained in these Regulations, order all persons to withdraw from the sitting of the tribunal panel other than the members of the tribunal panel and any of the persons mentioned in regulation 40(4)(c) to (f), or, as their respective duties require, regulation 40(4)(g) and (h).

(2) A decision of a three member tribunal panel may be taken by a majority and where the tribunal panel is constituted by two members the Chair has a second or casting vote.

(3) The decision of the tribunal panel may be given orally at the end of the hearing or reserved and, in any event, whether there has been a hearing or not, must be recorded immediately in a document which, except in the case of a decision by consent, must also contain, or have annexed to it, a statement of the reasons (in summary form) for the tribunal panel's decision, and such document must be signed and dated by the Chair.

(4) Neither a decision given orally nor the document referred to in paragraph (3) may contain any reference to the decision being by majority (if that is the case) or to any opinion of a minority.

(5) Every decision of the tribunal panel must be entered in the Register.

(6) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon copi o'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (3), cyn gynted ag y bo'n ymarferol, at bob parti ynghyd â chanllawiau, ar ffurf a gymeradwyir gan y Llywydd, ar yr amgylchiadau pan fo hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y panel tribiwnlys ac ar y weithdrefn i'w dilyn.

(7) Pan fo rheoliad 13(11)(a) neu 62(2) yn gymwys, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon copi o'r dogfennau y cyfeirir atynt ym mharagraff (6) at yr apelydd neu'r hawlydd yn ogystal ag at y cynrychiolydd neu'r cyfaill achos.

(8) Mae pob penderfyniad i'w drin fel pe bai wedi ei wneud ar y dyddiad yr anfonir copi o'r ddogfen sy'n ei gofnodi at yr apelydd neu'r hawlydd (pa un a gyhoeddwyd y penderfyniad yn flaenorol ar ddiwedd y gwrandawriad ai peidio).

Ar ôl y gwrandawriad

Cais neu gynnig ar gyfer adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys

53.—(1) Caiff parti wneud cais i Ysgrifennydd y Tribiwnlys i benderfyniad y Llywydd neu'r panel tribiwnlys gael ei adolygu ar y seiliau—

- (a) bod y penderfyniad wedi ei wneud yn anghywir o ganlyniad i wall perthnasol ar ran gweinyddiaeth y Tribiwnlys,
- (b) bod gan barti a oedd â hawlogaeth i gael ei glywed yn y gwrandawriad, ond a fethodd ag ymddangos neu gael ei gynrychioli, reswm da a digonol dros beidio ag ymddangos,
- (c) bod gwall amlwg a pherthnasol yn y penderfyniad, neu
- (d) bod buddiannau cyfiawnder yn gwneud hynny'n ofynnol.

(2) Rhaid i gais am adolygu penderfyniad y Llywydd neu'r panel tribiwnlys gael ei wneud—

- (a) yn ysgrifenedig, gan ddatgan y seiliau, a
- (b) heb fod yn hwyrach nag 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad yr anfonwyd y penderfyniad at y partion.

(3) Caiff y Llywydd—

- (a) ar gais parti neu ar ysgogiad y Llywydd ei hun, adolygu a gosod o'r neilltu neu amrywio unrhyw benderfyniad a wneir gan y Llywydd, ar un o'r seiliau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1), neu
- (b) gwrthod cais am adolygiad o benderfyniad y Llywydd yn unol â pharagraff (6).

(6) The Secretary of the Tribunal must send a copy of the document referred to in paragraph (3) as soon as is practicable to each party, accompanied by guidance, in a form approved by the President, about the circumstances in which there is a right to appeal against the tribunal panel decision and the procedure to be followed.

(7) Where regulation 13(11)(a) or 62(2) applies, the Secretary of the Tribunal must send a copy of the documents referred to in paragraph (6) to the appellant or claimant in addition to the representative or the case friend.

(8) Every decision is to be treated as having been made on the date on which a copy of the document recording it is sent to the appellant or claimant (whether or not the decision has previously been announced at the end of the hearing).

After the hearing

Application or proposal for review of the Tribunal's decision

53.—(1) A party may apply to the Secretary of the Tribunal for the decision of the President or the tribunal panel to be reviewed on the grounds that—

- (a) the decision was wrongly made as a result of a material error on the part of the Tribunal administration,
- (b) a party, who was entitled to be heard at the hearing but failed to appear or to be represented, had good and sufficient reason for failing to appear,
- (c) there was an obvious and material error in the decision, or
- (d) the interests of justice so require.

(2) An application that a decision of the President or the tribunal panel is reviewed must be made—

- (a) in writing stating the grounds, and
- (b) no later than 28 days after the date on which the decision was sent to the parties.

(3) The President may—

- (a) on the application of a party or on the President's own initiative, review and set aside or vary any decision made by the President on a ground referred to in paragraph (1), or
- (b) refuse an application for a review of the President's decision in accordance with paragraph (6).

(4) Caiff y Llywydd neu Gadeirydd y panel tribiwnlys a benderfynodd yr achos—

- (a) ar gais parti, neu ar ysgogiad y Llywydd neu'r Cadeirydd ei hun, adolygu a gosod o'r neilltu neu amrywio unrhyw benderfyniad a wneir gan y panel tribiwnlys ar un o'r seiliau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1), neu
- (b) gwrthod cais am adolygiad o benderfyniad y panel tribiwnlys yn unol â pharagraff (6).

(5) Caiff Cadeirydd y panel tribiwnlys a benderfynodd yr achos orchymyn cynnal ail wrandawriad, gerbron yr un panel tribiwnlys neu gerbron panel tribiwnlys sydd wedi ei gyfansoddi'n wahanol.

(6) Caiff Llywydd neu Gadeirydd y panel tribiwnlys a benderfynodd yr achos wrthod y cais am adolygiad yn gyfan gwbl neu'n rhannol os, ym marn y Llywydd neu'r Cadeirydd, nad oes siawns resymol i'r cais cyfan hwnnw neu'r rhan honno lwyddo.

(7) Oni wrthodir cais am adolygiad yn unol â pharagraff (6), rhaid i'r adolygiad gael ei benderfynu ar ôl rhoi cyfle i'r partïon i gael eu clywed—

- (a) gan y Llywydd, pan wnaed y penderfyniad gan y Llywydd, neu
- (b) pan wnaed y penderfyniad gan banel tribiwnlys, gan y Llywydd neu'r panel tribiwnlys a wnaeth y penderfyniad neu gan banel tribiwnlys arall a benodir gan y Llywydd.

(8) Os yw Llywydd neu Gadeirydd y panel tribiwnlys a benderfynodd yr achos, ar ysgogiad y Llywydd neu'r Cadeirydd ei hun, yn cynnig y dylid adolygu penderfyniad—

- (a) rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gyflwyno hysbysiad i'r partïon heb fod yn hwyrach nag 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad yr anfonwyd y penderfyniad at y partïon, a
- (b) rhaid rhoi cyfle i'r partïon i gael eu clywed.

(9) Wrth benderfynu cais neu gynnig ar gyfer adolygiad o dan baragraff (3), (4) neu (7), caiff y Llywydd neu'r Cadeirydd roi cyfarwyddydau y mae rhaid cydymffurfio â hwy cyn neu yn ystod y gwrandawriad o'r adolygiad.

(10) Os yw parti yn methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd a wneir o dan baragraff (9), caiff y panel tribiwnlys ystyried y ffaith honno wrth benderfynu'r adolygiad neu wrth benderfynu pa un ai i wneud gorchymyn ar gyfer costau.

(11) Caiff y Llywydd neu'r Cadeirydd, ar gais parti, roi caniatâd i'r parti hwnnw newid tyst at ddiben y gwrandawriad adolygu.

(4) The President or the Chair of the tribunal panel which decided the case may—

- (a) on the application of a party, or on the President's or Chair's own initiative, review and set aside or vary any decision made by the tribunal panel on a ground referred to in paragraph (1), or
- (b) refuse an application for a review of the tribunal panel's decision in accordance with paragraph (6).

(5) The Chair of the tribunal panel which decided the case may order a rehearing before the same or a differently constituted tribunal panel.

(6) An application for a review may be refused in whole or part by the President, or the Chair of the tribunal panel which decided the case, if in the President's or the Chair's opinion the whole or part of it has no reasonable chance of success.

(7) Unless an application for a review is refused in accordance with paragraph (6), the review must be determined after the parties have had an opportunity to be heard—

- (a) by the President, where the decision was made by the President, or
- (b) where the decision was made by a tribunal panel, by the President or the tribunal panel which made the decision or by another tribunal panel appointed by the President.

(8) If the President or the Chair of the tribunal panel which decided the case proposes, on the President's or the Chair's own initiative, that a decision is reviewed—

- (a) the Secretary of the Tribunal must serve notice on the parties no later than 28 days after the date on which the decision was sent to the parties, and
- (b) the parties must have an opportunity to be heard.

(9) In determining an application or a proposal for a review under paragraph (3), (4) or (7), the President or the Chair may give directions to be complied with before or at the hearing of the review.

(10) If a party fails to comply with a direction made under paragraph (9), the tribunal panel may take account of that fact when determining the review or deciding whether to make an order for costs.

(11) The President or the Chair may on the application of a party, give permission for that party to change a witness for the purpose of the review hearing.

(12) Rhaid i gais a wneir o dan baragraff (11) ddod i law Ysgrifennydd y Tribiwnlys, a rhaid i'r ceisydd gyflwyno'r cais i'r parti arall, heb fod yn hwyrach na 14 o ddiwrnodau cyn y gwrandawriad adolygu.

(13) Rhaid i'r Llywydd neu'r Cadeirydd roi cyfle i'r partion i gael eu clywed ynghylch unrhyw gais a wneir o dan baragraff (11).

(14) Os gosodir penderfyniad o'r neilltu neu os amrywir penderfyniad yn dilyn adolygiad o dan y rheoliad hwn, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys newid y cofnod yn y Gofrestr a rhaid iddo hysbysu'r partion yn unol â hynny.

Adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys i beidio ag estyn y cyfnod a ganiateir ar gyfer cychwyn achos

54.—(1) Caniateir i benderfyniad gan y Llywydd i beidio ag estyn yr amser a ganiateir o dan reoliad 14 ar gyfer cyflwyno cais apelio gael ei adolygu o dan reoliad 53 ar gais person fel pe bai'r person hwnnw yn barti yn yr apêl.

(2) Pan fo'r Llywydd yn penderfynu peidio ag ystyried hawliad sydd y tu allan i'r amser, o dan baragraff 4(3) o Atodlen 17 i Ddeddf 2010, caniateir adolygu'r penderfyniad hwnnw o dan reoliad 53 ar gais person fel pe bai'r person hwnnw yn barti yn yr hawliad.

(3) Os gwneir cais am adolygiad o dan baragraff (1) neu (2), rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gyflwyno copi o'r cais i'r awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol ynghyd â hysbysiad sy'n gwahodd sylwadau ysgrifenedig o fewn cyfnod penodedig.

Cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys

55.—(1) Rhaid i barti sy'n ceisio caniatâd i apelio ar bwynt cyfreithiol o dan adran 81 o Ddeddf 2018 neu baragraff 6AA o Atodlen 17 i Ddeddf 2010 (apelau o Dribiwnlys Addysg Cymru i'r Uwch Dribiwnlys) wneud cais ysgrifenedig i'r Tribiwnlys Addysg am ganiatâd i apelio.

(2) Rhaid i gais o dan baragraff (1) gael ei anfon at Ysgrifennydd y Tribiwnlys heb fod yn hwyrach nag 28 o ddiwrnodau ar ôl y diweddaraf o'r dyddiadau yr anfonodd Ysgrifennydd y Tribiwnlys at y parti sy'n gwneud y cais—

- (a) hysbysiad o'r penderfyniad,
- (b) hysbysiad bod cais i'r penderfyniad gael ei adolygu wedi bod yn aflwyddiannus, neu
- (c) hysbysiad bod y penderfyniad wedi ei amrywio yn dilyn adolygiad.

(3) Rhaid i gais o dan baragraff (1)—

- (a) nodi'r penderfyniad y mae'n ymwneud ag ef,

(12) An application made under paragraph (11), must be received by the Secretary of the Tribunal and served by the applicant on the other party, no later than 14 days before the review hearing.

(13) The President or the Chair must give the parties the opportunity to be heard on any application made under paragraph (11).

(14) If a decision is set aside or varied following a review under this regulation the Secretary of the Tribunal must alter the entry in the Register and must notify the parties accordingly.

Review of Tribunal's decision not to extend the period in which proceedings must be commenced

54.—(1) A decision by the President not to extend the time for submitting an appeal application under regulation 14 may be reviewed under regulation 53 on the application of a person as if the person was a party to the appeal.

(2) Where the President decides not to consider a claim which is out of time, under paragraph 4(3) of Schedule 17 to the 2010 Act, that decision may be reviewed under regulation 53 on the application of a person as if the person was a party to the claim.

(3) If an application for review is made under paragraph (1) or (2), the Secretary of the Tribunal must serve a copy of the application on the local authority, FEI governing body or the responsible body together with a notice inviting written representations within a specified period.

Application for permission to appeal to the Upper Tribunal

55.—(1) A party seeking permission to appeal on a point of law under section 81 of the 2018 Act or paragraph 6AA of Schedule 17 to the 2010 Act (appeals from the Education Tribunal for Wales to the Upper Tribunal) must make a written application to the Education Tribunal for permission to appeal.

(2) An application under paragraph (1) must be sent to the Secretary of the Tribunal no later than 28 days after the latest of the dates that the Secretary of the Tribunal sent to the party making the application—

- (a) notification of the decision,
- (b) notification that an application for the decision to be reviewed has been unsuccessful, or
- (c) notification that the decision has been varied following a review.

(3) An application under paragraph (1) must—

- (a) identify the decision to which it relates,

- (b) nodi'r gwall cyfreithiol honedig neu'r gwallau cyfreithiol honedig yn y penderfyniad, ac
- (c) datgan y canlyniad a geisir gan y parti sy'n gwneud y cais.

(4) Caiff y Llywydd neu'r Cadeirydd roi cyfarwyddydau mewn perthynas â phenderfynu'r cais, a chaiff wneud ei benderfyniad ar y cais gyda gwrandawriad neu hebddo.

(5) Wrth gael cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys rhaid i Lywydd neu Gadeirydd y panel tribiwnlys a benderfynodd yr achos ystyried yn gyntaf, gan gymryd i ystyriaeth y prif amcan yn rheoliad 4, pa un ai i adolygu penderfyniad y Tribiwnlys yn unol â rheoliad 53, oni fydd y Llywydd neu'r Cadeirydd eisoes wedi adolygu'r penderfyniad, neu wedi penderfynu peidio ag adolygu'r penderfyniad.

(6) Os yw'r Llywydd neu'r Cadeirydd yn penderfynu peidio ag adolygu'r penderfyniad, neu'n adolygu'r penderfyniad ac yn penderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau gweithredu mewn perthynas â'r penderfyniad, neu ran ohono, rhaid i'r Llywydd neu'r Cadeirydd ystyried wedyn pa un ai i roi caniatâd i apelio mewn perthynas â'r penderfyniad, neu'r rhan honno o'r penderfyniad.

(7) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad y Llywydd neu'r Cadeirydd ar y cais at y partïon cyn gynted ag y bo'n ymarferol gan gynnwys manylion unrhyw benderfyniad i roi caniatâd i apelio a wneir o dan baragraff (6).

(8) Os yw'r Llywydd neu'r Cadeirydd wedi gwrthod y cais rhaid i'r hysbysiad o dan baragraff (7) hefyd gynnwys—

- (a) y rhesymau dros wrthodiad o'r fath, a
- (b) hysbysiad o'r hawl i wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys am ganiatâd i apelio ac o fewn pa gyfnod o amser, a thrwy ba ddull, y mae rhaid gwneud cais o'r fath.

(9) Caiff y Llywydd neu'r Cadeirydd roi caniatâd i apelio ar seiliau cyfyngedig, ond rhaid iddo gydymffurfio â pharagraff (8) mewn perthynas ag unrhyw seiliau y mae wedi gwrthod caniatâd arnynt.

Pŵer i atal dros dro benderfyniad y Tribiwnlys

56. Caiff Llywydd neu Gadeirydd y panel tribiwnlys a benderfynodd yr achos, ar gais, neu ar ysgogiad y Llywydd neu'r Cadeirydd ei hun, wneud gorchymyn i atal dros dro effaith penderfyniad y panel tribiwnlys hyd nes y ceir penderfyniad gan y Llywydd neu'r Cadeirydd neu'r Uwch Dribiwnlys ar gais am ganiatâd i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw ac unrhyw apêl neu adolygiad ohono.

- (b) identify the alleged error or errors of law in the decision, and
- (c) state the result the party making the application is seeking.

(4) The President or Chair may give directions in relation to the determination of the application, and may make its decision on the application with or without a hearing.

(5) On receiving an application for permission to appeal to the Upper Tribunal the President or the Chair of the tribunal panel which decided the case must first consider, taking into account the overriding objective in regulation 4, whether to review the Tribunal's decision in accordance with regulation 53 unless the President or the Chair have already reviewed the decision or decided not to review the decision.

(6) If the President or the Chair decides not to review the decision, or reviews the decision and decides to take no action in relation to the decision, or part of it, the President or the Chair must then consider whether to give permission to appeal in relation to the decision or that part of it.

(7) The Secretary of the Tribunal must send written notification of the President or Chair's decision on the application to the parties as soon as practicable including details of any decision to give permission to appeal made under paragraph (6).

(8) If the President or Chair has refused the application the notification under paragraph (7) must also include—

- (a) the reasons for such refusal, and
- (b) notification of the right to make an application to the Upper Tribunal for permission to appeal and the time within which, and the method by which, such application must be made.

(9) The President or Chair may give permission to appeal on limited grounds, but must comply with paragraph (8) in relation to any grounds on which it has refused permission.

Power to suspend Tribunal's decision

56. The President or the Chair of the tribunal panel which decided the case may, on application or on the President's or the Chair's own initiative, make an order to suspend the effect of the tribunal panel's decision pending the determination by the President or the Chair or the Upper Tribunal of an application for permission to appeal against, and any appeal or review of, that decision.

Gorchmynion yr Uwch Dribiwnlys neu'r Llys

57.—(1) Os caiff unrhyw benderfyniad gan y Tribiwnlys ei osod o'r neilltu, ei amrywio neu ei newid mewn unrhyw ffordd drwy orchymyn gan yr Uwch Dribiwnlys neu'r Llys, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys newid y cofnod yn y Gofrestr i gyfateb i'r gorchymyn hwnnw, a rhaid iddo hysbysu'r partïon yn unol â hynny.

(2) Os ailgyflwynir yr apêl neu'r hawliad i'r Tribiwnlys, drwy orchymyn gan yr Uwch Dribiwnlys neu'r Llys, i'w hailglywed neu i'w ailglywed, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys hysbysu'r partïon y caiff pob parti, yn ystod cyfnod o 15 niwrnod gwaith (neu gyfnod byrrach y mae'r partïon yn cytuno arno), gyflwyno datganiad achos atodol a thystiolaeth ysgrifenedig bellach.

(3) Os caiff gorchymyn i ddileu'r cais apelio neu'r cais hawlio ei ddiddymu neu ei osod o'r neilltu gan yr Uwch Dribiwnlys neu'r Llys, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys hysbysu'r partïon—

- (a) mewn achos pan nad oedd cyfnod y datganiad achos wedi dod i ben cyn i'r gorchymyn i ddileu gael effaith—
 - (i) bod cyfnod datganiad achos newydd i ddechrau, a
 - (ii) y caiff y partïon, o fewn cyfnod y datganiad achos newydd, gyflwyno'r ddogfennaeth y cyfeirir ati yn is-baragraff (b) mewn cysylltiad â datganiad achos neu dystiolaeth a gyflwynwyd cyn i'r dileu gymryd effaith, neu
- (b) pan na fo is-baragraff (a) yn gymwys, fod gan bob parti 15 niwrnod gwaith (neu gyfnod byrrach y mae'r partïon yn cytuno arno) i gyflwyno datganiad achos atodol a thystiolaeth ysgrifenedig bellach.

(4) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon copi o'r holl ddatganiadau achos a thystiolaeth ysgrifenedig a geir gan barti yn ystod y cyfnodau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (2) a (3)(b) at y parti arall.

Cydymffurfio â gorchmynion y panel tribiwnlys – apelau

58.—(1) Os yw'r panel tribiwnlys, yn dilyn ei benderfyniad mewn perthynas ag apêl, yn gwneud gorchymyn o dan adran 71 o Ddeddf 2018 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol neu gorff llywodraethu SAB gyflawni'r camau gweithredu y cyfeirir atynt ym mharagraff (2), rhaid i'r awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'r SAB gyflawni'r camau gweithredu o fewn y cyfnod o amser a bennir ym mharagraff (2).

Orders of the Upper Tribunal or the Court

57.—(1) If any decision of the Tribunal is set aside, varied or altered in any way by order of the Upper Tribunal or the Court, the Secretary of the Tribunal must alter the entry in the Register to correspond to that order and must notify the parties accordingly.

(2) If the appeal or the claim is remitted to the Tribunal by order of the Upper Tribunal or the Court to be reheard, the Secretary of the Tribunal must notify the parties that, during a period of 15 working days (or a shorter period as agreed by the parties) each party may submit a supplementary case statement and further written evidence.

(3) If an order to strike out the appeal application or the claim application is quashed or set aside by the Upper Tribunal or the Court, the Secretary of the Tribunal must notify the parties—

- (a) in the case where the case statement period had not expired before the order to strike out took effect—
 - (i) that a new case statement period is to commence, and
 - (ii) that, within the new case statement period, the parties may submit the documentation referred to in subparagraph (b) in respect of a case statement or evidence submitted before the strike out took effect, or
- (b) where subparagraph (a) does not apply, that each party has 15 working days (or a shorter period as the parties may agree in writing) to submit a supplementary case statement and further written evidence.

(4) The Secretary of the Tribunal must send a copy of all case statements and written evidence received from a party during the periods referred to in paragraphs (2) and (3)(b) to the other party.

Compliance with tribunal panel orders - appeals

58.—(1) If the tribunal panel, following its decision in relation to an appeal, makes an order under section 71 of the 2018 Act requiring a local authority or FEI governing body to perform the actions referred to in paragraph (2) the local authority or FEI governing body must perform the actions within the time period specified in paragraph (2).

(2) Yn achos gorchymyn—

- (a) yn erbyn awdurdod lleol i lunio cynllun datblygu unigol, rhaid iddo lunio'r cynllun datblygu unigol a rhoi copi ohono i'r plentyn, i riant y plentyn neu i'r person ifanc o fewn 7 wythnos;
- (b) yn erbyn corff llywodraethu SAB i lunio cynllun datblygu unigol, rhaid iddo lunio'r cynllun datblygu unigol a rhoi copi ohono i'r person ifanc o fewn 35 o ddiwrnodau amser tymor;
- (c) yn erbyn awdurdod lleol i ddiwygio cynllun datblygu unigol, rhaid iddo ddiwygio'r cynllun datblygu unigol a rhoi copi ohono i'r plentyn, i riant y plentyn neu i'r person ifanc o fewn 7 wythnos;
- (d) yn erbyn corff llywodraethu SAB i ddiwygio cynllun datblygu unigol, rhaid iddo ddiwygio'r cynllun datblygu unigol a rhoi copi ohono i'r person ifanc o fewn 35 o ddiwrnodau amser tymor;
- (e) i barhau i gynnal cynllun datblygu unigol (gyda diwygiadau neu hebddynt), gydag effaith ar unwaith;
- (f) yn erbyn awdurdod lleol i gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal cynllun datblygu unigol, gan ddechrau â'r dyddiad a bennir gan y tribiwnlys;
- (g) yn erbyn awdurdod lleol i adolygu cynllun datblygu unigol, rhaid iddo gynnal yr adolygiad a hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc am ganlyniad yr adolygiad, yn ysgrifenedig, o fewn 7 wythnos;
- (h) yn erbyn corff llywodraethu SAB i adolygu cynllun datblygu unigol, rhaid iddo gynnal yr adolygiad a hysbysu'r person ifanc am ganlyniad yr adolygiad, yn ysgrifenedig, o fewn 35 o ddiwrnodau amser tymor;
- (i) i anfon yr achos yn ôl i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y mater er mwyn iddo ailystyried, ar ôl rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan y tribiwnlys, a oes angen gwneud penderfyniad gwahanol neu gymryd camau gweithredu gwahanol, rhaid i'r awdurdod lleol wneud hynny, a hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc am ganlyniad yr ailystyriaeth honno o fewn 7 wythnos;

(2) In the case of an order—

- (a) against a local authority to prepare an individual development plan, it must prepare and give a copy of the individual development plan to the child, child's parent or young person within 7 weeks;
- (b) against a FEI governing body to prepare an individual development plan, it must prepare and give a copy of the individual development plan to the young person within 35 term time days;
- (c) against a local authority to revise an individual development plan, it must revise the individual development plan and give a copy of it to the child, child's parent or young person within 7 weeks;
- (d) against an FEI governing body to revise an individual development plan, it must revise the individual development plan and give a copy of it to the young person within 35 term time days;
- (e) to continue to maintain an individual development plan (with or without revisions), with immediate effect;
- (f) against a local authority to take over responsibility for maintaining an individual development plan, beginning with the date specified by the tribunal;
- (g) against a local authority to review an individual development plan, it must undertake the review and notify the child, child's parent or young person of the outcome of the review, in writing, within 7 weeks;
- (h) against an FEI governing body to review an individual development plan, it must undertake the review and inform the young person of the outcome of the review, in writing within 35 term time days;
- (i) to remit the case to the local authority responsible for the matter for it to reconsider whether, having regard to any observations made by the tribunal, it is necessary for a different decision to be made or a different action to be taken, the local authority must do so, and notify the child, child's parent or young person of the outcome of that reconsideration within 7 weeks;

- (j) i anfon yr achos yn ôl i gorff llywodraethu'r SAB sy'n gyfrifol am y mater er mwyn iddo ailystyried, ar ôl rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan y tribiwnlys, a oes angen gwneud penderfyniad gwahanol neu gymryd camau gweithredu gwahanol, rhaid i gorff llywodraethu'r SAB wneud hynny, a hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc am ganlyniad yr ailystyriaeth honno o fewn 35 o ddiwrnodau amser tymor.

(3) Os yw'r panel tribiwnlys, yn dilyn ei benderfyniad mewn perthynas ag apêl, yn gwneud gorchymyn o dan adran 73 o Ddeddf 2018 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cartref gyflawni gweithred y cyfeirir ati ym mharagraff (4), rhaid i'r awdurdod cartref gyflawni'r weithred honno o fewn y cyfnod o amser a bennir ym mharagraff (4).

(4) Yn achos gorchymyn—

- (a) i lunio cynllun datblygu unigol, rhaid iddo lunio'r cynllun datblygu unigol a rhoi copi ohono i'r plentyn, i riant y plentyn neu i'r person ifanc o fewn 7 wythnos;
- (b) i ddiwygio cynllun datblygu unigol fel a bennir yn y gorchymyn, rhaid iddo ddiwygio'r cynllun datblygu unigol a rhoi copi ohono i'r plentyn, i riant y plentyn neu i'r person ifanc o fewn 7 wythnos;
- (c) i anfon yr achos yn ôl i'r awdurdod cartref sy'n gyfrifol am y mater er mwyn iddo ailystyried, ar ôl rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan y tribiwnlys, a oes angen gwneud penderfyniad gwahanol neu gymryd camau gweithredu gwahanol, rhaid iddo wneud hynny a hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc am ganlyniad yr ailystyriaeth honno o fewn 7 wythnos.

(5) Ym mhob achos ym mharagraffau (2) a (4), oni phennir fel arall, mae'r cyfnod yn dechrau â'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl gwneud y gorchymyn.

(6) Pan fo gorchymyn wedi ei wneud mewn cysylltiad â chorff llywodraethu SAB, ystyr "diwrnod amser tymor" yw diwrnod y mae'r sefydliad addysg bellach i fod i gwrdd at ddiben addysgu myfyrwyr, ar yr amod bod y diwrnod hwnnw o fewn cyfnod o amser pan fo'r sefydliad addysg bellach yn darparu'r rhan fwyaf o'i gyrsiau llawnamser.

- (j) to remit the FEI governing body responsible for the matter for it to reconsider whether, having regard to any observations made by the tribunal, it is necessary for a different decision to be made or a different action to be taken, the FEI governing body must do so, and notify the child, child's parent or young person of the outcome of that reconsideration within 35 term days.

(3) If the tribunal panel, following its decision in relation to an appeal, makes an order under section 73 of the 2018 Act requiring a home authority to perform an action referred to in paragraph (4), the home authority must perform that action within the time period specified in paragraph (4).

(4) In the case of an order—

- (a) to prepare an individual development plan, it must prepare and give a copy of the individual development plan to the child, child's parent or young person within 7 weeks;
- (b) to revise an individual development plan as specified in the order, it must revise the individual development plan and give a copy of it to the child, child's parent or young person within 7 weeks;
- (c) to remit the case to the home authority responsible for the matter for it to reconsider whether, having regard to any observations made by the tribunal, it is necessary for a different decision to be made or different action to be taken, it must do so and notify the child, child's parent or young person of the outcome of that reconsideration within 7 weeks.

(5) In each case in paragraphs (2) and (4), unless otherwise specified, the period begins with the first working day after the order was made.

(6) Where an order is made in respect of an FEI governing body, a "term time day" means a day on which the further education institution is due to meet for the purpose of teaching students, provided that day is within a time period in which the further education institution delivers the majority of its full-time courses.

Ceisiadau o dan adran 70(3) o Ddeddf 2018 am ddatganiad o dan adran 71(2) o Ddeddf 2018 sy'n ymwneud â galluedd plentyn i ddeall

Applications under section 70(3) of the 2018 Act for a declaration under section 71(2) of the 2018 Act relating to child's capacity to understand

59.—(1) Rhaid i blentyn neu riant i blentyn sy'n ceisio datganiad o'r tribiwnlys yn unol ag adran 71(2) o Ddeddf 2018 gyflwyno cais yn ysgrifenedig i'r tribiwnlys.

59.—(1) A child or child's parent seeking a declaration from the tribunal pursuant to section 71(2) of the 2018 Act must submit an application in writing to the tribunal.

(2) Rhaid i'r cais ddatgan—

(2) The application must state—

- (a) enw a chyfeiriad y person sy'n ceisio'r datganiad ac, os ydynt ar gael, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost y person hwnnw;
- (b) enw a dyddiad geni'r plentyn;
- (c) enw a chyfeiriad ysgol y plentyn a'r awdurdod lleol perthnasol;
- (d) perthynas y ceisydd â'r plentyn;
- (e) enw a chyfeiriad pob person—
 - (i) y mae ganddo gyfrifoldeb rhiant dros blentyn, neu
 - (ii) sy'n rhannu cyfrifoldeb rhiant dros blentyn, neu
 - (iii) sy'n gofalu am y plentyn, neu'r rhesymau pam na ddarperir enwau a chyfeiriadau'r personau hynny;
- (f) copi o benderfyniadau'r corff llywodraethu a'r awdurdod lleol o dan adran 84 o Ddeddf 2018 sy'n ymwneud â galluedd y plentyn;
- (g) y rheswm neu'r rhesymau dros wneud y cais;
- (h) tystiolaeth ategol o alluedd y plentyn, neu dystiolaeth ategol nad oes ganddo alluedd, o fewn ystyr adran 85(1) o Ddeddf 2018;
- (i) y datganiad a geisir.

- (a) the name and address of the person seeking the declaration and, if available, the person's telephone number and e-mail address;
- (b) the name and date of birth of the child;
- (c) the name and address of the child's school and the relevant local authority;
- (d) the applicant's relationship to the child;
- (e) the names and addresses of all persons—
 - (i) who have parental responsibility for a child, or
 - (ii) who share parental responsibility for a child, or
 - (iii) have care of the child, or reasons why the names and addresses of such persons are not provided;
- (f) a copy of the governing body's and local authority's decisions under section 84 of the 2018 Act relating to the child's capacity;
- (g) the reason or reasons for making the application;
- (h) supporting evidence of the child's capacity, or lack of capacity, within the meaning of section 85(1) of the 2018 Act;
- (i) the declaration sought.

(3) Pan fo'n ymddangos i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys bod angen gwybodaeth bellach cyn y gall datganiad gael ei wneud, caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys gyfarwyddo'r ceisydd i ddarparu'r wybodaeth honno.

(3) Where it appears to the President or tribunal panel that further information is required before a declaration can be made, the President or tribunal panel may direct the applicant to provide such information.

(4) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gyflwyno hysbysiad ynghylch unrhyw ddatganiad a wneir o dan adran 71(2) o Ddeddf 2018 i'r ceisydd, y corff llywodraethu, yr awdurdod lleol a, phan fo'n briodol, y rheini a restrir ym mharagraff (2)(e).

(4) The Secretary of the Tribunal must serve notice of any declaration made under section 71(2) of the 2018 Act on the applicant, the governing body, the local authority and, where appropriate, those listed in paragraph (2)(e).

(5) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gofnodi'r penderfyniad ac unrhyw ddatganiad yn y Gofrestr.

(5) The Secretary of the Tribunal must record the decision and any declaration in the Register.

Pwy a gaiff fod yn gyfaill achos

60. Ni chaiff person weithredu fel cyfaill achos ond os nad yw'r person hwnnw wedi ei wahardd rhag gweithgaredd rheoleiddiedig sy'n ymwneud â phlant o dan adran 3(2)(a) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(1).

Sut y daw person yn gyfaill achos

61.—(1) Rhaid i berson sy'n dymuno gweithredu fel cyfaill achos gyflwyno cais yn ysgrifenedig i'r Tribiwnlys.

(2) Rhaid i'r cais ddatgan—

- (a) enw a chyfeiriad y person sy'n dymuno gweithredu fel cyfaill achos y plentyn ac, os ydynt ar gael, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost y person hwnnw;
- (b) enw a dyddiad geni'r plentyn;
- (c) enw a chyfeiriad ysgol y plentyn a'r awdurdod lleol perthnasol;
- (d) perthynas neu gysylltiad y person â'r plentyn;
- (e) datganiad o addasrwydd sy'n cadarnhau bod y person yn bodloni'r amodau a'r gofynion a bennir yn y Rheoliadau hyn ac yn adran 85(6) o Ddeddf 2018;
- (f) tystiolaeth ategol nad oes gan y plentyn alluedd o fewn ystyr adran 85(1) o Ddeddf 2018.

(3) Rhaid i'r cais gynnwys—

- (a) safbwyntiau rhiant y plentyn mewn perthynas â dymuniad y person i weithredu fel y cyfaill achos, neu
- (b) esboniad pam nad yw'r person wedi canfod safbwyntiau'r rhiant.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), rhaid cyflwyno tystysgrif datgeliad manylach a ddyroddir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gyda'r datganiad addasrwydd.

(5) Nid yw'r gofyniad ym mharagraff (4) yn gymwys pan fo'r person sy'n dymuno gweithredu fel y cyfaill achos yn rhiant, llys-riant, brawd, llysfrawd, hanner brawd, chwaer, llyschwaer, hanner chwaer, tad-cu/taid, mam-gu/nain, ewythr, modryb, nai neu nyth i'r plentyn.

Who may be a case friend

60. A person may only act as a case friend if the person is not barred from regulated activity relating to children under section 3(2)(a) of the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006(1).

How a person becomes a case friend

61.—(1) A person who wishes to act as a case friend must submit an application in writing to the Tribunal.

(2) The application must state—

- (a) the name and address of the person who wishes to act as the child's case friend and, if available, the person's telephone number and e-mail address;
- (b) the name and date of birth of the child;
- (c) the name and address of the child's school and the relevant local authority;
- (d) the person's relationship or connection to the child;
- (e) a declaration of suitability confirming that the person satisfies the conditions and requirements specified in these Regulations and section 85(6) of the 2018 Act;
- (f) supporting evidence of the child's lack of capacity within the meaning of section 85(1) of the 2018 Act.

(3) The application must include—

- (a) the views of the child's parent in relation to the person's wish to act as the case friend, or
- (b) an explanation of why the person has not established the parent's views.

(4) Subject to paragraph (5), the declaration of suitability must be accompanied by an enhanced disclosure certificate issued by the Disclosure and Barring Service.

(5) The requirement in paragraph (4) does not apply where the person who wishes to act as the case friend is the child's parent, step-parent, brother, step-brother, half-brother, sister, step-sister, half-sister, grandparent, uncle, aunt, nephew or niece.

(1) O dan adran 3(2)(a) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (p. 47), mae person wedi ei wahardd rhag gweithgaredd rheoleiddiedig sy'n ymwneud â phlant os yw enw'r person wedi ei gynnwys yn y rhestr yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno ("the children's barred list").

(1) Under section 3(2)(a) of the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006 (c. 47), a person is barred from regulated activity relating to children if the person's name is included in the list in Part 1 of Schedule 3 to that Act ("the children's barred list").

- (6) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys—
- (a) cofnodi ar gofrestr y Tribiwnlys rif y dystysgrif datgeliad manylach ynghyd â'r dyddiad dechrau a'r dyddiad dod i ben, a
 - (b) defnyddio'r gwasanaeth danfon cofnodedig i ddychwelyd y dystysgrif datgeliad manylach i'r person.

(7) Rhaid i dystiolaeth i gefnogi addasrwydd y person i weithredu fel cyfaill achos gael ei chyflwyno gyda'r cais.

(8) Rhaid i'r cais gael ei lofnodi gan y person sy'n dymuno gweithredu fel cyfaill achos y plentyn.

(9) Rhaid i'r person sy'n dymuno gweithredu fel cyfaill achos y plentyn gyflwyno copi o'r cais i—

- (a) y partïon yn yr achos,
- (b) rhiant y plentyn, ac
- (c) ysgol y plentyn a'r awdurdod lleol.

Camau mewn achosion

62.—(1) Os yw'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn ystod yr apêl neu'r hawliad yn gwneud canfyddiad nad oes gan blentyn sy'n apelydd neu'n hawlydd alluedd i ddeall o fewn ystyr adran 85(1) o Ddeddf 2018, ac y mae arno angen cyfaill achos i gynnal yr achos ar ei ran, ni chaiff unrhyw barti gymryd cam pellach yn yr apêl neu'r hawliad heb ganiatâd y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, hyd nes y bydd ac oni fydd person sy'n dymuno gweithredu fel cyfaill achos yr apelydd neu'r hawlydd wedi cyflwyno cais i'r Tribiwnlys yn unol â rheoliad 61.

(2) Pan fo'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys wedi gorchymyn bod person yn gyfaill achos, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon copi o'r gorchymyn at y cyfaill achos, rhiant y plentyn ac i ysgol y plentyn a'r awdurdod lleol.

(3) Pan fo'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys wedi gorchymyn bod person yn gyfaill achos, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon yr holl ddogfennau a hysbysiadau sy'n ymwneud â'r apêl neu'r hawliad at y cyfaill achos yn hytrach nag at yr apelydd neu'r hawlydd.

(4) Os yw paragraff (3) yn gymwys, rhaid dehongli cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn (sut bynnag y'u mynegir) at anfon dogfennau at yr apelydd neu'r hawlydd, neu at roi hysbysiad i'r apelydd neu'r hawlydd, fel cyfeiriadau at anfon dogfennau at y cyfaill achos, neu at roi hysbysiad i'r cyfaill achos.

(6) The Secretary of the Tribunal must—

- (a) record on the Tribunal's register the enhanced disclosure certificate's number and the start and expiry date, and
- (b) use the recorded delivery service to return the enhanced disclosure certificate to the person.

(7) The application must be accompanied by evidence to support the person's suitability to act as a case friend.

(8) The application must be signed by the person who wishes to act as the child's case friend.

(9) The person who wishes to act as the child's case friend must serve a copy of the application on—

- (a) the parties to the proceedings,
- (b) the child's parent, and
- (c) the child's school and local authority.

Steps in proceedings

62.—(1) If during the appeal or the claim the President or the tribunal panel make a finding that a child appellant or claimant lacks capacity to understand within the meaning of section 85(1) of the 2018 Act and requires a case friend to conduct the proceedings on its behalf, no party may take any further step in the appeal or the claim without the President's or the tribunal panel's permission until and unless a person who wishes to act as the appellant's or the claimant's case friend has submitted an application to the Tribunal in accordance with regulation 61.

(2) Where the President or tribunal panel has ordered that a person is a case friend, the Secretary of the Tribunal must send a copy of the order to the case friend, the child's parent and to the child's school and local authority.

(3) Where the President or tribunal panel has ordered that a person is a case friend, the Secretary of the Tribunal must send all documents and notices concerning the appeal or claim to the case friend instead of the appellant or the claimant.

(4) If paragraph (3) applies, references in these Regulations (however expressed) to sending documents to, or giving notice to, the appellant or the claimant must be construed as references to sending documents to, or giving notice to, the case friend.

Diswyddo cyfaill achos

63.—(1) Caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ddiswyddo cyfaill achos drwy orchymyn yn unol ag adran 85(2)(b) o Ddeddf 2018 ar ysgogiad y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ei hun neu ar gais, os yw wedi ei fodloni—

- (a) nad yw'r person yn bodloni un neu ragor o'r amodau a nodir yn adran 85(6) o Ddeddf 2018, neu
- (b) bod rheswm da arall yn bodoli.

(2) Rhaid i gais am orchymyn i ddiswyddo cyfaill achos gael ei gefnogi gan dystiolaeth.

(3) Pan fo gorchymyn wedi ei wneud o dan baragraff (1), caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys ohirio'r apêl neu'r hawliad hyd nes bod yr apelydd neu'r hawlydd wedi penodi cyfaill achos newydd.

(4) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gyflwyno hysbysiad i'r partïon ynghylch unrhyw orchymyn a wneir o dan baragraff (1) gan ddatgan—

- (a) nad yw'r person yn gweithredu mwyach fel cyfaill achos yr apelydd neu'r hawlydd, a
- (b) pan fo person arall wedi ei roi yn ei le fel cyfaill achos, enw a chyfeiriad y cyfaill achos newydd ar gyfer cyflwyno hysbysiaid a dogfennau.

(5) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gyflwyno copi o gyfarwyddyd a wneir o dan baragraff (1) i—

- (a) y person sydd wedi ei ddiswyddo fel y cyfaill achos,
- (b) rhiant y plentyn, ac
- (c) ysgol y plentyn a'r awdurdod lleol.

Amrywiol

Cyrrff GIG – Adroddiadau i'r Tribiwnlys

64.—(1) Rhaid i gorff GIG y gwnaed argymhelliad iddo gan y Tribiwnlys lunio adroddiad i'r Tribiwnlys cyn diwedd 6 wythnos gan ddechrau â'r dyddiad y gwneir yr argymhelliad.

(2) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys anfon copi o'r adroddiad at bob parti.

Estyn yr amser

65.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), caiff y Llywydd, ar gais parti neu ar ysgogiad y Llywydd ei hun, gyfarwyddo bod cyfnod o amser yn y Rheoliadau hyn neu mewn cyfarwyddyd a wneir odanynt, yn cael ei estyn.

Removing a case friend

63.—(1) The President or the tribunal panel may remove a case friend by order in accordance with section 85(2)(b) of the 2018 Act on the President's or the tribunal panel's own initiative or on application, if satisfied that—

- (a) the person does not meet one or more of the conditions set out in section 85(6) of the 2018 Act, or
- (b) other good reason exists.

(2) An application for an order to remove a case friend must be supported by evidence.

(3) Where an order is made under paragraph (1), the President or the tribunal panel may stay the appeal or the claim until the appellant or the claimant has appointed a new case friend.

(4) The Secretary of the Tribunal must serve notice on the parties of any order made under paragraph (1) stating—

- (a) that the person no longer acts as the appellant's or the claimant's case friend, and
- (b) where a person has been substituted as a case friend, the name and address of the new case friend for service of notices and documents.

(5) The Secretary of the Tribunal must serve a copy of a direction made under paragraph (1) on—

- (a) the person who has been removed as the case friend,
- (b) the child's parent, and
- (c) the child's school and local authority.

Miscellaneous

NHS bodies – Reports to the Tribunal

64.—(1) An NHS body to whom a recommendation has been made by the Tribunal must make a report to the Tribunal before the end of 6 weeks beginning with the date on which the recommendation is made.

(2) The Secretary of the Tribunal must send a copy of the report to each party.

Extension of time

65.—(1) Subject to paragraph (2), the President may, on application of a party or on the President's own initiative, direct that a period of time in these Regulations or a direction made under them is extended.

(2) Ni chaiff y Llywydd estyn cyfnod o amser yn unol â pharagraff (1) ond os yw'r Llywydd yn ystyried ei bod yn deg ac yn gyfiawn gwneud hynny.

(3) Caiff y Llywydd estyn cyfnod o amser yn ôl unrhyw gyfnod y mae'r Llywydd yn meddwl ei fod yn addas.

(4) Pan fo'r Llywydd wedi estyn cyfnod o amser, rhaid dehongli cyfeiriad at y cyfnod hwnnw o amser yn y Rheoliadau hyn, neu mewn cyfarwyddyd a wneir odanynt, fel pe bai'n gyfeiriad at y cyfnod o amser a estynnwyd felly.

Tynnu'n ôl

66. Caiff person dynnu apêl neu hawliad yn ôl—

- (a) drwy roi hysbysiad i Ysgrifennydd y Tribiwnlys ar unrhyw adeg cyn gwrandawriad, neu
- (b) ar lafar mewn gwrandawriad.

Gorchmynion ar gyfer costau a threuliau

67.—(1) Fel rheol, ni chaiff y Llywydd neu Gadeirydd y panel tribiwnlys a benderfynodd yr achos wneud gorchmyn mewn cysylltiad â chostau a threuliau, ond, yn ddarostyngedig i baragraff (3), caiff wneud gorchmyn o'r fath—

- (a) yn erbyn parti os yw'r Llywydd neu'r Cadeirydd o'r farn bod y parti wedi bod yn gyfrifol am weithred neu anweithred amhriodol, afresymol neu esgeulus, neu am unrhyw fethiant i gydymffurfio â chyfarwyddyd, neu am unrhyw oedi y gellid, gyda diwydrwydd, fod wedi ei osgoi, neu fod ymddygiad y parti, wrth wneud neu wrthwynebu'r apêl neu'r hawliad, yn afresymol;
- (b) yn erbyn cynrychiolydd os yw'r Llywydd neu'r Cadeirydd o'r farn bod y cynrychiolydd yn gyfrifol am weithred neu anweithred amhriodol, afresymol neu esgeulus, neu am unrhyw fethiant i gydymffurfio â chyfarwyddyd, neu am unrhyw oedi y gellid, gyda diwydrwydd, fod wedi ei osgoi;
- (c) yn erbyn parti sydd wedi methu â bod yn bresennol neu gael ei gynrychioli mewn gwrandawriad yr hysbyswyd y parti hwnnw amdano yn briodol;
- (d) yn erbyn yr awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol pan na fo wedi cyflwyno datganiad achos o dan reoliad 19;
- (e) yn erbyn yr awdurdod lleol, corff llywodraethu'r SAB neu'r corff cyfrifol pan fo'r Llywydd neu'r Cadeirydd yn ystyried bod y penderfyniad a herir yn afresymol.

(2) The President may only extend a period of time in accordance with paragraph (1) if the President considers it fair and just to do so.

(3) The President may extend a period of time by such period as the President thinks fit.

(4) Where the President has extended a period of time, reference in these Regulations or in a direction made under them to that period of time must be construed as a reference to the period of time so extended.

Withdrawal

66. A person may withdraw an appeal or a claim—

- (a) by giving notice to the Secretary of the Tribunal at any time before a hearing, or
- (b) orally at a hearing.

Orders for costs and expenses

67.—(1) The President or the Chair of the tribunal panel which decided the case must not normally make an order in respect of costs and expenses, but may, subject to paragraph (3), make such an order—

- (a) against a party if the President or the Chair is of the opinion that a party has been responsible for improper, unreasonable or negligent action or omission, or for any failure to comply with a direction or any delay which with diligence could have been avoided or that the party's conduct in making or resisting the appeal or claim was unreasonable;
- (b) against a representative if the President or the Chair is of the opinion that the representative is responsible for improper, unreasonable or negligent action or omission, or for any failure to comply with a direction or any delay which with diligence could have been avoided;
- (c) against a party who has failed to attend or be represented at a hearing of which that party has been duly notified;
- (d) against the local authority, FEI governing body or responsible body where it has not submitted a case statement under regulation 19;
- (e) against the local authority, FEI governing body or the responsible body where the President or the Chair considers that the disputed decision was unreasonable.

(2) Caniateir gwneud unrhyw orchymyn mewn cysylltiad â chostau a threuliau—

- (a) mewn perthynas ag unrhyw gostau a threuliau yr eir iddynt, neu unrhyw lwfansau a delir, neu
- (b) mewn perthynas â'r cyfan, neu unrhyw ran, o unrhyw lwfans (ac eithrio lwfansau a delir i aelodau o'r Tribiwnlys) a delir gan Weinidogion Cymru i unrhyw berson at ddibenion presenoldeb person mewn gwrandawriad Tribiwnlys neu mewn cysylltiad â'r presenoldeb hwnnw.

(3) Caniateir gwneud gorchymyn ar gyfer costau ar gais parti neu ar ysgogiad y Llywydd neu'r Cadeirydd ei hun.

(4) Rhaid i barti sy'n gwneud cais am orchymyn o dan baragraff (3)—

- (a) cyflwyno cais ysgrifenedig a rhestr o'r costau a hawlir i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, a
- (b) cyflwyno copi o'r cais a'r rhestr o gostau i'r person y bwriedir gwneud y gorchymyn yn ei erbyn.

(5) Caniateir gwneud cais am orchymyn o dan baragraff (3) ar unrhyw adeg yn ystod yr apêl neu'r hawliad ond ni chaniateir ei wneud yn hwyrach nag 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r dyddiad—

- (a) pan ddyroddodd y panel tribiwnlys yr hysbysiad o benderfyniad a oedd yn cofnodi'r penderfyniad a oedd yn penderfynu'n derfynol ar yr holl faterion yn yr apêl neu'r hawliad,
- (b) ar ôl tynnu'n ôl yr apêl neu'r hawliad, pan wnaeth y panel tribiwnlys orchymyn a oedd yn gwrthod yr apêl neu'r hawliad, neu
- (c) yn dilyn ildiad yr awdurdod lleol i'r apêl, pan ddyroddodd y panel tribiwnlys yr hysbysiad o benderfyniad.

(6) Yn achos cais am orchymyn o dan baragraff (3)—

- (a) rhaid i'r Llywydd neu'r Cadeirydd ei wrthod os yw parti yn gofyn i'r Tribiwnlys ystyried mater sydd y tu allan i'w bwerau;
- (b) caiff y Llywydd neu'r Cadeirydd ei wrthod yn gyfan gwbl neu'n rhannol os, ym marn y Llywydd neu'r Cadeirydd, nad oes siawns resymol i'r cais cyfan hwnnw neu'r rhan honno lwyddo.

(2) order in respect of costs and expenses may be made—

- (a) as respects any costs and expenses incurred, or any allowances paid, or
- (b) as respects the whole, or any part, of any allowance (other than allowances paid to members of the Tribunal) paid by the Welsh Ministers to any person for the purposes of, or in connection with, a person's attendance at a Tribunal hearing.

(3) An order for costs may be made on the application of a party or on the President's or the Chair's own initiative.

(4) A party making an application for an order under paragraph (3) must—

- (a) submit a written application and a schedule of costs claimed to the Secretary of the Tribunal, and
- (b) serve a copy of the application and schedule of costs on the person against whom it is proposed that the order is made.

(5) An application for an order under paragraph (3) may be made at any time during the appeal or the claim but may not be made later than 28 days beginning with the date on which the tribunal panel—

- (a) issued the decision notice recording the decision which finally disposed of all issues in the appeal or the claim,
- (b) upon withdrawal of the appeal or the claim, made an order dismissing the appeal or the claim, or
- (c) following the local authority's concession to the appeal, issued the decision notice.

(6) An application for an order under paragraph (3)—

- (a) must be refused by the President or the Chair if a party is asking the Tribunal to consider a matter which is outside its powers;
- (b) may be refused in whole or part by the President or the Chair if, in the President's or the Chair's opinion, the whole or part of it has no reasonable chance of success.

(7) Oni wrthodir cais am orchymyn o dan baragraff (6), rhaid ei benderfynu ar ôl rhoi cyfle i'r parti a'r person y bwriedir gwneud y gorchymyn ei erbyn i gael eu clywed gan y Llywydd neu'r Cadeirydd.

(8) Os gwneir gorchymyn o dan baragraff (3), caiff y Llywydd neu'r Cadeirydd roi cyfarwyddydau y mae rhaid cydymffurfio â hwy cyn neu yn ystod y gwrandawriad costau.

(9) Os yw parti yn methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir o dan baragraff (8), caiff y Llywydd neu'r Cadeirydd ystyried y ffaith honno wrth benderfynu pa un ai i wneud gorchymyn ar gyfer costau.

(10) Caiff gorchymyn o dan baragraff (3) ei gwneud yn ofynnol i'r parti neu'r cynrychiolydd y gwneir y gorchymyn yn ei erbyn dalu i barti naill ai swm penodedig mewn cysylltiad â'r costau a'r treuliau y mae'r parti arall hwnnw yn mynd iddynt mewn cysylltiad â'r apêl neu'r hawliad, neu'r cyfan neu ran o'r costau hynny, fel y'u hasesir, os na chytunir arnynt fel arall.

(11) Rhaid i orchymyn o dan y rheoliad hwn ar gyfer asesu costau ganiatáu i'r llys sirol wneud asesiad manwl o gostau yn unol â Rheolau Trefniadaeth Sifil 1998, naill ai ar y sail safonol neu, os pennir hynny yn y gorchymyn, ar sail indemniad.

Pŵer i arfer swyddogaethau'r Llywydd a'r Cadeirydd

68.—(1) Caiff Cadeirydd arfer unrhyw swyddogaeth y mae'n ofynnol i'r Llywydd ei harfer, neu yr awdurdodir y Llywydd i'w harfer, o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Pan, yn unol â pharagraff (1)—

- (a) bo'n ofynnol i Gadeirydd ddewis Cadeirydd i banel tribiwnlys, caiff Cadeirydd ddewis ei hunan;
- (b) bo Cadeirydd yn gwneud penderfyniad, mae rheoliadau 53 a 55 yn gymwys mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw fel pe baent yn cyfeirio at Gadeirydd yn lle'r Llywydd.

(3) Yn ddarostyngedig i reoliad 73(6), os bydd farw'r Cadeirydd neu os â'n analluog, neu os yw'n peidio â bod yn aelod o'r panel cadeirydd cyfreithiol, yn dilyn penderfyniad o'r panel tribiwnlys, caiff y Llywydd neu Gadeirydd arall a benodir o'r panel cadeirydd cyfreithiol arfer swyddogaethau'r Cadeirydd.

(7) Unless an application for an order is refused under paragraph (6), it must be determined after the party and the person against whom it is proposed that the order is made have had an opportunity to be heard by the President or the Chair.

(8) If an order is made under paragraph (3), the President or the Chair may give directions to be complied with before or at the costs hearing.

(9) If a party fails to comply with a direction given under paragraph (8), the President or the Chair may take account of that fact when deciding whether to make an order for costs.

(10) An order under paragraph (3) may require the party or representative against whom it is made to pay a party either a specified sum in respect of the costs and expenses incurred by that other party in connection with the appeal or claim, or the whole or part of such costs as assessed if not otherwise agreed.

(11) An order under this regulation for costs to be assessed must allow the county court to make a detailed assessment of costs in accordance with the Civil Procedure Rules 1998 either on the standard basis or if specified in the order on the indemnity basis.

Power to exercise the functions of the President and Chair

68.—(1) A Chair may exercise any function which these Regulations require or authorise the President to do.

(2) Where in accordance with paragraph (1), a Chair—

- (a) is required to select the Chair to a tribunal panel, a Chair may select themselves;
- (b) makes a decision, regulations 53 and 55 apply in relation to that decision as if they referred to a Chair in place of the President.

(3) Subject to regulation 73(6), in the event of the death or incapacity of the Chair, or if the Chair ceases to be a member of the legal chair's panel, following the decision of the tribunal panel, the functions of the Chair may be exercised by the President or another Chair appointed from the legal chair's panel.

Pŵer i arfer swyddogaethau aelod o'r panel mewn perthynas ag adolygiad

69.—(1) Os bydd farw aelod o'r panel tribiwnlys ac eithrio'r Cadeirydd, neu os â'n analluog, neu os yw person yn peidio â bod yn aelod o'r panel lleyg, yn dilyn penderfyniad o'r panel tribiwnlys, caiff y ddau aelod arall o'r panel ymgymryd â swyddogaethau'r panel tribiwnlys mewn perthynas ag unrhyw adolygiad o benderfyniad.

(2) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i banel tribiwnlys—

- (a) a gyfansoddir o ddau aelod;
- (b) yr awdurdoddir unrhyw berson i weithredu yn lle'r Cadeirydd ynddo yn unol â rheoliad 68.

Ysgrifennydd y Tribiwnlys

70. Caiff aelod arall o staff y Tribiwnlys a awdurdoddir gan y Llywydd gyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau Ysgrifennydd y Tribiwnlys.

Y Gofrestr

71.—(1) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys gadw Cofrestr o'r apelau a'r hawliadau a gofrestrir gan y Tribiwnlys.

(2) Rhaid gwneud cofnod yn y Gofrestr o bob apêl a hawliad a gofrestrir, a rhaid i'r cofnod ym mhob achos gynnwys y manylion a ganlyn pan fo'n briodol—

- (a) enwau a chyfeiriadau'r partïon,
- (b) manylion cryno am natur yr apêl neu'r hawliad,
- (c) dyddiad unrhyw wrandawriad, gan gynnwys unrhyw wrandawriad ar faterion rhagarweiniol neu gysylltiedig, a phan fo'n briodol, natur y gwrandawriad,
- (d) manylion unrhyw gyfarwyddydau neu orchmynion a ddyroddir,
- (e) y ddogfen y cofnodwyd penderfyniad y panel tribiwnlys ynddi o dan reoliad 52(3), ac
- (f) a yw'r apêl neu'r hawliad wedi ei thynnu neu ei dynnu yn ôl.

(3) Caniateir cadw'r Gofrestr neu unrhyw ran ohoni ar ffurf electronig.

Power to exercise the functions of a panel member in relation to a review

69.—(1) In the event of the death or incapacity of a member of the tribunal panel other than the Chair, or if a person ceases to be a member of the lay panel, following a decision of the tribunal panel, the functions of the tribunal panel in relation to any review of a decision may be undertaken by the other two panel members.

(2) This regulation does not apply to a tribunal panel—

- (a) which is constituted of two members;
- (b) of which any person is authorised to act in place of the Chair in accordance with regulation 68.

The Secretary of the Tribunal

70. Any function of the Secretary of the Tribunal may be performed by another member of the staff of the Tribunal authorised by the President.

Register

71.—(1) The Secretary of the Tribunal must keep a Register of appeals and claims registered by the Tribunal.

(2) There must be entered in the Register a note of all appeals and claims registered, and the entry for each case must contain the following particulars where appropriate—

- (a) the names and addresses of the parties,
- (b) brief details of the nature of the appeal or the claim,
- (c) the date of any hearing including any hearing on preliminary or incidental matters, and, where appropriate, the nature of the hearing,
- (d) details of any directions or orders issued,
- (e) the document in which the decision of the tribunal panel has been recorded under regulation 52(3), and
- (f) whether the appeal or claim has been withdrawn.

(3) The Register or any part of it may be kept in electronic form.

Cyhoeddi

72.—(1) Caiff y Llywydd wneud unrhyw drefniadau y mae'r Llywydd yn ystyried eu bod yn briodol ar gyfer cyhoeddi penderfyniadau'r panel tribiwnlys.

(2) Caniateir cyhoeddi penderfyniadau yn electronig.

(3) Caniateir cyhoeddi penderfyniad ar ffurf sydd wedi ei golygu, neu'n ddarostyngedig i unrhyw ddileadau, pan fo'r Llywydd yn ystyried bod hynny'n briodol, ar ôl rhoi sylw i—

- (a) yr angen i ddiogelu lles a buddiannau'r plentyn, y person ifanc, neu unrhyw berson arall,
- (b) yr angen i barchu bywyd preifat unrhyw berson, neu
- (c) unrhyw sylwadau ar y mater a ddarparwyd yn ysgrifenedig gan unrhyw berson i'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys ar unrhyw adeg cyn cyhoeddi, o dan y trefniadau a wneir o dan baragraff (1).

(4) Rhaid cyhoeddi penderfyniad y panel tribiwnlys mewn modd a fydd yn sicrhau bod enw'r plentyn neu'r person ifanc yn parhau'n anhysbys.

Afreoleidd-dra

73.—(1) Ni chaiff afreoleidd-dra, sy'n deillio o fethiant i gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn, o gyfarwyddyd ymarfer(1), neu o unrhyw gyfarwyddyd gan y Llywydd neu'r panel tribiwnlys cyn i'r panel tribiwnlys wneud ei benderfyniad beri, ynddo'i hun, fod yr achos yn ddi-rym.

(2) Pan fo unrhyw afreoleidd-dra o'r fath yn dod i sylw'r panel tribiwnlys, caiff y panel tribiwnlys, os yw'n ystyried y gall unrhyw berson fod wedi ei ragfarnu gan yr afreoleidd-dra, roi unrhyw gyfarwyddydau y mae'n meddwl eu bod yn gyfiawn, cyn gwneud ei benderfyniad i gywiro'r afreoleidd-dra.

(3) Caiff y Cadeirydd neu'r Llywydd (yn ôl y digwydd), ar unrhyw adeg, gywiro camgymeriadau clercol mewn unrhyw ddogfen sy'n cofnodi cyfarwyddyd neu benderfyniad y panel tribiwnlys neu gyfarwyddyd neu benderfyniad y Llywydd a luniwyd gan neu ar ran y Tribiwnlys, neu wallau mewn dogfennau o'r fath a achoswyd gan lithriadau neu hepgoriadau damweiniol, drwy gyfrwng tystysgrif a lofnodir gan y Cadeirydd neu'r Llywydd.

Publication

72.—(1) The President may make such arrangements as the President considers appropriate for the publication of tribunal panel decisions.

(2) Decisions may be published electronically.

(3) A decision may be published in an edited form, or subject to any deletions, where the President considers that it is appropriate having had regard to—

- (a) the need to safeguard the welfare and interests of the child, the young person, or any other person,
- (b) the need to respect the private life of any person, or
- (c) any representations on the matter which any person has provided in writing to the President or the tribunal panel at any time prior to publication under the arrangements made under paragraph (1).

(4) A decision of the tribunal panel must be published in such manner as to protect the anonymity of the child or young person.

Irregularities

73.—(1) An irregularity resulting from failure to comply with any provision of these Regulations, a practice direction(1) or of any direction of the President or the tribunal panel before the tribunal panel has reached its decision may not of itself render the proceedings void.

(2) Where any such irregularity comes to the attention of the tribunal panel, the tribunal panel may, if it considers that any person may have been prejudiced by the irregularity, give such directions as it thinks just, before reaching its decision to remedy the irregularity.

(3) Clerical mistakes in any document recording a direction or decision of the tribunal panel or a direction or decision of the President produced by or on behalf of the Tribunal or errors arising in such documents from accidental slips or omissions may at any time be corrected by the Chair or the President (as the case may be) by certificate signed by the Chair or the President.

(1) Gweler adran 61(2) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) am bwerau i wneud cyfarwyddydau ymarfer.

(1) See section 61(2) of the Wales Act 2017 (c. 4) for powers to make practice directions.

(4) Rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, anfon copi at bob parti o unrhyw ddogfen gywiredig sy'n cynnwys rhesymau dros benderfyniad y panel tribiwnlys.

(5) Pan fo person wedi penodi cynrychiolydd yn unol â rheoliad 16, rhaid i Ysgrifennydd y Tribiwnlys (er gwaethaf rheoliad 13(11)(a)) anfon copi o'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff (4) at y person yn ogystal ag at y cynrychiolydd.

(6) Pan fo'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cadeirydd lofnodi dogfen, ond na all y Cadeirydd wneud hynny oherwydd marwolaeth neu analluedd, rhaid i aelodau eraill y panel tribiwnlys lofnodi'r ddogfen ac ardystio na all y Cadeirydd ei llofnodi.

Profi dogfennau ac ardystio penderfyniadau

74.—(1) Mae dogfen sy'n honni bod yn ddogfen a ddyroddwyd gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys ar ran y Llywydd neu'r panel tribiwnlys, oni phrofir i'r gwrthwyneb, i'w hystyried yn ddogfen a ddyroddwyd felly.

(2) Mae dogfen sy'n honni ei bod wedi ei hardystio gan Ysgrifennydd y Tribiwnlys fel copi gwir o ddogfen sy'n cynnwys penderfyniad y panel tribiwnlys, oni phrofir i'r gwrthwyneb, yn dystiolaeth ddigonol o gynnwys y ddogfen honno.

Y dull o anfon, rhoi neu gyflwyno hysbysiadau a dogfennau

75.—(1) Rhaid i hysbysiad a roddir o dan y Rheoliadau hyn fod yn ysgrifenedig, a rhaid i barti y mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddo hysbysu Ysgrifennydd y Tribiwnlys am fater, wneud hynny yn ysgrifenedig.

(2) Rhaid i hysbysiadau a dogfennau i'w darparu o dan y Rheoliadau hyn gael—

- (a) eu hanfon drwy'r post rhagdaledig at Ysgrifennydd y Tribiwnlys neu eu danfon â llaw i swyddfa'r Tribiwnlys neu i unrhyw swyddfa arall y mae Ysgrifennydd y Tribiwnlys yn hysbysu'r partion amdani,
- (b) eu hanfon drwy e-bost i'r cyfeiriad a bennir ar gyfer y Tribiwnlys, neu
- (c) eu hanfon neu eu danfon drwy unrhyw ddull arall a ganiateir neu a gyfarwyddir gan y Tribiwnlys.

(3) Ni chaiff parti sy'n anfon hysbysiad neu ddogfen i'r Tribiwnlys drwy e-bost drin yr hysbysiad neu'r ddogfen fel pe bai wedi ei danfon neu ei danfon oni cheir cydnabyddiaeth o hynny gan y Tribiwnlys.

(4) The Secretary of the Tribunal must as soon as practicable send a copy of any corrected document containing reasons for the tribunal panel's decision, to each party.

(5) Where a person has appointed a representative in accordance with regulation 16, the Secretary of the Tribunal must (notwithstanding regulation 13(11)(a)) send a copy of the document referred to in paragraph (4) to the person as well as the representative.

(6) Where these Regulations require the Chair to sign a document, but by reason of death or incapacity the Chair is unable to do so, the other members of the tribunal panel must sign it and certify that the Chair is unable to sign.

Proof of documents and certification of decisions

74.—(1) A document purporting to be a document issued by the Secretary of the Tribunal on behalf of the President or the tribunal panel is, unless the contrary is proved, to be considered to be a document so issued.

(2) A document purporting to be certified by the Secretary of the Tribunal as a true copy of a document containing a decision of the tribunal panel is, unless the contrary is proved, to be sufficient evidence of its contents.

Method of sending, submitting or serving notices and documents

75.—(1) A notice given under these Regulations must be in writing and a party whom the Regulations require to notify a matter to the Secretary of the Tribunal must do so in writing.

(2) Notices and documents to be provided under these Regulations must be—

- (a) sent by pre-paid post to the Secretary of the Tribunal or delivered by hand to the office of the Tribunal or such other office as the Secretary of the Tribunal may notify to the parties,
- (b) sent by e-mail to the address specified for the Tribunal, or
- (c) sent or delivered by such other method as the Tribunal may permit or direct.

(3) A party who sends a notice or document to the Tribunal by e-mail must not treat the notice or document as having been delivered unless its delivery has been acknowledged by the Tribunal.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), os yw parti yn darparu cyfeiriad e-bost neu fanylion eraill ar gyfer cyflwyno hysbysiadau neu ddogfennau iddo, rhaid i'r parti hwnnw dderbyn danfon dogfennau ato drwy'r dull hwnnw.

(5) Os yw parti yn rhoi gwybod i'r Tribiwnlys ac i'r parti arall na chaniateir defnyddio dull cyfathrebu penodol, ac eithrio'r post rhagdaledig neu ddanfon â llaw, i ddarparu dogfennau i'r parti hwnnw, ni chaniateir defnyddio'r dull cyfathrebu hwnnw.

(6) Os yw'r Tribiwnlys neu barti yn anfon dogfen at barti neu i'r Tribiwnlys drwy e-bost neu unrhyw dull cyfathrebu electronig arall, caiff y derbynnydd ofyn i'r anfonwr ddarparu copi caled o'r ddogfen i'r derbynnydd. Rhaid i'r derbynnydd wneud cais o'r fath cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael y ddogfen yn electronig.

(7) Caiff y Tribiwnlys a phob parti gymryd mai'r cyfeiriad a ddarperir gan barti neu gynrychiolydd yw'r cyfeiriad y mae rhaid anfon neu ddanfon dogfennau iddo, ac y bydd yn parhau felly, oni chânt hysbysiad ysgrifenedig i'r gwrthwyneb.

(8) Caniateir i'r hysbysiadau a'r dogfennau y mae'r Rheoliadau hyn yn awdurdodi'r Llywydd, y panel tribiwnlys neu Ysgrifennydd y Tribiwnlys i'w hanfon, neu'n ei gwneud yn ofynnol iddo anfon, gael eu hanfon (yn ddarostyngedig i baragraff (10)), naill ai drwy'r post dosbarth cyntaf neu e-bost, neu drwy eu danfon—

(a) yn achos parti—

- (i) i gyfeiriad y parti hwnnw ar gyfer cyflwyno a bennir yn y cais apelio neu'r cais hawlio neu mewn ateb ysgrifenedig neu mewn hysbysiad o dan baragraff (9), neu
- (ii) os nad oes cyfeiriad ar gyfer cyflwyno wedi ei bennu felly, i'r cyfeiriad diwethaf sy'n hysbys ar gyfer y parti hwnnw, a

(b) yn achos unrhyw berson arall, i breswylfa neu fan busnes y person hwnnw, neu, os yw'r person yn gorfforaeth, i swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r gorfforaeth.

(9) Caiff parti, ar unrhyw adeg, drwy roi hysbysiad i Ysgrifennydd y Tribiwnlys newid cyfeiriad y parti hwnnw ar gyfer cyflwyno o dan y Rheoliadau hyn.

(10) Rhaid defnyddio'r gwasanaeth danfon cofnodedig yn lle'r post dosbarth cyntaf i gyflwyno gwys a ddyroddir o dan reoliad 45, sy'n gwneud presenoldeb tyst yn ofynnol.

(11) Rhaid cymryd bod hysbysiad neu ddogfen a anfonwyd gan y Tribiwnlys drwy'r post dosbarth cyntaf yn unol â'r Rheoliadau hyn, ac nas dychwelwyd i'r Tribiwnlys, wedi ei gael neu ei chael gan y derbynnydd ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl y dyddiad postio, oni ddangosir i'r gwrthwyneb.

(4) Subject to paragraph (5), if a party provides an email address or other details for the service of notices or documents to them, that party must accept delivery of documents by that method.

(5) If a party informs the Tribunal and the other party that a particular form of communication, other than pre-paid post or delivery by hand, must not be used to provide documents to that party, that form of communication must not be used.

(6) If the Tribunal or a party sends a document to a party or the Tribunal by e-mail or any other electronic means of communication, the recipient may request that the sender provide a hard copy of the document to the recipient. The recipient must make such a request as soon as reasonably practicable after receiving the document electronically.

(7) The Tribunal and each party may assume that the address provided by a party or a representative is, and remains, the address to which documents must be sent or delivered unless they receive written notification to the contrary.

(8) Notices and documents which these Regulations authorise or require the President, the tribunal panel or the Secretary of the Tribunal to send may (subject to paragraph (10)) either be sent by first class post or e-mail to or delivered at—

(a) in the case of a party—

- (i) the party's address for service specified in the appeal application or the claim application or in a written reply or in a notice under paragraph (9), or
- (ii) if no address for service has been so specified the party's last known address, and

(b) in the case of any other person, the person's place of residence or business or if the person is a corporation, the corporation's registered or principal office.

(9) A party may at any time by notice to the Secretary of the Tribunal change that party's address for service under these Regulations.

(10) The recorded delivery service must be used instead of first class post for service of a summons issued under regulation 45 requiring the attendance of a witness.

(11) A notice or document sent by the Tribunal by first class post in accordance with these Regulations, and not returned to the Tribunal, is to be taken to have been received by the addressee on the second working day after the date of posting, unless the contrary is shown.

(12) Rhaid tybio, oni ddangosir i'r gwrthwyneb, mai'r dyddiad a ddangosir yn y marc post ar yr amlen sy'n cynnwys yr hysbysiad neu'r ddogfen yw'r dyddiad postio.

(13) Rhaid cymryd bod hysbysiad neu ddogfen a anfonir gan y Tribiwnlys at barti drwy ddefnyddio e-bost wedi ei ddanfôn neu ei danfôn pan geir yr hysbysiad neu'r ddogfen ar ffurf ddarllenadwy.

(14) Pan na ellir, am unrhyw reswm digonol, gyflwyno unrhyw ddogfen neu hysbysiad yn y dull a ragnodir o dan y rheoliad hwn, caiff y Llywydd neu'r panel tribiwnlys hepgor y cyflwyno, neu wneud gorchymyn ar gyfer cyflwyno mewn unrhyw ddull arall y mae'r Llywydd neu'r panel tribiwnlys yn barnu ei fod yn briodol, a rhaid bod cyflwyno yn y dull arall hwnnw yn cael yr un effaith â chyflwyno yn y dull a ragnodir o dan y rheoliad hwn.

Cyfrifo amser

76.—(1) Rhaid i weithred y mae'r Rheoliadau hyn, cyfarwyddyd ymarfer neu gyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol iddi gael ei gwneud ar ddiwrnod penodol neu erbyn diwrnod penodol gael ei gwneud erbyn 5pm ar y diwrnod hwnnw.

(2) Os yw'r amser a bennir gan y Rheoliadau hyn, gan gyfarwyddyd ymarfer neu gan gyfarwyddyd ar gyfer gwneud unrhyw weithred yn gorffen ar ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod gwaith, mae'r weithred wedi ei gwneud mewn pryd os yw wedi ei gwneud ar y diwrnod gwaith canlynol.

(3) Os yw'r amser ar gyfer cychwyn achos drwy ddarparu'r cais apelio neu'r cais hawlio i'r Tribiwnlys o dan reoliad 10 yn gorffen ar ddiwrnod yn y cyfnod sy'n dechrau â 25 Rhagfyr ac sy'n dod i ben ag 1 Ionawr, neu ar unrhyw ddiwrnod ym mis Awst—

- (a) mae'r cais apelio neu'r cais hawlio wedi ei ddarparu mewn pryd os yw'r Tribiwnlys yn ei gael ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl 1 Ionawr neu 31 Awst, fel y bo'n briodol, a
- (b) ni chaniateir cynnwys y diwrnodau yn y cyfnod sy'n dechrau â 25 Rhagfyr ac sy'n dod i ben ag 1 Ionawr nac unrhyw ddiwrnod ym mis Awst wrth gyfrifo'r amser erbyn pryd y mae rhaid gwneud unrhyw weithred arall.

(4) Nid yw paragraff (3)(b) yn gymwys pan fo'r Tribiwnlys yn cyfarwyddo bod rhaid i weithred gael ei gwneud erbyn dyddiad penodedig neu ar y dyddiad hwnnw.

(12) The date of posting is to be presumed, unless the contrary is shown, to be the date shown in the postmark on the envelope in which the notice or document is contained.

(13) A notice or document sent by the Tribunal to a party using e-mail is to be taken to have been delivered when it is received in legible form.

(14) Where for any sufficient reason service of any document or notice cannot be effected in the manner prescribed under this regulation, the President or the tribunal panel may dispense with service or make an order for substituted service in such manner as the President or the tribunal panel may deem fit and such service must have the same effect as service in the manner prescribed under this regulation.

Calculating time

76.—(1) An act required by these Regulations, a practice direction or a direction to be done on or by a particular day must be done by 5pm on that day.

(2) If the time specified by these Regulations, a practice direction or a direction for doing any act ends on a day other than a working day, the act is done in time if it is done on the next working day.

(3) If the time for commencing proceedings by providing the appeal application or the claim application to the Tribunal under regulation 10 ends on a day in the period beginning with 25 December and ending with 1 January, or on any day in August—

- (a) the appeal application or the claim application is provided in time if it is received by the Tribunal on the first working day after 1 January or 31 August, as appropriate, and
- (b) the days in the period beginning with 25 December and ending with 1 January and any day in August must not be counted when calculating the time by which any other act must be done.

(4) Paragraph (3)(b) does not apply where the Tribunal directs that an act must be done by or on a specified date.

Llofnodi dogfennau

77. Pan fo'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddogfen gael ei llofnodi, mae'r gofyniad hwnnw wedi ei fodloni—

- (a) os yw'r llofnod wedi ei ysgrifennu, neu
- (b) yn achos dogfen a gyfathrebir yn electronig yn unol â'r Rheoliadau hyn, gan lofnod electronig y person y mae'n ofynnol iddo ei llofnodi.

Signature of documents

77. Where these Regulations require a document to be signed, that requirement is satisfied—

- (a) if the signature is written, or
- (b) in the case of a document which is communicated electronically in accordance with these Regulations, by the electronic signature of the person who is required to sign it.

Kirsty Williams

Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
Am 2.10 p.m. ar 24 Mawrth 2021

©©Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Education, one of the Welsh Ministers
At 2.10 p.m. on 24 March 2021

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.



a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein

www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070

Archebion ffacs: 0333 202 5080

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn Testun: 0333 202 5077

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online

www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070

Fax orders: 0333 202 5080

E-mail: customer.services@tso.co.uk

Textphone: 0333 202 5077

TSO@Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-348-20828-3



9 780348 208283